


Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig

Archwiliad o Goffáu yng Nghymru



Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Adroddiad ac Archwiliad

26 Tachwedd 2020
Diwygiedig Rhagfyr 2021

Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig

Archwiliad o Goffáu yng Nghymru

Adroddiad ac Archwiliad

Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

Gaynor Legall (Cadeirydd)
Dr Roiyah Saltus
Professor Robert Moore
David Anderson
Dr Marian Gwyn
Naomi Alleyne
Professor Olivette Otele
Professor Chris Evans

Cynhaliodd Dr Peter Wakelin waith ymchwil a drafftio ar ran y grŵp gorchwyl a gorffen.

Delwedd y clawr - y Llyfrgell Brydeinig, Casgliad Curadur Mecanyddol

Cynnwys

1. Cefndir.....	4
2. Cyflwyniad	5
3. Cwmpas	5
4. Dull	7
5. Canlyniadau'r archwiliad.....	8
6. Pobl a oedd yn rhan o'r fasnach mewn caethweision Affricanaidd (A)	8
7. Pobl a oedd yn berchen ar neu'n elwa'n uniongyrchol ar blanhigfeydd neu fwyngloddiau lle'r oedd caethweision yn gweithio (B).....	9
8. Pobl a wrthwynebodd dileu'r fasnach mewn caethweision neu gaethwasiaeth (C)	10
9. Pobl a gyhuddwyd o droseddau yn erbyn pobl dduon, yn enwedig yn nhrefedigaethau Affrica (CH).....	10
10. Mae ymgyrchwyr wedi tynnu sylw at eraill y dylid edrych arnynt yn fanylach (D).....	11
11. Ffigyrau hanesyddol pwysig o dras Du.....	11
12. Trafodaeth 1: Ystyr coffadwriaethau.....	12
13. Trafodaeth 2: Y bobl sy'n cael eu coffáu fwyaf	14
14. Trafodaeth 3: Dadleuon ac euogrwydd	14
15. Y Camau nesaf.....	15
16. Ffynonellau.....	15
Atodiad 1: Personau o ddiddordeb	17
Atodiad 2: Pobl o dras Ddu ag arwyddocâd hanesyddol sy'n cael eu coffáu yng Nghymru o bosibl neu a allai gael eu coffáu yn y dyfodol.....	64
Atodiad 3: Henebion.....	75
Atodiad 4: Adeiladau a lleoedd cyhoeddus	98
Atodiad 5: Strydoedd.....	109

Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru

1. Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2020 penododd y Prif Weinidog Grŵp Gorchwyl a Gorffen i archwilio henebion cyhoeddus, enwau strydoedd ac enwau adeiladu yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r fasnach mewn caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig ac i fwrw golwg hefyd ar gyfraniadau hanesyddol pobl o dras Du at fywyd Cymru. Amcan yr archwiliad yw casglu ac adolygu'r dystiolaeth, ac ar ôl hynny bydd y Grŵp yn nodi materion ar gyfer ail gam posibl. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys aelodau annibynnol o dan arweiniad Gaynor Legall ac fe'u cefnogwyd gan swyddog prosiect a swyddogion yn Cadw.

Detholiad o'r cylch gorchwyl

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu ar gais y Prif Weinidog sydd wedi gofyn am archwiliad o henebion hanesyddol a chofebau ac enwau strydoedd ac adeiladau ledled Cymru sydd â chysylltiad ag agweddau ar hanes pobl dduon. Mae hefyd wedi gofyn i'r grŵp sy'n goruchwyllo'r archwiliad nodi ac ystyried materion sy'n codi o'r archwiliad a allai fod yn sail ar gyfer ail gam y prosiect.

Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn goruchwyllo'r archwiliad hwn drwy roi cyngor arbenigol ar y canlynol:

- cerfluniau, cofebau a strwythurau coffa eraill mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru sy'n gysylltiedig â hanes pobl dduon, gan gynnwys casglu gwybodaeth am eu hanes, pwy sy'n berchen arnynt a'r cyrff sy'n gyfrifol amdanynt ac a oes ganddynt statws dynodedig ai peidio.
- enwau strydoedd ac adeiladau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hanes pobl dduon.
- nodi problemau sy'n gysylltiedig â'r safleoedd, yr enwau a'r adeiladau hyn a datblygu syniadau cychwynnol ar gyfer gwaith pellach.

Er bod llawer o'r enghreifftiau yn yr archwiliad yn debygol o fod yn rhai dadleuol, cydnabyddir hefyd fod nifer o weithiau celf cyhoeddus sy'n dathlu cyfraniad hanesyddol y gymuned ddu i fywyd Cymru. Bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal gan swyddog prosiect arbenigol, yn gweithio gyda chymorth tîm prosiect bach, gan gynnwys staff o Cadw a chyrff perthnasol eraill, ac yn adrodd i'r grŵp gorchwyl a gorffen. Bydd y swyddog yn cysylltu ag Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill sy'n cynnal arolygon tebyg.

Prif amcan cam archwilio'r prosiect yw casglu ac adolygu'r dystiolaeth ar gyfer agweddau ar ein hamgylchedd hanesyddol sy'n gysylltiedig â hanes pobl dduon, ac yn arbennig rôl yr Ymerodraeth Brydeinig a'r fasnach mewn caethweision fel y mae'n berthnasol i Gymru.

2. Cyflwyniad

Mae'r archwiliad hwn yn ymwneud â choffáu pwrpasol ar ffurf cerfluniau, enwau strydoedd ac enwau adeiladau. Roedd cofebau o'r fath mewn rhai achosion yn rhoi pobl a oedd yn gyfrifol am gaethwasiaeth a cham-fanteisio'n 'ar bedestal', yn llythrennol neu'n drosiadol, yn aml heb unrhyw ddehongliad cysylltiedig.

Mae gwneud poblogaeth sifil yn gaethweision yn systematig bellach yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel trosedd yn erbyn dynoliaeth. Er bod caethwasiaeth wedi bodoli yn y rhan fwyaf o gymdeithasau, roedd y fasnach mewn caethweision ar draws yr Iwerydd o'r unfed ganrif ar bymtheg i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn unigryw o ran ei maint a'i chanlyniadau hirdymor. Fe'i dilynwyd gan gam-fanteisio a oedd ynghlwm wrth imperialaeth ac fe adawodd ganlyniadau hirdymor drwy adael ansefydlogrwydd a thlodi mewn cymunedau yn Affrica ac anghydraddoldebau strwythurol a hiliaeth sy'n parhau ar draws y byd. Roedd Cymru'n rhan o hyn i gyd. Roedd y fasnach mewn caethweision a'r cam-fanteisio gwladychol yn rhan annatod o economi a chymdeithas y genedl. Bu morwyr a buddsoddwyr Cymru'n rhan o'r fasnach mewn caethweision, adeiladodd adeiladwyr llongau Cymru longau ar ei chyfer ac fe'i hamddiffynnwyd gan y Llynges Frenhinol. Roedd masnachau a diwydiannau Cymru yn gwneud brethyn, copr a haearn ar gyfer marchnadoedd a oedd yn ddibynnol ar gaethwasiaeth yn Affrica ac India'r Gorllewin ac roedd siopwyr a chwsmeriaid yng Nghymru yn prynu tybaco, coffi a siwgr a dyfwyd gan gaethweision. Fe wnaeth arian o gaethwasiaeth ddiferu i ddwylo perchnogion, buddsoddwyr a gweithwyr ledled Cymru. Roedd yr economi gyfan yn cael ei chynnal gan ddiwydiant a masnach Affricanaidd yn ystod cyfnod yr Ymerodraeth Brydeinig.

Er nad oedd modd osgoi cymryd rhan yn yr economïau a grëwyd gan gaethwasiaeth a gwladychu, roedd rhai pobl yn fwy uniongyrchol euog nag eraill neu'n gyfrifol am gamdriniaeth benodol. Mae haneswyr, ymgyrchwyr a chymunedau lleol wedi codi amheuan am lawer o ffigyrau hanesyddol. Mae angen asesu faint o fai neu fel arall oedd ar unigolion sy'n cael eu coffáu a'u dathlu'n gyhoeddus. Ni allwn fyth wybod faint o bobl sydd wedi chwarae rhan mewn hiliaeth a cham-fanteisio, ond mae archwilio sut mae'r rhai y gallwn eu henwi yn cael eu coffáu yn gam pwysig ar daith o wirionedd a chymod. Nid yw unigolion byw yn cael eu beio mewn unrhyw ffordd am anfadwaith eu cyndeidiau yng nghenedlaethau'r gorffennol, ond gall pob un ohonom ysgwyddo cyfrifoldeb am y ffordd y caiff ffigyrau hanesyddol eu deall a'u cofio.

Cam arall yw gwerthuso'r potensial i goffáu pobl o dras Du. Mae'n bryder bod cyn lleied o goffadwriaethau o'r fath yn bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd.

3. Cwmpas

Y mathau o goffáu o fewn cwmpas y prosiect yw henebion cyhoeddus, cerfluniau a phlaciau, portreadau cyhoeddus ac enwi adeiladau cyhoeddus, lleoedd a strydoedd. Mae cofebau rhyfel wedi'u heithrio ac mae coffadwriaethau preifat, er enghraifft, beddau, cofebau eglwysig ac enwau preswylfeydd y tu hwnt i gwmpas y prosiect.

Mae tai hanesyddol, ystadau a safleoedd diwydiannol nad ydynt yn gyfystyr â choffadwriaeth bwrpasol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd mewn prosiect dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bydd canfyddiadau'r prosiect ar gael cyn bo hir i lywio ystyriaeth bellach o sut mae hanes caethwasiaeth yn cael ei fynegi'n ehangach yn yr amgylchedd hanesyddol.

Mae prif gwmpas yr archwiliad yn cwmpasu'r categorïau canlynol o bersonau o ddiddordeb:

- A. Pobl a oedd yn rhan o'r fasnach mewn caethweision Affricanaidd
- B. Pobl a oedd yn berchen ar neu'n elwa'n uniongyrchol ar blanhigfeydd neu fwyngloddiau lle'r oedd caethweision yn gweithio
- C. Pobl a wrthwynebodd dileu'r fasnach mewn caethweision neu gaethwasiaeth
- CH. Pobl a gyhuddwyd o droseddau yn erbyn pobl Dduon, yn enwedig yn nhrefedigaethau Affrica
- D. Eraill y mae angen eu harchwilio ar ôl i ymgyrchwyr dynnu sylw atynt

Maes arall o fewn cwmpas yr archwiliad oedd rhywfaint o ymchwil i nodi pobl o dras Du sydd wedi chwarae rhan arwyddocaol yn ein hanes (mae pobl fyw wedi'u heithrio) a allai fod wedi cael eu coffáu yng Nghymru neu y gellid eu coffáu yn y dyfodol.

Nid yw'r categorïau'n annibynnol ar ei gilydd ac mae rhai unigolion yn perthyn i fwy nag un: er enghraifft, masnachwyr caethweision a oedd hefyd wedi dod yn berchnogion planhigfeydd neu'r ychydig iawn o bobl o dras Du a etifeddodd fuddiannau mewn planhigfeydd. O ystyried natur hollbresennol caethwasiaeth a gwladychiaeth, mae'n rhaid bod llawer o bobl sydd y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad wedi bod yn y cadwyni o gyflenwad a galw a oedd yn ategu'r masnachau Affricanaidd ac India'r Gorllewin neu'n defnyddio nwyddau a gynhyrchwyd gan gaethweision. Yn aml, nid oes digon o dystiolaeth i asesu hyn ond mae llawer o'r unigolion allweddol wedi'u cynnwys am resymau eraill, er enghraifft Robert Owen a wrthwynebodd rhyddfrefinio caethweision yn ogystal â defnyddio cotwm o blanhigfeydd yn America, ac Anthony Bacon a oedd yn fasnachwr caethweision ac a oedd hefyd yn gwneud nwyddau i fasnachwyr caethweision eu masnachu yn Affrica.

Categori cadarnhaol y tu allan i gwmpas y prosiect yw coffáu pobl o Gymru a wrthwynebodd gaethwasiaeth. Daeth dileu caethwasiaeth i fod yn thema mor gref ym mhregethu gweinidogion anghydfurfiol Cymru fel y gellid cyfiawnhau gwerthuso darlun llawn o'r mudiad fel prosiect ymchwil ynddo'i hun. Ymhlith yr enghreifftiau niferus mae Maurice Morgann, a gyhoeddodd gynllun ar gyfer dileu caethwasiaeth ym 1772, William Williams (Pantycelyn), a fu'n pregethu yn erbyn y fasnach mewn caethweision yn y ddeunawfed ganrif, a'r anhygoel Jessie Donaldson a adawodd Abertawe am yr Unol Daleithiau i ddarparu hafan i gaethweision a oedd yn dianc o blanhigfeydd. Ymhlith y coffáu yng Nghymru i ymgyrchwyr gwrth-gaethwasiaeth mae cerflun o Henry Richard yn Nhregaron, strydoedd wedi'u henwi ar ôl Samuel Romilly a Neuadd Pantycelyn ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ymgyrchwyr dros ddileu caethwasiaeth o dras Du sy'n rhan o'r archwiliad yn cynnwys cyn gaethweision o

America a fu'n teithio o amgylch Cymru sef Frederick Douglass ac Ellen a William Craft.

4. Dull

Wrth gasglu tystiolaeth, mae'r archwiliad wedi edrych ar goffáu o ddau safbwynt: yn gyntaf, archwilio cefndir henebion cyhoeddus hysbys ledled Cymru ac, yn ail, chwilio am goffadwriaethau o bersonau o ddiddordeb y gellir eu hadnabod Disgrifir ffynonellau yn adran 16. O gofio bod llawer a gafodd fudd o gaethwasiaeth yn ceisio cadw eu buddiannau allan o lygad y cyhoedd, mae llawer yn dal yn anhysbys neu'n ansicr ac mae tystiolaeth newydd yn dod ar gael yn barhaus. Gan weithio o fewn cyfyngiadau'r amserlen a'r ffaith bod adeiladau llyfrgelloedd ac archifau ar gau yn ystod y pandemig, roedd y dull fel a ganlyn:

1. Nodwyd henebion, cerfluniau, portreadau a phlaciau mewn mannau cyhoeddus drwy restru a luniwyd gan Topple the Racists, Cadw, Art UK, y Public Sculptures and Monuments Association, ymddiriedolaethau dinesig Cymru ac eraill. Ymchwiliwyd i'r bobl dan sylw yn y rhain i weld a oedd ganddynt gysylltiadau â chaethwasiaeth neu wladychu.
2. Lluniwyd rhestr o bersonau a oedd yn bodloni'r meini prawf a nodir uchod drwy archwilio ystod eang o ffynonellau cyhoeddus ac ar-lein, gan gynnwys pobl sy'n gysylltiedig â Chymru a ffigyrau cenedlaethol y gellid eu coffáu yng Nghymru. Cafodd pob person â chyfeiriad yng Nghymru ei dynnu o'r gronfa ddata Legacies of British Slave Ownership.
3. Lluniwyd amlinelliad bywgraffiadol byr ar gyfer pob person o ddiddordeb yn nodi pryd, sut a pham roeddent yn gysylltiedig â Chymru. Darparwyd naratif i alluogi darllenwyr i ystyried a oedd unigolion yn euog ai peidio a pham y gallent fod wedi cael eu coffáu.
4. Cynhaliwyd ymholiadau ar setiau data strydoedd ac adeiladau'r Arolwg Ordnans i dynnu pob enghraifft o'r enwau a nodwyd fel personau o ddiddordeb.
5. Cafodd dros 400 o enwau adeiladau a thros 1,100 o enwau strydoedd a dynnwyd eu hidlo i gael gwared ar ganlyniadau cadarnhaol ffug fel anheddau preifat neu adeiladau busnes (ac eithrio tafarndai) ac enghreifftiau y tu hwnt i gwmpas daearyddol personau o ddiddordeb (er enghraifft, tybir nad yw'r enw Smith Street yn y rhan fwyaf o Gymru yn coffáu Mrs Smith sy'n gysylltiedig â Llangollen yn unig).
6. Aseswyd pob un o'r henebion, adeiladau a strydoedd a oedd yn weddill er mwyn pennu pa mor debygol oedd hi eu bod yn coffáu person o ddiddordeb, drwy archwilio cronoleg a chysylltiadau o fapiau hanesyddol, ffynonellau gweledol a dogfennau eraill. Nid yw pob goffadwriaeth dybiedig yn coffau person o ddiddordeb mewn gwirionedd, yn enwedig yn achos enwau strydoedd, a all rannu'r un enw â ffigyrau hanesyddol trwy gyd-ddigwyddiad. Er enghraifft, mae'r cyfenw Pennant a'r teitl Penrhyn yn enwau lleoedd Cymraeg cyffredin yng Nghymru, ac mae Stanley yn enw poblogaidd ledled Cymru.
7. Cyflwynwyd y canlyniadau mewn tablau gyda disgrifiad byr o bob eitem a'i pherthnasedd i'r archwiliad. Bu aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn craffu ar y rhestru a chawsant gyfle i'w cywiro neu ychwanegu atynt. Ychwanegwyd

gwybodaeth am berchnogaeth a dynodiad lle bo'n berthnasol. Gwnaeth y drafftiau cynnar ennyn trafodaeth agored a difyr rhwng aelodau'r Grŵp, gyda safbwyntiau gwahanol yn cael eu mynegi ar brydiau. Mae cynnwys a fformat terfynol yr adroddiad yn adlewyrchu'r consensws cyffredinol a gafwyd.

Paratowyd rhywfaint o drafodaeth gychwynnol ar y canfyddiadau gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn hyrwyddo llinellau trafod a dadansoddi pellach.

8. Yn dilyn cyhoeddiad yn 2020, wnaeth cywiriadau ac ychwanegiadau man ar ol gohebiaeth wedi'i derbyn.

5. Canlyniadau'r archwiliad

Mae pum tabl ar wahân yn cyflwyno:

- Rhestr o 204 **person o ddiddordeb** yng nghwmpas yr archwiliad a oedd yn gysylltiedig â Chymru neu a allai gael eu coffáu yng Nghymru, gyda nodiadau bywgraffiadol byr.
- 57 o **henebion** a archwiliwyd, gan gynnwys cerfluniau, cofebau, placiau a phortreadau.
- 93 o **adeiladau a lleoedd cyhoeddus** a archwiliwyd, yn cynnwys ysgolion, swyddfeydd y llywodraeth, tafarndai a pharciau.
- 442 o **enwau strydoedd** a archwiliwyd.
- Rhestr o 42 o **bobl o dras Du** o bwys hanesyddol sy'n cael eu coffáu yng Nghymru neu y gellid eu coffáu yn y dyfodol.

Mae'r cod lliw coch-ambr-gwyrdd yn awgrymu gwahaniaethau o ran sicrwydd a/neu euogrwydd er mwyn helpu i ystyried yr enghreifftiau. Er eglurder, mae eitemau wedi'u cynnwys (sydd wedi'u marcio'n wyrdd) y daethpwyd i'r casgliad nad ydynt yn coffáu'r unigolion dan sylw – er enghraifft lle barnwyd mai aelod arall o'r teulu neu ystâd wahanol sy'n cael ei choffau. Mae'n anochel bod ansicrwydd yn parhau ynghylch rhai strydoedd sy'n cynnwys cyfenw yn unig. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i fod yn gywir, bydd rhagor o achosion a thystiolaeth yn parhau i ddod i'r amlwg. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn croesawu unrhyw wybodaeth.

6. Pobl a oedd yn rhan o'r fasnach mewn caethweision Affricanaidd (A)

Ni ellir gwadu euogrwydd y rhan fwyaf o bobl a oedd yn ymwneud â'r mordeithiau caethweision. Nid oedd hi'n bosibl cymryd rhan yn uniongyrchol mewn masnachu pobl heb dystio i'w anfadwaith, ac eto roedd miloedd o fuddsoddwyr neu forwyr yn ymwneud â'r fasnach mewn caethweision Affricanaidd rhwng yr unfed ganrif ar bymtheg a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n rhaid bod llawer o fasnachwyr Llundain, Bryste a Lerpwl wedi bod yn gysylltiedig â Chymru ond nid ydym yn gwybod digon am y rhan fwyaf ohonynt i wneud cysylltiadau pendant. Anaml y cafodd aelodau criwiau eu coffáu ond gallai perchnogion a buddsoddwyr llwyddiannus wneud ffortiwn a oedd yn arwain at eiddo, statws a choffadwriaeth. Roedd rhai, fel Francis Drake, yn ffigyrau cenedlaethol. Aeth yr East Indian Company â chaethweision o Affrica i India a dwyrain Asia ond roedd caethwasiaeth

yn un o blith nifer o weithgareddau ac efallai na fyddai unigolion a oedd yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog neu fasnachu mewn nwyddau cyfreithlon wedi bod yn gysylltiedig â hyn.

<i>Personau o ddiddordeb (50)</i>	<i>Henebion</i>	<i>Adeiladau / lleoedd</i>	<i>Strydoedd</i>	<i>Cyfanswm yr achosion</i>
Brydges , James		1		1
Clive , Robert (Arglwydd Clive)			1	1
Cunliffe , Foster		1	1	2
Drake , Francis			3	3
Hatton , Christopher	1			1
Hawkins , John			1	1
Morris , John	1			1
Phillips , Thomas			1	1
Roberts , Bartholomew	1			1
Efrog , Dug (Iago'r II)			1	1
Cyfansymiau	3	2	8	13

7. Pobl a oedd yn berchen ar neu'n elwa'n uniongyrchol ar blanhigfeydd neu fwyngloddiau lle'r oedd caethweision yn gweithio (B)

Fe wnaeth pobl barhau i gael eu caethiwo am genhedlaeth yn dilyn dileu caethwasiaeth. Mae mwy o bobl yn y categori hwn nag unrhyw un arall, oherwydd y niferoedd a oedd yn buddsoddi mewn planhigfeydd siwgr, coffi a thybaco a'r wybodaeth eithriadol sydd ar gael amdanynt o gofnodion iawndal yn y 1830au. Roedd y rhan fwyaf o fuddiolwyr yn gwybod eu bod yn rhan o system greulon ac annynol. Hwyrach y byddai rhai buddsoddwyr absennol wedi twyllo eu hunain bod planhigfeydd yn cael eu rhedeg mewn modd trugarog a bod bywyd yn well yno nag yn slymiau Prydain ond roedd safbwyntiau o'r fath yn cael eu herio. Roedd graddau'r euogrwydd yn amrywio o'r rhai a oedd yn ymwneud â'r cam-fanteisio i'r rhai a etifeddodd gaethweision i'r rhai a oedd o blaid rhyddfrefinio caethweision.

<i>Personau o ddiddordeb (126)</i>	<i>Henebion</i>	<i>Adeiladau / lleoedd</i>	<i>Strydoedd</i>	<i>Cyfanswm yr achosion</i>
Barham , C. H. F. neu J. F.			1	1
De la Beche , Henry		1	3	4
Druce , Alexander			1	1
Grenfell , Pascoe St Leger			2	2
Hammet , Benjamin	1	1		2
Miles , John	1			1
Morgan , Henry			1	1
Owen , Goronwy		2		2
Picton , Thomas	4	5	30	39
Shand , Frances Batty		1		1
Thomas , Rees Goring			1	1
Cyfansymiau	6	10	39	55

8. Pobl a wrthwynebodd dileu'r fasnach mewn caethweision neu gaethwasiaeth (C)

Erbyn tua 1800 roedd hi'n amhosibl bod yn ddall i anfadwaith y fasnach mewn caethweision, a oedd wedi cael ei hamlygu droeon. Serch hynny, roedd Seneddwy'r a sylwebyddion yn gwrthod dileu hyd yn oed ym 1806-7 neu'n gwrthwynebu rhyddfrefinio caethweision yn y 1830au. Buddiannau breintiedig neu hiliaeth oedd wrth wraidd llawer o'r gwrthwynebiad hwn. Fodd bynnag, roedd rhai ffigurau cyhoeddus yn honni eu bod yn casáu caethwasiaeth ond eto'n amau y gellid cyflawni newid diogel mor gyflym ag oedd mewn golwg: yn arbennig, roeddent yn ofni cwymp economaidd a chwâl cymdeithas ac yn ystyried cynlluniau ar gyfer ail-wladoli caethweision i Affrica yn anymarferol. Newidiodd rhai eu barn yn llwyr yn ystod eu hoes.

<i>Personau o ddiddordeb (13)</i>	<i>Henebion</i>	<i>Adeiladau / lleoedd</i>	<i>Strydoedd</i>	<i>Cyfanswm yr achosion</i>
Canning , George			1	1
Clarence , Dug (William IV)		5	7	12
Herbert , Edward (Powis)		1		1
Jervis , John (St Vincent)	1		1	2
Nelson , Horatio	7	6	18	31
Owen , Robert	8	1	1	10
Rodney , George Brydges	2	1	5	8
Somerset , Henry (Beaufort)			7	7
Wellesley , A. (Wellington)	2	13	32	47
Cyfansymiau	20	27	72	119

9. Pobl a gyhuddwyd o droseddau yn erbyn pobl dduon, yn enwedig yn nhrefedigaethau Affrica (CH)

Yn y cyfnod ar ôl dileu'r fasnach mewn caethweision a rhyddfrefinio trefedigaethau Prydeinig, parhaodd y cam-drin yn Affrica drefedigaethol. Efallai fod miloedd o fforwyr, gweinyddwyr, milwyr, peirianwyr ac eraill o Brydain wedi bod yn gyfrifol am gam-fanteisio neu greulondeb ond nad yw'r rhan fwyaf o bobl wedi clywed amdanynt. Roedd imperialwyr brwd yn cynnwys bron pob brenin/brenhines a phrif weinidog yn ogystal â nifer dirifedi o bobl â buddsoddiadau trefedigaethol. Nid oes ffynhonnell systematig i ddatgelu'r rheini ohonynt a gyflawnodd droseddau yn erbyn Affricaniaid mewn cyd-destun trefedigaethol, ond mae'r ffigurau dadleuol yn cynnwys Evelyn Baring, Alfred Beit, Bartle Frere, Herbert Kitchener, Cecil Rhodes, Jan Smuts a Henry Morton Stanley. Mae tri o'r rhain yn cael eu coffáu yng Nghymru. Mae'r cyhuddiadau yn eu herbyn yn amrywiol ac yn destun dadl o hyd.

<i>Personau o ddiddordeb (3)</i>	<i>Henebion</i>	<i>Adeiladau / lleoedd</i>	<i>Strydoedd</i>	<i>Cyfanswm yr achosion</i>
Kitchener , Herbert		2	3	5
Rhodes , Cecil			1	1
Stanley , Henry Morton	3		11	14
Cyfansymiau	3	2	15	20

10. Mae ymgyrchwyr wedi tynnu sylw at eraill y dylid edrych arnynt yn fanylach (D)

Mae nifer o ffigurau hanesyddol nad ydynt yn perthyn yn dwt i unrhyw un o'r categorïau uchod wedi'u crybwyll gan ymgyrchwyr, er enghraifft drwy wefan Topple the Racists ac yn y wasg, neu sydd fel arall wedi dod i'r amlwg drwy ymchwil a thrafodaethau. Gellir herio eu henw da, gyda safbwyntiau dilys gan y naill ochr a'r llall. Er bod cryn amwysedd ynghylch pa mor euog neu fel arall oedd y rhan fwyaf ohonynt, maent yn cael sylw yn yr archwiliad er mwyn caniatáu trafodaeth deg ac agored o'u henw da a'r ffaith eu bod yn cael eu coffáu. Mae gan yr unigolion rôl a hanes gwahanol, yn amrywio o'r bymthegfed ganrif i'r ugeinfed ganrif. Roedd gan lawer ohonynt hanes personol cymhleth a oedd yn ymgnawdoli newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau neu safbwyntiau ar hyd eu hoes. Mae angen ystyried pob un ohonynt fel achosion unigol a gellid rhyddhau rhai ohonynt o fai: er enghraifft, er bod angen edrych ar y ffaith i lolo Morganwg etifeddu planhigfa siwgr, nid oedd y blanhigfa'n defnyddio caethweision ac fe ymgyrchodd yn erbyn caethwasiaeth gydol ei oes fel oedolyn.

<i>Personau o ddiddordeb (11)</i>	<i>Henebion</i>	<i>Adeiladau / lleoedd</i>	<i>Strydoedd</i>	<i>Cyfanswm yr achosion</i>
Bruce , Henry Austin	4			4
Churchill , Winston		2	13	15
Columbus , Christopher		1	2	3
Gandhi , Mahatma	1			1
Gladstone , William Ewart	3	5	26	34
Hood , Samuel			1	1
Iolo Morganwg	2	1		3
'Jim Crow'			1	1
Nott , William	2		1	3
Peel , Robert			1	1
Yale , Elihu		2	5	7
Cyfansymiau	12	11	50	73

11. Ffigurau hanesyddol pwysig o dras Du

Mae pobl sy'n amlwg o dras Du wedi byw yng Nghymru ers dwy fil o flynyddoedd ac wedi gwneud cyfraniadau nodedig i fywyd Cymru – yn y byd chwaraeon, y celfyddydau, gwleidyddiaeth, addysg, iechyd a meysydd eraill. Daeth Affricaniaid i Gymru yn y fyddin Rufeinig ac wrth i Brydain ddechrau gwladychu mwy o dan y Tuduriaid. Daeth porthladdoedd Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe yn gartrefi i weithwyr o Affrica a'r Caribî wrth i'r Ymerodraeth gysylltu poblogaethau ym mhedwar ban byd. Roedd y rhai a oedd wedi dianc o gaethwasiaeth yn America yn teithio o

amgylch Prydain yn ymgyrchu dros ryddfrenio a daeth pobl o wledydd Affrica a'r Caribî i Gymru i astudio. Pan oedd angen llafur ychwanegol ar Brydain ar ôl yr Ail Ryfel Byd, gwahoddodd y genhedlaeth Windrush. Ochr yn ochr â theuluoedd, cymunedau a phobl o dras Du a oedd wedi hen sefydlu yng Nghymru, mae pobl wedi dod yma o rannau o Affrica a'r Caribî. Serch hynny, prin ar y naw yw'r bobl groenliw sy'n cael eu coffáu yng Nghymru. Mae'n drawiadol tan cwblhad y cerflun o Betty Campbell yn 2021 roedd'r unig gerflun o bobl o dras Du yw cerflun o griw o bobl ddienw ym Mae Caerdydd, nid cofeb i unigolion penodol.

<i>Personau o ddiddordeb (42)</i>	<i>Henebion</i>	<i>Adeiladau / lleoedd</i>	<i>Strydoedd</i>	<i>Cyfanswm yr achosion</i>
Campbell , Betty	1			1
De Freitas , Iris		1		1
Mandela , Nelson			1	1
Robeson , Paul	1	2		3
Shand , Frances Batty		1		1
Taylor , Cuthbert	1			1
Ystumlllyn , John	1			1
Cyfansymiau	4	4	1	9

12. Trafodaeth 1: Ystyr coffadwriaethau

Mae'r enghreifftiau o goffáu a amlinellir uchod yn cyfleu ystyron amrywiol. Mae dealltrwriaeth o'r gorffennol yn newid wrth i ymchwilwyr hanesyddol ganfod ffynonellau newydd neu ofyn cwestiynau newydd. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd yn gyfrifol am sefydlu coffadwriaethau yn ceisio cyfleu eu barn nhw am unigolion neu ddigwyddiadau ar adeg benodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae barn am yr unigolion hynny wedi newid, am eu bod wedi mynd yn angof neu am eu bod yn cael eu gweld mewn cyd-destun gwahanol gyda threigl amser.

Fe wnaeth y fasnach mewn caethweision ar draws yr Iwerdydd effeithio ar bob agwedd ar gymdeithas fodern ac mae'n cael effaith o hyd ar sut mae pobl yn byw eu bywyd. Er body mwyafrif llethol o goffadwriaethau wedi cael eu hanghofio a'u hanwybyddu i raddau helaeth gan y rhan fwyaf o bobl sy'n eu pasio, gall coffadwriaethau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth achosi trawma parhaus, i ddisgynyddion pobl a fu'n gaethweision a disgynyddion pobl a oedd yn gyfrifol am gwaethwasiaeth. Mewn hinsawdd lle maent yn denu sylw o'r newydd, gellir naill ai eu hystyried yn sarhad ar gymdeithas Cymru neu eu rhoi wrth wraidd proses o wirionedd a chymodi fel tystiolaeth sy'n cysylltu â gweithredoedd a chanfyddiadau pobl yn y gorffennol. Mae'r rhesymau gwreiddiol dros goffáu yn cynnwys:

- Balchder cymunedol yn llwyddiant unigolion lleol
- Rhoddion o dir neu arian
- Yn berchen ar dir neu'n ei ddatblygu
- Datganiad gwleidyddol o bŵer, undod neu gymeradwyaeth
- Ymateb cyhoeddus i farwolaethau cyn pryd, yn enwedig mewn rhyfel

- Yr awydd i ddod o hyd i destunau ar gyfer gwaith celf cyhoeddus newydd neu enwau strydoedd newydd

Mae penderfyniadau am goffáu wedi bod yn destun dadl erioed. Ar adeg pan fo coffadwriaethau'n cael eu herio i raddau llawer mwy nawr nag ers cenedlaethau o bosibl, mae ystyron yn newid. Mae ailystyried hanes wedi gwella gwybodaeth ac weithiau wedi newid barn am unigolion yn barhaol, er y gall pobl barhau i fod â barn gyferbyniol am unigolion hanesyddol. Gall fod yn anodd cysoni gwerthusiadau manwl â cherfluniau o arddull clasurol neu fynedfeydd mawreddog i adeiladau a enwir, gyda'r canlyniad bod y goffadwriaeth yn achosi loes neu sarhad i lawer o bobl. Yng nghyd-destun y prosiect hwn, mae'r absenoldeb cyffredinol a nodwyd o goffadwriaethau i bobl groenliw yn rhyfeddol, yn ogystal â'r diffyg coffadwriaethau i fenywod, pobl anabl a ffigyrau pwysig y byd.

Henebion (wedi'u categorio'n fras i gynnwys cerfluniau, cofebau, placiau a phortreadau cyhoeddus) yw'r mathau mwyaf dadleuol o goffadwriaethau, fel y mae dymchwel cerflun Colston ym Mryste a thynnu plac Thomas Philips yn Aberhonddu wedi dangos yn glir. Ychydig iawn o goffadwriaethau o'r fath sy'n cael eu hategu gan ddehongliad sy'n trafod materion dadleuol. Heb ddehongliad o'r fath, mae'n ymddangos bod y ffigyrau dan sylw yn cael eu cyflwyno fel arwyr neu fodolau rôl yn unig – fel y bwriadwyd yn wreiddiol o bosibl – yn hytrach na chynrychiolwyr agweddau heriol ar y gorffennol neu agweddau a gwerthoedd sydd wedi newid. Mae'n bosibl bod yr henebion mwyaf amlwg yn weledol o ganrifoedd a fu, megis cerfluniau mewn parciau neu golofnau ar fryniau, wedi dod yn nodweddion cyfarwydd yn y dirwedd ac yn cael eu diogelu fel asedau treftadaeth sydd â gwerth esthetig, hanesyddol a chymunedol yn gwbl annibynnol ar y bobl sy'n cael eu coffáu.

Gall **adeiladau a lleoedd cyhoeddus** fod yn arwyddocaol ynddynt eu hunain a gall y cyhoedd fod yn ymwybodol iawn o goffadwriaethau sy'n hawdd eu hadnabod: yr hen 'Ysbyty H. M. Stanley' neu dafarn 'General Picton'. Mae llawer o enwau o'r fath wedi'u dileu yn ddiweddar, weithiau drwy ddewis ond yn amlach mewn proses naturiol o newid, er enghraifft wrth i dafarndai ac ysbytai gau neu wrth i ysgolion uno. Mae enwau tafarndai fel 'y Black Boy' wedi bod yn destun dadl, er nad oes ffordd o wybod yn hanesyddol a ydynt yn deillio o bobl groenliw go iawn, cyfeiriad at gyfeillion y Brenin Siarl II â'i wallt tywyll, dyn glanhau simnai neu hyd yn oed fwi morol. Efallai y bydd gan y cyhoedd bryderon penodol am sut bydd enwi ysgolion ac adeiladau'r llywodraeth ar ôl Kitchener, Columbus neu Goronwy Owen yn effeithio ar bobl. Nid oes unrhyw ddehongliad hygyrch i'r cyhoedd i esbonio cwestiynau sy'n destun dadl wedi'i nodi yn y categori hwn.

Strydoedd yw'r coffadwriaethau mwyaf niferus a'r rhai lleiaf dadleuol. Dros y ddwy ganrif ddiwethaf mae strydoedd ledled Cymru wedi'u henwi ar ôl tirfeddianwyr cyfoes neu ar ôl pobl nodedig yn fuan ar ôl eu marwolaeth; er bod llawer yn coffáu ffigyrau hanesyddol ganrif neu fwy yn ddiweddarach. Yn arbennig, nid yw enwau strydoedd preswyl yn rhoi'r un bri i unigolyn â cherflun. Yn ogystal, anaml y gwyddys yn gyffredinol sut y cafodd strydoedd eu henwi; er enghraifft, gellid deall bod yr enw

'Picton' yn cyfeirio at unigolion heblaw Thomas Picton neu at Gastell Picton. Mae newid enwau strydoedd yn codi anawsterau ymarferol ac emosiynol. Mae hefyd yn dileu tystiolaeth o ddatblygiad hanesyddol cymdogaethau. Ni chanfuwyd unrhyw ddehongliad presennol o enwau strydoedd dadleuol yng Nghymru ond mae cyngor dinas Lerpwl yn mynd ati i ddatgan y fasnach mewn caethweision y tu ôl i enwau strydoedd amlwg yno.¹

13. Trafodaeth 2: Y bobl sy'n cael eu coffáu fwyaf

Y deg person sy'n cael eu coffáu fwyaf o ran sawl achos ohonynt sy'n codi yw: Wellington (47), Picton (39), Gladstone (34), Nelson (31), Churchill (15), Stanley (14), Clarence (12), Robert Owen (10), Yale (8) a Rodney (8). Mae amlygrwydd y coffadwriaethau hyn yn llygad y cyhoedd yn fwy goddrychol. O ystyried bod cerfluniau a henebion yn fwy amlwg a strydoedd yn llai felly ar y cyfan, gellir barnu mai Wellington, Picton, Nelson, Gladstone, Stanley ac Owen sy'n cael eu coffáu yn fwyaf amlwg yn gyffredinol.

- Roedd Wellington, Picton a Nelson i gyd yn cynrychioli achlysur o ddathlu cenedlaethol yn y fuddugoliaeth dros Napoleon – buddugoliaeth y collodd dau ohonynt eu bywyd ynddi. Nid oes unrhyw henebion newydd wedi'u creu ar gyfer unrhyw un ohonynt ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg ond mae eu henwau unigryw wedi parhau i gael eu defnyddio ar gyfer strydoedd.
- Roedd Owen a Gladstone yn ffigurau cydnabyddedig yn y traddodiad rhyddfrydol ac anghydfurfiol ac maent yn parhau i gael eu cydnabod fel ffigurau dylanwadol yn ein hanes. Nid yw Gladstone wedi cael ei goffáu rhyw lawer yn ystod y can mlynedd diwethaf ond mae Owen wedi cael ei gydnabod yn fwy diweddar yn y Drenewydd.
- Cafodd Stanley ei glodfori fel anturiaethwr tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae wedi cael ei goffáu yn yr unfed ganrif ar hugain yn ei filltir sgwâr.

14. Trafodaeth 3: Dadleuon ac euogrwydd

Mae cyfraniad llawer o'r unigolion hyn at gaethwasiaeth neu fathau eraill o gamdriniaeth yn agored i drafodaeth a dehongliad. Fe newidiodd sawl un ei farn yn sylweddol wrth ystyried materion yn fanwl neu wrth i agweddau newid o'i gwmpas.

- O'r holl bobl sydd wedi'u coffáu, Thomas Picton sydd wedi bod fwyaf amlwg mewn ymgyrchoedd a dadleuon diweddar. Er iddo gael ei ystyried yn arwr ar ôl ei farwolaeth yn Waterloo, roedd yn amlwg yn euog fel perchennog caethweision a llywodraethwr creulon Trinidad a weithredodd neu a ganiataodd erchyllterau cyfreithlon.
- Mae cerfluniau o Gladstone wedi'u beirniadu gan ymgyrchwyr ar sail yr elw enfawr a wnaed gan ei dad ar draul y caethweision a oedd yn gweithio mewn planhigfeydd a'i gefnogaeth ei hun i ddigolledu perchnogion planhigfeydd adeg

¹ <https://historicengland.org.uk/content/docs/research/streetnames-pdf/>

rhyddfreinio caethweision. Ymddengys nad yw wedi cyfrannu at gaethwasiaeth yn bersonol a daeth yn un o brif ddiwygwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

- Er bod Nelson wedi beirniadu'r fasnach mewn caethweision yn breifat ac Wellington wedi cefnogi buddiannau India'r Gorllewin, nid yw'n glir a oedd y naill neu'r llall yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd am barhad caethwasiaeth.
- Pardduwyd enw H. M. Stanley gan ei weithredoedd honedig a chanlyniadau ei weithredoedd hysbys yn Affrica, ond mae ei euogrwydd personol yn destun dadl o hyd; gyda barn angerddol ar y ddwy ochr. O ganlyniad, mae ei henebion yn Ninbych a Llanelwy wedi bod yn ddadleuol iawn.
- Nid yw enw da Robert Owen fel diwygiwr yn destun dadlau ar y cyfan, ond mewn print, dywedodd y byddai rhyddfreinio yn niweidiol i gaethweision. Mae'n enghraifft o sut y gallai hyd yn oed y meddylwyr mwyaf blaengar at faterion caethwasiaeth ffafrio'r status quo.

15. Y Camau nesaf

Mae cylch gorchwyl y prosiect hwn yn gwahanu'r cam archwilio oddi wrth faterion sy'n codi, a allai fod yn sail i ail gam y prosiect. Mae'r ddogfen bresennol yn ceisio casglu gwybodaeth, nid darparu set o atebion. Dylid anfon unrhyw sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer camau nesaf at historicenvironmentleg@llyw.cymru

16. Ffynonellau

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae ymchwil i hanes caethwasiaeth a hanes pobl Dduon wedi datgelu llawer iawn o wybodaeth. Mae'r archwiliad hwn wedi elwa ar ymchwiliadau a gynhaliwyd dros flynyddoedd lawer, yn fwyaf nodedig y prosiectau cronfa ddata enfawr ar fordeithiau caethweision ac etifeddiaeth perchnogion caethweision Prydeinig, ynghyd â gwaith digideiddio gan archifau cyhoeddus ac ymchwiliadau gan ymchwilwyr unigol.

- Art UK <https://artuk.org/>
- Stephen D. Behrendt, 1991, 'The Captains in the British Slave Trade from 1785 to 1807', *Transactions of the Historic Society of Lancashire and Cheshire*, cyf. 140.
- Black History Stories Wales:
<http://www.spanglefish.com/welshblackhistorystories/index.asp>
- H.V. Bowen, 2017. 'Wales and the Making of British India During the Late Eighteenth Century', Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion
<https://www.cymmrodorion.org/wp-content/uploads/2017/07/06-Wales-and-the-Making-of-British-India.pdf>
- Cronfa ddata Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru Cadw
<https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru>
- Y Bywgraffiadur Cymreig
<https://bywgraffiadur.cymru/>
- Madge Dresser ac Andrew Hann, goln., 2013. Slavery and the British Country House. English Heritage. <https://historicengland.org.uk/images->

[books/publications/slavery-and-british-country-house/slavery-british-country-house-web/](#)

- Paula E. Dumas, 2016. *Proslavery Britain: Fighting for Slavery in an Era of Abolition*. Palgrave Macmillan
- Chris Evans, 2010. *Slave Wales*. Gwasg Prifysgol Cymru
- J. A. H. Evans, 2002. 'Nathaniel Wells of Piercefield and St Kitts: From Slave to Sheriff', *Monmouthshire Antiquary*, vol. 18.
- Neil Evans, 1980. 'The South Wales Race Riots of 1919', yn *Llafur*, cyf. 3.1
- Google streetview:
- Andrew Green, 2018. *Cymru mewn 100 Gwrthrych*. Gomer
- Mapiau hanesyddol ar Casgliad y Werin
<https://www.casgliadywerin.cymru/locate>
- Cronfa ddata Legacies of British Slave Ownership: <https://www.ucl.ac.uk/lbs/>
- Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol
<https://enwaulleoedddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>
- Old Maps Online: <https://www.oldmapsonline.org/>
- Paul E. Lovejoy a Vanessa S. Oliveira, 2013. 'An Index to the Slavery and Slave Trade Enquiry: The British Parliamentary House of Commons Sessional Papers, 1788–1792', *History in Africa*, Cyf. 40.
- Alan Llwyd, 2005. *Cymru Ddu / Black Wales: A History*. Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown.
- Kenneth Morgan, 1993. Bristol West India Merchants in the Eighteenth Century, *Transactions of the Royal Historical Society*, Cyf. 3.
- Liverpool as a Trading Port Project: <https://www.liverpoolmaritime.org/index.html>
- Cronfa ddata enwau strydoedd ac enwau adeiladau yr Arolwg Ordnans
<https://www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/products/open-map-names>; <https://www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/products/addressbase-plus>
<https://www.ordnancesurvey.co.uk/cymraeg>
- Oxford Dictionary of National Biography <https://www.oxforddnb.com/>
- Mapiau Casgliad y Werin Cymru: <https://www.casgliadywerin.cymru/locate>
- Public Monuments and Sculpture Association <https://www.pmsa.org.uk/national-recording-project>
- David Richardson, 1985. *Bristol Slave Traders*. Bristol Record Society.
- Cronfa ddata Slave Voyages <https://www.slavevoyages.org/>
- R. W. T. Denning, gol., 1995. *The Diary of William Thomas, 1762-1795*. South Wales Record Society.
- Topple the Racists <https://www.toppletheracists.org/>
- Charlotte Williams, 2002. *Sugar and Slate*. Planet.
- Charlotte Williams, Neil Evans a Paul O'Leary, 2015. *A Tolerant Nation? Revisiting Ethnic Diversity in a Devolved Wales*. Gwasg Prifysgol Cymru.
- Daniel G. Williams, 2012. *Black Skin, Blue Books: African Americans and Wales*. Gwasg Prifysgol Cymru.

Atodiad 1: Personau o ddiddordeb

Rhesymau dros gynnwys

A - Pobl a oedd yn rhan o'r fasnach mewn caethweision Affricanaidd

B - Pobl a oedd yn berchen ar neu'n elwa'n uniongyrchol ar blanhigfeydd neu fwyngloddiau lle'r oedd caethweision yn gweithio

C - Pobl a wrthwynebodd dileu'r fasnach mewn caethweision neu gaethwasiaeth

CH - Pobl a gyhuddwyd o droseddau yn erbyn pobl Dduon, yn enwedig yn nhrefedigaethau Affrica

D – Eraill y mae angen eu harchwilio ar ôl i ymgyrchwyr dynnu sylw atynt

Defnyddio'r tabl hwn

Cyflwynir y tabl yn nhrefn yr wyddor ar sail yr unigolyn, statws CAG (colofn 12) ac awdurdod unedol. Er mwyn ad-drefnu'r tabl ar sail colofnau eraill, cliciwch yn y tabl i ddangos dewislenni Cynllun y Tabl a Gosodiadau. O'r ddewislen Gosodiad ar ochr dde bellaf bar y ddewislen cliciwch ar A-Z Trefnu i ddangos blwch deialog i'w ddidoli. (Gall lleoliadau offer amrywio mewn fersiynau gwahanol o Word.)

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Adams , Edward Hamlin	1777-1842	A	Llanarthne, Sir Gaerfyrddin	Ganed Adams yn Jamaica, a darparodd lafur caethweision i'r wladwriaeth Brydeinig. Daeth i Brydain, prynodd Neuadd Middleton, Llanarthne, ym 1824 a bu'n berchen arni tan ei farwolaeth. Ef oedd AS Sir Gaerfyrddin 1832-4.		Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146645839
Assheton-Smith , Thomas	1752-1828	C	Caernarfon	Bu'n AS Sir Gaernarfon 1774-80 ac Andover 1797-1821. Y Faenol ger Caernarfon oedd un o'i seddi. Amgaeodd dir comin yno, a thrwy wneud hynny bu modd iddo agor chwareli llechi hynod broffidiol Dinorwig. Fel AS fe'i rhestrwyd fel un 'anffafriol' i ddileu'r fasnach mewn caethweision ym 1806.		Y Faenol		https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1790-1820/member/assheton-smith-thomas-1752-1828 https://bywgraffiadur.cymru/article/c1-SMIT-ASS-1752

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Bacon, Anthony	1716- 1786	A	Merthyr Tudful	Wedi'i eni yn Whitehaven, daeth Bacon yn fasnachwr yn nhrefedigaethau America ac yna buddsoddodd yn y fasnach mewn caethweision ar draws yr Iwerydd yn y 1760au. O 1765, ef oedd yn un o arloeswyr pennaf diwydiant haearn de Cymru, a defnyddiodd ei gyfoeth enfawr o'r fasnach mewn caethweision a masnach drefedigaethol i sefydlu gwaith haearn Cyfarthfa gan gymryd drosodd gwaith haearn Penydarren a Hirwaun. Bu'n byw yn Llundain a daeth yn AS yn Swydd Buckingham.		Gwaith Haearn Cyfarthfa, Gwaith Haearn Penydarren, Gwaith Haearn Hirwaun		Chris Evans, 2010 https://en.wikipedia.org/wiki/Anthony_Bacon_(industrialist) https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146658735
Bankart, Frederick	-1862	B	Llansawel	Roedd teulu Bankart yn berchen ar Waith Copr Red Jacket yn Llansawel. Aeth i fwyngloddiau La Consolidada yng Nghiwba a oedd yn defnyddio caethweision fel gweithwyr a bu farw yno.				
Barham, Charles Henry Foster	1808 – 1878	B	Trecŵn (Sir Benfro)	Yn fab i Joseph Foster Barham II, bu'n AS dros Appleby am gyfnod byr iawn ym 1832 ond roedd hefyd yn cynnal yr ystâd deuluol yn Nhrecŵn. Wedi hynny, daeth yn offeiriad Anglicanaidd yn Westmorland. Etifeddodd weddill yr ystadau a oedd gan ei dad yn Jamaica a'u gwaredu. Wedi ymddeol o'r eglwys dychwelodd i Drecŵn hyd ei farwolaeth. Cefnogodd ef a'i wraig ysgol leol a gafodd ei hailsefydlu fel Ysgol Barham yn Nhrecŵn (tŷ preifat erbyn hyn).	S	Trecŵn		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146664723 https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1820-1832/member/foster-barham-charles-1808-1878 https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BARH-TRE-1700
Barham, John Foster	1759- 1832	B	Trecŵn (Sir Benfro)	Mab hynaf Joseph Foster Barham, AS Chwig Stockbridge, a'r Fonesig Caroline Tufton. Ym 1832 etifeddodd ystadau ei dad yn Nhrecŵn, Stockbridge ac India'r Gorllewin. Erbyn 1836 roedd dan oruchwyliaeth feddygol ac ym 1837 cafodd ei ardystio fel un nad oedd yn ei iawn bwyll. Bu farw ym 1838. Cafodd ei ystadau eu gweinyddu gan ei weddw, entaeliedig ar ei frawd Charles.	S	Trecŵn		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/17690

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Barham , Joseph Foster II	1759 – 1832	B	Trecŵn (Sir Benfro)	Mab Joseph Foster Barham I (1729-1789), yr etifeddodd blanhigfeydd yn Jamaica ganddo yn 30 oed. Roedd eisoes wedi etifeddu gan ei fam Dorothea Vaughan ei hystâd deuluol yn Nhrecŵn yn Sir Benfro ym 1803. Roedd wedi treulio dwy flynedd yn Jamaica yn dysgu busnes y teulu o 20 oed. Roedd yn berchennog anarferol: hysbysodd ei dwrnai yn Jamaica am gynlluniau i wella lles y caethweision a'i bryder am 'not only their health but their happiness' a gwrthododd brynu o longau caethweision, 'partly to some disgusting scenes I had witnessed and partly to the superior views which had been communicated to the world'. Fodd bynnag, roedd yn prynu caethweision o fewn Jamaica i 'ailstocio' ei blanhigfeydd yn Jamaica wrth i boblogaethau ddirywio. Fel AS, roedd o blaid dileu'r fasnach mewn caethweision i ddechrau, ond yna newidiodd ei feddwl oherwydd yr anawsterau ynghylch gorfodi hynny. Erbyn 1804 roedd yn cefnogi Wilberforce. Honnodd nad oedd perchenogion planhigfeydd wedi gweithredu'n annynol ac roedd yn pryderu am ruthro'n ar unwaith i 'state of savage liberty'. Roedd yn cadw at y farn bod y caethweision yn well eu byd na thlodion Prydain. Ym 1823 cyhoeddodd bamffled o'r enw <i>Considerations on the Abolition of Negro Slavery and the Means of Practically Effecting It</i> .	S	Trecŵn		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146634950 https://doi.org/10.1093/ref:odnb/107424 https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1820-1832/member/foster-barham-joseph-1759-1832
Barnes , Henry	1784-1837	B	Rockfield, Trefynwy, Llanwarw	Hawliodd Barnes iawndal, heb lwyddiant, fel ysgutor Louisa Barnes, ei wraig, a oedd ei hun yn etifedd ystâd ei thad William Mackinnon ar Antigua. Roedd y Parchedig Barnes yn byw yn Ffrainc ond roedd gynt wedi bod yn ficer Trefynwy a Rockfield, ac yn gurad yn Llanwarw cyn hynny.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146630557
Barnett , Eleanor Brady	1785-1861	B	Tre'r-llai	Ganed Barnett yn Jamaica ac roedd yn berchen ar naw caethwas yno a werthwyd ganddi ym 1825. Yn ddiweddarach bu'n byw yn Swydd Gaer ond ym mlwyddyn ei marwolaeth roedd yn byw yn y Persondy, Tre'r-llai, Sir Drefaldwyn.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146662715
Bateman , Colthurst	1771-1859	B	Llantrisant Fawr (Sir Fynwy)	Daeth Bateman yn berchen ar blanhigfeydd yn Jamaica drwy briodi merch John Kemeys Gardner Kemeys o Bertholey ac fe'i digolledwyd pan gafodd y caethweision eu rhyddfrenio. Roedd yn byw yn Bertholey yn y 1840au a bu'n siryf Sir Fynwy yn achos y Siartwyr yng Nghasnewydd ym 1839.		Bertholey		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/24526
Beavan , Thomas Drew	1802-1879	B	Sir Faesyfed	Ymddiriedolwr a enwir ar gyfer rhan o ystâd yn Jamaica, er mae'n bosib na wnaeth elwa'n bersonol. Roedd yn byw ym Mrynhydd, Sir Faesyfed.		Brynhydd		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/17513

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Bennett , Elizabeth Corne	1774-1852	X	Brynbuga	Treuliodd Bennet y rhan fwyaf o'i bywyd ym Mryste ac mae'n ymddangos mai camgymeriad yw'r cyfeiriad ym Mrynbuga gan ei fod yn ymwneud â 1891.		Tŷ Pentre?		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/46091
Bernard , Charles Edward	1815-1886	B	Caerdydd	Peiriannydd o bosibl a oedd yn byw yn y Stryd Fawr, Caerdydd ym 1851 ond a fu farw ym Middlesex. Etifeddodd elw o werthu caethweision ar St Vincent gyda'i chwaer Sarah Anne Reece o Elgin Cottage, Caerdydd.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/27657
Bernard , Dr Charles Edward	?-1842	B	Caerdydd	Meddyg a anwyd yn Jamaica ac a astudiodd yng Nghaeredin cyn mynd i Fryste. Roedd yn berchen ar ystadau yn Jamaica. Ymddengys ei fod wedi bod yn byw yng Nghaerdydd ym 1834 ond bu farw ym Mryste.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/14918
Boats , William (neu Boates)	1716-1794	A	??Conwy	Un o'r masnachwyr caethweision mwyaf yn Lerpwl, a fu'n gysylltiedig â 149 o fordeithiau caethweision ym 1752-94, buddsoddodd yn y diwydiant copr, yng Nghymru o bosibl. Buddsoddodd yn y Warrington Copper a Brass Company. Roedd yn blentyn a oedd wedi ei adael, ac fe'i henwyd ar ôl y cychod y cafodd ei ganfod ynddynt yn ôl y sôn. Gadawodd ystâd gwerth dros £23,000. Priododd ei ferch Ellen Syr Richard Puleston o Emral, Sir y Fflint.				https://core.ac.uk/download/pdf/41336523.pdf
Bosanquet , Samuel II	?-1806	B	Llanddingad (Sir Fynwy)	Llywodraethwr Banc Lloegr, gydag ystadau ar Nevis yn ôl pob tebyg y cafodd ei fab ei ddigolledu amdanynt. Bu'n byw yn Essex ond ar ôl derbyn etifeddiaeth gan ei frawd fe brynodd Llys Llanddingad, Sir Fynwy, ym 1786.		Llys Llanddingad		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146650015
Bosanquet , Samuel III	1768-1843	B	Llanddingad (Sir Fynwy)	Banciwr a gafodd ei ddigolledu am ystadau ar Nevis. Roedd yn byw yn Llundain ond etifeddodd Lys Llanddingad gan ei dad.		Llys Llanddingad		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/25287
Brigstocke , Charlotte	c.1820-1898	B	Rosemarket (Sir Benfro)	Cafodd Charlotte Cunningham a'i dwy chwaer eu digolledu am ryddfrenio wyth caethwas yn Tobago. Cafodd ei geni a bu farw ym Mryste ond ym 1861 roedd hi a'i gŵr, y Parchedig Silvanus Brigstocke, y priododd ym 1838, yn byw yn Vicarage House, Rosemarket, Hwlfordd. Roedd wedi bod yn ficer yn Arberth cynt.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/46765
Brown , George	?-1844	B	Amroth	Roedd ganddo blanhigfeydd caethweision yn Jamaica ac fe'u gwerthodd cyn rhyddfrenio i ymddeol i Great Crygyborion, Amroth, Sir Benfro.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146647315
Browne , Charles	?-1795	B	Marchwial (Sir Ddinbych)	Perchennog ystâd siwgr Swansea yn Jamaica. Roedd yn byw yn Neuadd Marchwial, a adawyd i'w wraig Lucy.		Neuadd Marchwial		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146649627
Browne , Lucy	?-c.1832	B	Marchwial (Sir Ddinbych)	Gwraig Charles Browne a pherchennog ystadau yn Jamaica. Gwerthodd Marchwial i berchennog caethweision arall, Samuel Riley ym 1801 a symudodd i Swydd Gaerwrangon.		Neuadd Marchwial		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146649629

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Bruce , Henry Austin (Arglwydd Aberdâr)	1815-1895	E	Caerdydd, Aberystwyth, Aberdâr	Cyfreithiwr, diwydiannwr, AS rhyddfrydol dros Ferthyr Tudful, Ysgrifennydd Cartref, a hyrwyddwr addysg yng Nghymru. O 1882, cadeiriodd y National African Company (y Royal Niger Company yn ddiweddarach), corff masnachol a arweiniodd ehangiad trefedigaethau Prydain yn Nigeria. Lobiodd am i Nigeria gael ei chydabod yn drefedigaeth Brydeinig yng Nghyhadledd Berilin ym 1885. Yn dilyn y gynhadledd cafodd y National African Company ei ailenwi'n Royal Niger Company gyda'r Arglwydd Aberdâr yn Llywodraethwr. Gorfodwyd monopolïau masnach y cwmni mewn modd hynod dreisgar gan ei luoedd diogelwch, ac yn dilyn gwrthdaro â theyrnas Nembe ym 1893 a 1895, cyhuddwyd staff y Cwmni o ymosodiadau rhywiol, er na chyrhaeddodd adroddiadau hynny y DU tan ar ôl marwolaeth Arglwydd Aberdâr. Ni wyddom am unrhyw gyhuddiadau penodol sy'n awgrymu iddo gymryd rhan mewn gweithredoedd troseddol neu erchyllterau. Mae wedi'i gladdu yn Aberpennar.	M		Topple the Racists	https://en.wikipedia.org/wiki/Henry_Bruce,_1st_Baron_Aberdare
Brydges , James	1673-1744	A	Sir Faesyfed Caernarfon	Ganed James Brydges yn Swydd Henffordd a bu'n Arglwydd Raglaw Maesyfed, er ei fod yn byw yn Llundain a Middlesex. Ef oedd Iarll Caernarfon o 1714 a chreodd y teitl Dug Chandos ym 1719. Rhwng 1720 a 1726, roedd ganddo gyfran reolaethol yn y Royal Africa Company. Ceisiodd symud y cwmni i ffwrdd o'r fasnach mewn caethweision ar ôl i'r cwmni golli ei fonopoli. Bu hefyd yn ymwneud â'r East India Company.	B S			https://www.jstor.org/stable/23701720
Bulkeley , William	1691-1760	A	Brynddu Ynys Môn	Wedi'i enwi yn y gronfa ddata slavevoygages fel cydberchennog y llong ar o leiaf 11 o fordeithiau yn cludo caethweision rhwng 1747 a 1756, ar longau o'r enw y <i>Bulkeley</i> , <i>New Bulkeley</i> ac <i>Ellis & Robert</i> . Hwylodd pob un ohonynt o Lerpwl i Orllewin Affrica ac yna i Barbados neu Jamaica. Daeth o linach Brynddu o Bulkeleys Ynys Môn ac fe'i ganed a bu farw ym Mrynddu, Llanfachell, Ynys Môn. Fe'i cofir fel dyddiadurwr. Ym 1738 priododd ei ferch, yn erbyn ei ddymuniadau, Fortunatus Wright, herwlongwr a mab teulu o berchenogion llongau yn Lerpwl. Efallai fod hyn wedi'i arwain i fuddsoddi mewn mordeithiau caethweision.				https://doi.org/10.1093/ref:odnb/62643 https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BULK-WIL-1691 https://www.hslc.org.uk/wp-content/uploads/2017/06/93-5-Wardle.pdf
Byam , Edward	?-1768	B	Sir Benfro	Perchennog caethweision yn Antigua a symudodd i Lanion, Doc Penfro, tuag at ddiwedd ei oes.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146655389
Byrde , Rebecca (née Mais)	1809-1893	B	Goetre Y Fenni	Yn fuddiolwr ymddiriedolaeth mewn ystâd yn Jamaica, cafodd ei geni ym Mryste. Ei hail ŵr oedd Henry C. Byrde ac roeddent yn byw yn Nhŷ Goetre, y Fenni ac yna bu'n byw yn Pentre House, Heol y Fenni, Goetre.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146654731

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Campbell, Duncan	1774-1858	B	Adpar Sir Gaerfyrddin	Partner mewn cwmni o Fasnachwyr India'r Gorllewin a wnaeth gais am iawndal am ystâd yn Jamaica. Aeth y cwmni i'r wal ym 1819. Roedd Campbell yn hanu o Lundain ond bu'n byw yn Adpar yn ei henaint.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146636884
Canning, George	1770-1827	C	Cenedlaethol	Yn Ysgrifennydd Tramor ac yna'n Brif Weinidog Prydain, roedd Canning o blaid dileu'r fasnach mewn caethweision a dadleuodd yn erbyn creu trefedigaethau caethweision newydd ond ym 1823, yn hytrach, ceisiodd leddfu bywyd yn y planhigfeydd yn y trefedigaethau gyda chyfres o ddiwygiadau ac ym 1824 roedd o'r farn bod rhyddhau caethweision <i>en masse</i> yn arbrawf peryglus.	S			Paula E. Dumas 2016
Champneys, Thomas	1745-1821	B	Yr Wyddgrug	Etifeddodd Syr Thomas Champneys ystadau yn Jamaica a'r Wyddgrug gan ei ewythr Anthony Langley Swymmer. Aeth i Jamaica a chollodd ei eiddo yn sgil trafferthion ariannol.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146648603
Churchill, Winston	1874-1965	E	Cenedlaethol	Cafodd gwleidydd enwocaf Prydain ei enwi fel y Prydeiniwr gorau erioed mewn pleidlais gyhoeddus gan y BBC yn 2002. Cyn ei arweinyddiaeth yn ystod yr Ail Ryfel Byd roedd yn ffigwr dadleuol yn wleidyddol. Roedd yn amhoblogaidd iawn yng nghymunedau glo De Cymru am ei weithredoedd fel Ysgrifennydd Cartref yn ystod terfysgoedd Tonypany (tynnwyd cynnig yn 2010 i ailenwi MOD Sain Tathan er teyrnged iddo yn sgil beirniadaeth). Mynegodd gred yn rhagoriaeth yr hil 'Eingl-Sacsonaidd' ac roedd yn gwrthwynebu datgymalu'r Ymerodraeth Brydeinig, gan gymryd golwg ramantus ar ei chyflawniadau. Roedd y rhain yn agweddau cyffredin ymysg ei genhedlaeth, a aned yn Oes Fictoria. Yn benodol, fe'i cyhuddwyd gan rai haneswyr o fethu â chymryd camau digonol, fel Prif Weinidog, i gynorthwyo adeg newyn Bengal ym 1943 yn sgil ei wrthwynebiad, ym 1935, i fwy o ymreolaeth yn India. Ond gwadwyd hyn gan eraill gan gyfeirio at y cymorth helaeth a ddarparwyd gan ei lywodraeth yn sgil anawsterau mawr cludo grawn yn ystod y rhyfel.	B S		Cafodd ei gerflun yn San Steffan ei ddifenwi yn ystod protestiadau BLM; DDIM ar wefan Topple the Racists	
Clarence, William Dug (Brenin William IV)	1765-1837	C	Cenedlaethol	Y Dug oedd trydydd mab George III, ac roedd yn swyddog morol ac yna'n llyngesydd ac yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi, lle siaradodd yn gadarn ac ar sawl achlysur o blaid perchnogion planhigfeydd ac yn erbyn dileu'r fasnach mewn caethweision. Oherwydd marwolaethau ei frodyr hŷn daeth yn Frenin William IV gan deyrnasu 1830-7.	B S			https://en.wikipedia.org/wiki/William_IV_of_the_United_Kingdom

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Clive , Edward (Iarl Powis)	1754-1839	A??	Y Trallwng	Yn fab i Robert Clive, bu'n Llywodraethwr Madras 1798-1803 a hwyrach iddo fod â buddiannau parhaus yng Nghwmni India'r Dwyrain, gan gynnwys caethweision o bosibl. Drwy briodi i mewn i deulu Herbert, meddiannodd sedd Castell Powis. Daeth yn Iarl Powis ym 1804 a bu'n Arglwydd Raglaw Sir Drefaldwyn 1804-30. Roedd ei fab Edward (1785-1848), a gymerodd enw'r teulu Herbert yn hytrach na Clive, yn dal swyddi a oedd yn gefnogol i berchnogion caethweision fel AS.		Castell Powis		https://doi.org/10.1093/ref:odnb/5696 https://www.nationaltrust.org.uk/cy_gb/powis-castle-and-garden/features/amgueddfa-r-teulu-clive-yng-nghastell-powis
Clive , Robert (Arglwydd Clive)	1725-1774	A	Cenedlaethol Y Trallwng	Bu East India Company yn cymryd rhan yn y fasnach gaethwasiaeth o 1621 i 1843 (cafodd ei diriogaethau eu heithrio o ddeddf dileu 1833). Dechreuodd Robert Clive fel gweithiwr iau ym 1744, arweiniodd ymgyrchoedd milwrol yn India a dringodd i fod yn Llywodraethwr Cyffredinol y Cwmni tan 1767. Fe wnaeth a/neu ddwyn ffortiwn enfawr. Cafodd ei eni yn Swydd Amwythig a bu farw yn Llundain. Roedd llawer yn ei weld fel arwr pan feddiannodd Prydain India a enwyd llawer o leoedd ar ei ôl a daeth ei gyfenw yn enw cyntaf poblogaidd. Ar ôl ei farwolaeth gynnar, priododd ei fab Edward ferch Iarl Powis a threuliodd lawer o'i gyfoeth ar adeiladau a chasgliadau yng Nghastell Powis.	S		Deisebau wedi'u llunio i gael gwared ar gerfluniau Clive yn Amwythig a Llundain	https://en.wikipedia.org/wiki/East_India_Company#Slavery_1621_-_1843
Colston , Edward	1636-1721	A	Cenedlaethol	Roedd Colston yn fasnachwr pwysig yn Llundain a'i weithgareddau o 1680 ymlaen yn cynnwys cysylltiad sylweddol â'r fasnach gaethweision trwy'r Royal African Company. Ym 1710 etholwyd ef yn AS Bryste, ei ddinas enedigol. Fel cymwynaswr amlwg nifer fawr o achosion elusennol, yn enwedig ym Mryste, cafodd ei goffáu'n helaeth. Mae llawer o'r sefydliadau a oedd yn dwyn ei enw bellach wedi ei ddileu, a chafodd ei gerflun yng nghanol Bryste ei dynnu i lawr gan brotestwyr yn 2020. Hyd y gwyddom, nid oedd ganddo unrhyw gysylltiad â Chymru.	S		Dadleuol iawn ym Mryste	ODNB

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Columbus , Christopher	c.1451 -1506	E	Rhyngwladol	Nid oes amheuaeth mai Columbus yw un o'r ffigyrau mwyaf arwyddocaol yn hanes y byd am iddo esgor ar yr oes fodern o gyswllt a gwladychu o ganlyniad i'w bedair mordaith ar draws yr Iwerydd. Ymhlith y canlyniadau mwyaf difrifol oedd dinistrio poblogaethau brodorol yr Americas, gwladychu Ewropeaidd a'r fasnach mewn caethweision ar draws yr Iwerydd. Fe'i cyhuddwyd yn bersonol o drin pobl frodorol a gwladychwyr yn filain. Er na ellir dal Columbus yn gyfrifol am bopeth a ddigwyddodd ar ei ôl, a byddai anturiaethwr arall wedi croesi'r Iwerydd pe na bai ef wedi gwneud hynny, mae'n symbol o drobwynt mewn hanes a oedd yn cael ei goffáu fel un arwrol ar un adeg ond sydd bellach yn cael ei ddeall am ei ganlyniadau trasig. Mae'n cael ei goffáu'n eang iawn yn Ewrop a'r Americas gan gerfluniau ac enwau lleoedd.	B S		Ar Topple the Racists am gerfluniau yn Llundain a Lerpwl. Gwrthwyneb iad sylweddol yn UDA.	
Coster , Thomas	1684- 1739	A	Redbrook, Abertawe Castell-nedd	Ymddengys Thomas Coster ar y gronfa ddata slavevoyages fel cydberchennog ar bum mordaith 1736-8. Daeth yn AS dros Fryste am bum mlynedd olaf ei fywyd. Gadawodd ffortiwn o £40,000. Roedd y teulu Coster yn fwyndoddwyr copr ym Mryste. Roedd tad Thomas, John Coster (1647-1718), yn rheoli gwaith yn Upper Redbrook. Roedd Thomas yn bartner yn y Bristol Brass Company a gymerodd drosodd y gwaith yn Redbrook ym 1722 a'i gau erbyn 1730. Cymerodd drosodd y gwaith ym Melincryddan, Castell-nedd hefyd, a chynllunio'r White Rock Works yn Abertawe, a agorodd yn fuan ar ôl ei farwolaeth.			Gweithfeydd copr Upper Redbrook, White Rock a Melincryddan	Chris Evans, 2010 https://doi.org/10.1093/ref:odnb/47489
Cotton , Stapleton (Is-larl 1af Combermere)	1773- 1865	B	Lleweni (Sir Ddinbych)	Swyddog milwrol, a gafodd ei ddigolledu am ystadau ar Nevis a St Kitts. Etifeddodd ei eiddo yn India'r Gorllewin gan ei fam, Frances Stapleton, o Fodrhyddan yn Sir Ddinbych. Cafodd ei eni yn adeilad mawreddog Neuadd Lleweni yn Sir Ddinbych, a werthwyd gan y teulu yn fuan wedyn. Roedd y teulu'n dirfeddianwyr amlwg yn Swydd Gaer a Swydd Amwythig, lle caiff ei goffáu.		Neuadd Lleweni		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/25180 https://en.wikipedia.org/wiki/Stapleton_Cotton,_1st_Viscount_Combermere#Slave_ownership

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Cunliffe, Foster (3ydd Barwnig)	1755-1834	A	Wrecsam Gresffordd	Y teulu Cunliffe oedd y masnachwyr caethweision mwyaf yn Lerpwl, gyda'r enw'n ymddangos droeon fel perchnogion ar fordeithiau rhwng 1719 a 1761 ar wefan slavevoyages.org. Roeddent yn berchen ar 26 o longau. Yr unigolion a enwir yw'r Foster Cunliffe cyntaf (1682-1758) a'i feibion Syr Ellis (Barwnig 1 ^{af}) a Robert (2 ^{il} barwnig). Syr Foster (3 ^{ydd} barwnig) oedd mab Syr Robert. Prynodd Neuadd Acton (safle Parc Acton erbyn hyn), Wrecsam, tua 1786 a chreodd y parc yn y 1790au. Bu'n Uchel Siryf Sir Ddinbych. Ehangodd Pant-yr-ochain yng Ngresffordd hefyd. Er ei bod yn ymddangos bod y teulu wedi dechrau cefnu ar y fasnach ar ôl 1761, enwyd un o'u llongau yn <i>Young Foster</i> ar ôl ei enedigaeth (un arall oedd yr <i>Ellis & Robert</i>).	S B			http://old.wrexham.gov.uk/welsh/heritage/foster_cunliffe_appeal/painting/acton_park.htm https://en.wikipedia.org/wiki/Sir_Foster_Cunliffe,_3rd_Baronet https://historicalengland.org.uk/content/docs/research/streetnames-pdf/
Darling, William Lindsay	c.1790-1863	B	Y Bont-faen	Fe'i digolledwyd am gaethweision ac ystadau yn Dominica. Cafodd ei eni yn India'r Gorllewin a threuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd yn Ne Orllewin Lloegr, ond adeg ei farwolaeth roedd yn byw ym Mhwll-y-wrach ger y Bont-faen.		Pwll-y-wrach		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/9903
Davies, David Byron	1765-1822	B	Aberhonddu	Roedd Davies yn fab i'r Parch. Davies o Sir Frycheiniog ac ymunodd â'r fyddin. Prynodd ystâd goffi yn Jamaica, lle bu farw.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146647327
Davies, Thomas	-1667	B	Ceunant, Y Trallwng	Ganed Davies yn Ngheunant ar gyrion y Trallwng. Bu'n ymwneud yn uniongyrchol â'r fasnach gyda Guinea fel ffactor i'r East India Company tua 1660. Bryd hynny, roedd y cwmni'n gwahardd gorfodi pobl i gael eu trawsgludo. Goruchwyliodd Davies drosglwyddo masnach Guinea i'r Company of Royal Adventurers, a fyddai'n canolbwyntio'n llwyr ar y fasnach mewn caethweision. Fodd bynnag, roedd gan Davies ystâd ar Barbados eisoes lle gellir tybio ei fod wedi bod yn berchen ar gaethweision. Rhoddodd gwpan aur i Eglwys y Santes Fair, y Trallwng, sydd bellach yn Amgueddfa Cymru, yn ddiolch am ei ymadawiad diogel o Guinea.		Ceunant		https://blogs.ucl.ac.uk/eicah/welshpool-gold-cup-case-study/
Davis, Howell	c.1690-1719	A	Aberdaugleddau	Ganed Davis yn Aberdaugleddau a bu'n gwasanaethu fel mêr ar long caethweision y Cadogan pan gafodd ei chipio gan fôr-ladron. Daeth yn gapten môr-ladron a dwyn swm mawr o aur o'r Royal African Company cyn cael ei ladd ym 1719, pan gafodd ei olynu fel arweinydd môr-ladron gan Bartholomew Roberts.				https://en.wikipedia.org/wiki/Howell_Davis
Dawkins-Pennant, George Hay (né Dawkins)	1764 – 1840	B	Penrhyn	Etifeddodd ystâd Penrhyn gan ei ail gefnder Richard Pennant (m.1808), gan ychwanegu Pennant at ei enw i gydnabod hynny. Cafodd iawndal enfawr adeg dileu caethwasiaeth am 764 o gaethweision yn Jamaica. Adeiladodd Gastell Penrhyn. Bu'n AS dros etholaethau yn Lloegr o 1814 i 1830.		Castell Penrhyn Ystâd Penrhyn		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/22227

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
De la Beche, Henry	1796-1855	B	Abertawe	Roedd De la Beche yn ffigwr allweddol o ran sefydlu daeareg fel gwyddor ac yn ddylanwadol iawn yn sgil creu'r Amgueddfa Ddaearegol, y Royal School of Mines ac Arolwg Ddaearegol Prydain. Cafodd ei ddulliau eu copio ar draws y byd. Symudodd y teulu i Jamaica ym 1800 pan etifeddodd ei dad ystadau caethweision yno ond bu farw o fewn y flwyddyn. Treuliodd De la Beche weddill ei blentyndod yn ne-orllewin Lloegr. Dechreuodd dderbyn incwm o'r blanhigfa pan ddaeth i oed ac ym 1823-4 treuliodd flwyddyn yno yn edrych ar reolaeth yr ystâd. Cyfrannodd at y ddadl am gaethwasiaeth drwy geisio disgrifio'n 'deg ac yn ddidwyll' amodau caethweision ar ei ystâd ac eraill mewn pamffled: <i>Notes on the Present Condition of the Negroes in Jamaica</i> (1825). Ysgrifennodd 'I entered on this investigation with a sincere desire to ascertain facts, and with no other prepossession than the dislike of slavery natural to every Englishman and which I trust the accidental circumstance of inheriting West Indian property does not necessarily obliterate: I can truly say with Bryan Edwards, "that I am no friend to slavery in any shape, or under any modification;" but the question in this case is not whether slavery in itself be the object of our love or hate but how the existing state of things in our West India colonies can be changed with justice and safety to all the parties interested.' Edrychodd ar ddeiet, dillad, gofal meddygol, gwyliau, hyfforddiant crefyddol, goruchwyllo cosbau ac ati, a barnodd fod perchenogion planhigfeydd Jamaica yn fwy tosturiol nag eraill: 'the general improvement in the treatment of the people appears from all accounts to be very considerable; and although much remains to be done, some credit should be given for what has already been effected'. Daeth i'r casgliad bod rhyddfrefinio yn frith o anawsterau, ac y byddai angen doethineb a phwyll i ddatrys yr anawsterau hynny'n ddiogel. Gan fod morgais ar yr ystâd, ni chafodd iawndal adeg y rhyddfrefinio a chollodd ei incwm. Ceisiodd gontractau i fapio daeareg ac ym 1835 sefydlodd Arolwg Ddaearegol Prydain, a symudodd i Abertawe ym 1837. Dechreuodd ymwneud â Chymdeithas Athronyddol a Llenyddol Abertawe a adeiladodd yr amgueddfa gyntaf yng Nghymru ym 1838 fel Sefydliad Brenhinol De Cymru. Roedd yn ffrind agos i deulu Dillwyn o ymgyrchwyr gwrth-gaethwasiaeth (priododd yr ieuengaf ohonynt ei ferch Elizabeth).	B S		Ar Topple the Racists	ODNB https://amgueddfa.cymru/ert/hyglau/2009-04-20/Archif-De-la-Beche-yn-Amgueddfa-Cymru/?_ga=2.100113115.417867020.1605625879-1954899409.1605625879 https://books.google.co.uk/books?id=Y4hmVTbd_oC&printsec=frontcover&source=gbs_ge_summary_r&cad=0#v=onepage&q&q&f=false https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146633718

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
De Rutzen , Mary Dorothea	1797-1860	B	Slebech	Etifeddodd Ystâd Slebech ac elw o blanhigfeydd yn Jamaica gan ei thad Nathaniel Philips. Priododd Charles Frederick, Barwn de Rutzen, ym 1822. Nhw oedd Arglwyddi Maenordy Slebech.		Parc Slebech		https://en.wikipedia.org/wiki/Slebech#Slebech_Park_Estate
Drake , Francis	c.1540	A	Cenedlaethol	Mae Drake ymhlith y cadlywyddion llyngesol ac anturiaethwyr enwocaf mewn hanes. Roedd yn un o'r cyntaf i hwylio o amgylch y byd a bu'n allweddol yn y fuddugoliaeth yn erbyn Armada Sbaen. Roedd ei fordeithiau trawsiwerydd cyntaf fel masnachwr caethweision, o dan awdurdod ei gefnder John Hawkins ym 1566 a 1567-8, a chynhaliwyd ymosodiadau gwaedlyd ganddynt yn Affrica ac yn erbyn llongau o Bortiwgal i gipio pobl yn gaethweision. Cafodd yr ail daith ei tharo'n ddifrifol gan dywydd gwael ac ymosodiad gan y Sbaenwyr. Credir na wnaeth Drake fasnachu mewn caethweision ar fordeithiau diweddarach ac ym 1572 ffurfiodd gynghrair gyda'r Cimaroons Affricanaidd a'u harweinydd Madinga yn erbyn y Sbaenwyr wedi iddynt ddianc.	S		Ar Topple the Racists	ODNB https://en.wikipedia.org/wiki/Francis_Drake https://www.goldenhinde.co.uk/blog/278-drake-was-a-slave-trader
Druce , Alexander	m. c.1892	B	Llanelli	Partner yn y Llanelli Copperworks Company, a oedd yn cyd-berchen y Cobre Company a oedd yn rhedeg mwyngloddiau caethweision yng Nghiwba.	S			Chris Evans, 2010 https://www.gracesguide.co.uk/Alexander_Druce
Edwardes , David John	?-1866	B	Rhyd-y-gors Llangain Llansteffan (Sir Gaerfyrddin)	Nai Charlotte Maria Picton, a ddigolledwyd gydag aelodau eraill o'r teulu am 98 o gaethweision yn Trinidad a etifeddwyd gan y Parch. Edward Picton, ac yntau wedi'u hetifeddu gan Thomas Picton. Symudodd o Ryd-y-gors i Pilroath yn Llangain ac yna i Lansteffan.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/46813
Ellis , William Samuel Augustine	1811-1862	B	Aberhonddu	Fe'i digolledwyd am blanhigfeydd yn Jamaica fel etifedd Mary Chandler. Roedd yn byw yn Llundain ond bu'n byw am gyfnod yng Nghastell Madog, Aberhonddu.		Castell Madog		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/45811
Evans , Jenkin	c.1740 - c.1799	A	?	Evans oedd Capten yr <i>Hudibras</i> , a ddisgrifiwyd mewn cyfrif o'r enw <i>Three Years Adventures, Of A Minor, In England, Africa, The West Indies, South Carolina And Georgia</i> gan William Butterworth (1822). Dywedwyd bod Evans yn Gymro. Fe'i rhestrir ar slavevoyages.org ar nifer o fordeithiau o Lerpwl o 1781-1799. Gadawodd £1000 yn ei ewyllys.				https://archive.org/details/b29328603_0001/page/10/mode/2up?q=evans Behrendt, 1991, <i>Slave Trade Captains</i> , t.108
Ford , James	1717-1795	B	Llangatwg (Sir Frycheiniog)	Meddyg yn Llundain oedd Ford ond etifeddodd ystâd yn Jamaica gan ei frawd. Bu farw yn Llangatwg, ger Crucywel.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146659309

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Gandhi , Mohandas K. (Mahatma)	1869-1948	E	Rhyngwladol	Arweinydd mudiad annibyniaeth India, sy'n enwog am hyrwyddo gwrth-wladychu, gwrthsafiad di-drais a <i>satyagraha</i> neu rym gwirionedd. Ar ôl astudio'r gyfraith yn Llundain aeth i ymarfer yn Ne Affrica 1893-1914. Brwydrodd yn erbyn gwahaniaethu gwrth-Indiaidd yn Affrica ond fe'i cyhuddwyd o gyfrannu at barhad hiliaeth yn erbyn Pobl Dduon De Affrica. Cymerir bod ei sylw mewn araith ym 1896 bod pobl wyn yn diraddio Hindwiaid a Mwslimiaid i lefel Kaffir yn awgrymu ei fod yn credu bod Indiaid yn well nag Affricaniaid Du. Mae gan haneswyr farn wahanol am ei euogrwydd yn hyn o beth, gyda rhai'n dweud y byddai wedi bod yn rhy gynnar i ddisgwyl cydraddoldeb yn Ne Affrica ar droad y ganrif ac eraill bod Gandhi wedi troi llygad ddall at greulondeb yn erbyn Affricaniaid. Serch hynny, ysbrydolodd arweinyddiaeth ddiweddarach Gandhi yn India arweinwyr yn Affrica, gan gynnwys Nelson Mandela. Dadorchuddiwyd cerflun o Gandhi yn Pietermaritzburg ym 1993 gan Desmond Tutu.	M		Cyd-destun cerfluniau Ghandi yng Nghaerlŷr a Manceinion. Heb ei gynnwys yn Topple the Racists	ODNB https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-leicestershire-53025407 https://en.wikipedia.org/wiki/Mahatma_Gandhi
Gascoyne , Sabine	1758-1840	B	Haroldstone	Yn fuddiolwr cyfran o iawndal am blanhigfeydd yn Jamaica, roedd yn hanu o Lundain ond bu farw yn Haroldstone House, Hwlfordd, lle'r oedd ei ferched a'i fab yng nghyfraith Mr Skone yn dal i fyw yn y 1860au.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/1342279958

Gladstone, William Ewart	1809-1898	E	Penarlâg, Cenedlaethol	Roedd tad Gladstone, Syr John Gladstone (1764-1851), yn fasnachwr o Lerpwl a oedd, er ei fod yn cefnogi dileu'r fasnach mewn caethweision, wedi buddsoddi mewn planhigfeydd siwgr o 1803 ymlaen ac fe'i digolledwyd am ryw 2,000 o gaethweision pan gawsant eu rhyddfrenio. Daeth y Gladstone ifanc i'r Senedd ar anterth y ddadl am gaethwasiaeth ym 1832. Dywedwyd ei fod yn parhau i addoli ei dad ar ddechrau ei yrfa wleidyddol. Roedd buddiannau ei deulu yn golygu nad oedd yn credu'r cyhuddiadau o gamdriniaeth ond eto roedd cytuno bod achosion o greulondeb yn rhoi 'rheswm sylweddol' dros ddileu caethwasiaeth yn ei gyfanrwydd. Yn ddiweddarach, cyfeiriodd at ddileu caethwasiaeth fel un o'r materion mawr lle'r oedd y dosbarthiadau gwleidyddol wedi bod yn anghywir. Dywedodd: 'I was brought up to hate and fear liberty. I came to love it.' Yn ei ymgyrch i gael ei ethol, yn 23 oed, datganodd Gladstone ei gefnogaeth ar gyfer rhyddfrenio caethweision ochr yn ochr ag addysg i bawb. Awgrymodd fod pobl dlawd yn Lloegr ac Iwerddon wedi'u magu i fod yn llawn mor anwybodus a chalon galed â negroes India'r Gorllewin, ac weithiau mewn amodau materol gwaeth. Adeg ei araith gyntaf, roedd yn cynrychioli buddiannau India'r Gorllewin, gan siarad o blaid digolledu perchnogion fel ei dad. Rhybuddiodd am ryddfrenio diogel a graddol er mwyn sicrhau 'the utter extinction of slavery'. Ar ôl cyflwyno'r ddeddf ddileu caethwasiaeth yn y DU, ceisiodd roi terfyn ar gaethwasiaeth mewn gwledydd eraill drwy gefnogi taith gwrth-gaethwasiaeth i fyny afon Niger a dadlau dros drethi ar siwgr a oedd mynd yn groes i'w gred mewn masnach rydd er mwyn gwrthweithio defnyddio caethweision i gynhyrchu siwgr. Gadawodd Gladstone y Torïaid i ymuno â'r Rhyddfrydwyr ac aeth ymlaen i fod yn un o wleidyddion diwygio mwyaf blaengar Prydain a'r unig Brif Weinidog erioed i wasanaethu pedwar tymor. Dywedodd yn y Senedd ym 1850 mai caethwasiaeth oedd y drosedd fileiniaf o bell ffordd sy'n pardduo hanes dynolryw mewn unrhyw wlad Gristnogol neu baganaidd. Fodd bynnag, oherwydd ei ddymuniad i roi terfyn ar gaethwasiaeth mewn gwledydd eraill drwy berswâd yn hytrach na grym, roedd yn amharod i ymyrryd yn Rhyfel Cartref America, yr Aifft a'r Swdan. Nid oedd Gladstone yn berchen ar blanhigfeydd ac ni chafodd iawndal, ac fel pumed plentyn (a phedwerydd mab) ei deulu ni etifeddodd ystadau ei dad. Serch hynny, roedd wedi derbyn lwfans gan ei dad i ariannu ei yrfa wleidyddol a swm sylweddol ar farwolaeth ei dad ym 1851. Ei gyfoeth ar adeg ei farwolaeth oedd £59,000, ond	M B S		Topple the Racists	ODNB Roland Quinault, 'Gladstone and Slavery', <i>The Historical Journal</i>, 52 (2) (2009), tt. 363–83 https://www.gladstoneslibrary.org/news/volume/a-statement-from-gladstones-library-black-lives-matter https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146630326
--------------------------	-----------	---	------------------------	--	-------------	--	--------------------	---

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
				hanner canrif yn gynharach roedd gan ei dad £750,000 adeg ei farwolaeth. Roedd cartref Gladstone ym Mhenarlâg yn perthyn i deulu ei wraig. Gwrthododd arglwyddiaeth ar bob un o'r tri achlysur y cynigiwyd un iddo.				
Glascott, Mary		B	Llanelli	Roedd hi'n byw yn Llundain ond roedd hi a'i meibion yn berchen ar waith copr y Cambrian yn Llanelli, a oedd yn cyd-berchen ar y Cobre Company a oedd yn rhedeg mwyngloddiau a oedd yn defnyddio caethweision yng Nghiwba.				Chris Evans, 2010 https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/16355?
Grenfell, Charles Pascoe	1790-1867	B	Abertawe	Partner yn y cwmni copr mawr yn Abertawe, Pascoe Grenfell & Sons, a oedd yn cyd-berchen ar y Cobre Company a oedd yn rhedeg mwyngloddiau caethweision yng Nghiwba.				Chris Evans, 2010
Grenfell, Pascoe St Leger	1798-1879	B	Abertawe	Mab hynaf Pascoe Grenfell (1761-1838) a Georgiana St Leger, wedi marwolaeth ei dad daeth yn arweinydd y cwmni a oedd yn berchen ar waith copr yr Upper a Middle Bank yn Abertawe (safleoedd bellach wedi'u hailddatblygu). Roedd yn fancwr yn Llundain ac fe'i digolledwyd am gaethweision yn Jamaica. Bu'n byw yn Llundain ac yn Abertawe o 1840 pan adeiladodd Maesteg House ar Fynydd Cilfái (wedi'i ddymchwel bellach). Mae'r DWB yn cyfeirio ato fel dyngarwr gweithgar a adeiladodd dai gweithwyr o safon dda, ysgolion ac eglwysi ac mae Chris Evans yn dweud iddo hyrwyddo Cristnogaeth ddiffuant. Roedd ei dad Pascoe Grenfell yn ffrind agos i Wilberforce ac fel AS roedd wedi cefnogi dileu'r fasnach mewn caethweision ym 1806 ar sail dyngarwch, cyfiawnder a pholisi. Fodd bynnag, roedd Pascoe Grenfell & Sons yn cyd-berchen ar y Cobre Company, a oedd yn rhedeg mwyngloddiau copr a oedd yn cael eu gweithio gan gaethweision yng Nghiwba ar ôl rhyddfrenio. Mae Evans yn awgrymu ei fod ef a'i gyd-aelodau bwrdd wedi ymbellhau o'r realiti gan 'impersonal blankness' cwmni stoc â nifer o gydberchnogion.	S			https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/43289 https://wales365uk-my.sharepoint.com/personal/christopher_tomas035_gov_wales/Documents/Profile/Documents/Audit/amendments/0 https://bywgraffiadur.cymru/article/c5-GREN-FEL-1750 Chris Evans, 2010 https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1790-1820/member/grenfell-pascoe-1761-1838
Grenfell, Riversdale William	1807-1871	B	Abertawe	Partner yn y cwmni copr mawr yn Abertawe, Pascoe Grenfell & Sons, a oedd yn cyd-berchen ar y Cobre Company a oedd yn rhedeg mwyngloddiau caethweision yng Nghiwba.				Chris Evans, 2010

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Grenville , George Neville	1789-1854	B	Penarlâg	Wedi'i eni i deulu bonedd, bu'n rheithor ym Mhenarlâg 1814-34 ac ar yr un pryd yn Feistr Coleg Magdalene yng Nghaergrawnt. Yn ddiweddarach bu'n gaplan i'r Frenhines Victoria. Roedd yn ymddiriedolwr ac yn fuddiolwr iawndal am ystâd fawr yn Jamaica.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/42697
Griffith , William Glynne	1775-1842	B	Pwllheli	Cyfreithiwr a oedd yn byw ym Modegroes a Rhosfawr, Pwllheli, a etifeddodd gan ei dad. Derbyniodd iawndal am ystâd yn Jamaica a etifeddwyd gan ei wraig, Catherine Longueville White, fel un o saith plentyn David White o Jamaica a Bryste.		Plas Bodegroes		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/42664
Hammet , Benjamin	c.1736-1800	B?	Llechryd	Magwyd Hammet yn Taunton, yn fab i farbwr. Daeth yn gontractwr adeiladu yn Ninas Llundain ac ym 1765 priododd Louisa Esdaile, merch y banciwr Syr James Esdaile. Ym 1781 daeth yn bartner gyda thad a brawd Louisa yn y banc Esdaile, Hammet & Co. Bu'n AS dros Taunton o 1782 tan ei farwolaeth. Roedd yr Esdailes yn berchen ar blanhigfeydd yn Jamaica a allai fod wedi rhoi cyfalaf i Hammet. Prynodd y gwaith tunplat yn Llechryd ym 1791 a'i ehangu. Adeiladodd blasty Castell Malgwyn wrth ymyl y gwaith a bu farw yno ym 1800. Parhaodd ei weddw Louisa i fyw yng Nghastell Malgwyn tan ei marwolaeth ym 1824, felly hefyd ei fab John (1767-1811), a gymerodd ei sedd yn y Senedd. Hawliodd ei wyrion iawndal adeg rhyddfrefinio caethweision.	M B	Castell Malgwyn Pont Llechryd		https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1790-1820/member/hammet-sir-benjamin-1736-1800 https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146665115
Hatton , Christopher	1540-1591	A?	Llanandras	Ac yntau'n un o ffefrynau Elizabeth I, buddsoddodd Hatton mewn mordeithiau gan Syr Francis Drake, a oedd wedi bod yn rhan o'r fasnach mewn caethweision ar draws yr Iwerydd yn y gorffennol. Daeth buddsoddiad Hatton ym mordaith Drake o amgylch y byd ym 1577-80 ag elw o £2,300 iddo drwy gyrchoedd a môr-ladrad yn erbyn eiddo'r Sbaenwyr a'r Portiwgeaid a thrwy fasnachu sbeisys. Cefnogodd fordeithiau diweddarach hefyd. Credir nad oedd Drake yn masnachu mewn caethweision yn ystod y cyfnod hwn. Ailenwodd Drake ei long yn <i>The Golden Hinde</i> i anrhydeddu arfbais Hatton. Roedd Hatton yn byw yn Llundain mewn plasty lle y saif Hatton Gardens bellach ond mae'n cael ei goffáu yn Llanandras.	M	Radnorshire Arms		ODNB https://en.wikipedia.org/wiki/Christopher_Hatton
Hawkins , John	1532-1595	A	Cenedlaethol	Hawkins oedd y morwr cyntaf o Loegr i geisio ymuno â'r fasnach mewn caethweision ar draws yr Iwerydd, a oedd yn cael ei dominyddu gan y Sbaenwyr a'r Portiwgeaid. Arweiniodd deithiau ym 1562 a 1565 pan aeth â channoedd o Affricaniaid i India'r Gorllewin a'u gwerthu i'r Sbaenwyr. Dychwelodd gyda'i gefnder Francis Drake yn 1566 a 1567-8 i gipio caethweision yn Affrica ac o longau Portiwgeaidd, ond roedd y mordeithiau'n drychinebus a chollwyd sawl llong yn y fflyd a bu farw llawer o Affricaniaid.	S			ODNB https://en.wikipedia.org/wiki/John_Hawkins_(naval_commander) https://www.goldenhinde.co.uk/blog/278-drake-was-a-slave-trader

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Herbert, Edward (Is-iarll Clive, 2 ^{il} Iarll Powis)	1785-1848)	C	Y Trallwng	Mab Edward Clive (1754-1839), ac ŵyr Robert Clive, a gymerodd Herbert, enw teulu ei fam, ym 1807. Bu'n AS Llwydlo 1806-1839, ar adeg pan oedd dileu caethwasiaeth yn bwnc llosg. Dadleuodd o blaid buddiannau India'r Gorllewin ac fe'i rhestrwyd fel un a oedd yn gwrthwynebu dileu'r fasnach mewn caethweision. Ysgrifennodd yn breifat at Palmerston yn dweud ei fod yn dymuno i Wilberforce gael ei anfon i India'r Gorllewin ei hun gan awgrymu y byddai rhyddfrenio yn gwneud India'r Gorllewin yn amhroffidiol ac y gellid eu colli i America. Gwrthododd feirniadu'r cyhuddiad yn erbyn y cenhadwr John Smith am annog caethweision Demerara i wrthdystio ym 1824 a phleidleisiodd yn erbyn beirniadu rhoi caethweision Jamaica o flaen eu gwell ym 1825. Bu farw ym Mhowis.	B	Castell Powis		http://www.histparl.ac.uk/volume/1820-1832/member/herbert-edward-1785-1848
Herbert, Mary	c.1686-1775	A	Y Trallwng	Credir mai merch yr 2il Farwis Powis, Arglwyddes Mary Herbert, oedd un o'r buddsoddwyr mwyaf yn y Mississippi Company, a oedd â monopoli ar y fasnach gan lywodraeth Ffrainc ar gyfer tybaco a chaethweision Affricanaidd ar gyfer India'r Gorllewin a Gogledd America. Collodd swm sylweddol o arian yn y 'Mississippi Bubble' ym 1721. Symudodd i Sbaen ym 1727 i drefnu mwyngloddiau metel yn Andalucia ond methodd y buddsoddiad hwn hefyd. Bu farw ym Mharis ym 1775.		Castell Powis		https://www.andalucia.com/province/huelva/riotinto/lady-mary-herbert-de-powis https://www.investopedia.com/terms/m/mississippicompany.asp
Herbert, Philip (4 ^{ydd} Iarll Penfro)	1584-1650	A?	Y Trallwng	Aelod o'r East India Company o 1614, a oedd yn dal monopoli'r Goron ar gyfer masnachu gydag India a hefyd Gorllewin Affrica nes iddo drosglwyddo i'r Company of Royal Adventurers ym 1662. Masnachodd mewn caethweision o Orllewin a Dwyrain Affrica i India, Indonesia a St Helena yn yr Iwerydd.		Castell Powis		https://blogs.ucl.ac.uk/eicah/welshpool-gold-cup-case-study/the-welshpool-gold-cup-case-study-thomas-davies-and-west-africa/
Hood, Samuel	1762-1814	E	Cenedlaethol	Roedd cefndryd Hood yn llyngeswyr enwog yn y Llynges Frenhinol ac ymunodd ef ei hun â'r llynges, gan godi i fod yn Is-Lyngesydd. Ym 1802 fe'i penodwyd yn un o'r tri chomisynydd yn Trinidad gydag William Fullarton a Thomas Picton. Bwriad y penodiad oedd rheoli ci-eiddra Picton wrth iddo lywodraethu'r ynys ar ei ben ei hun. Maes o law, ymddiswyddodd Hood mewn cydymdeimlad â Picton gan ei gefnogi yn ei achos yn Llundain, ond ni chafodd ei gyhuddo erioed o droseddau Picton ac nid yw'n ymddangos ei fod wedi ymwneud yn uniongyrchol â phlanhigfeydd na'r fasnach mewn caethweision.	S	Y Cymin		https://www.britishempire.co.uk/maproom/trinidad/thomas-picton.htm https://en.wikipedia.org/wiki/Sir_Samuel_Hood,_1st_Baronet

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Iolo Morganwg (Edward Williams)	1747-1826	E	Llancarfan, Flemingston, Y Bont-faen, Pennon	Ac yntau'n hynafiaethwr ac awdur enwog a dylanwadol, ac yn sylfaenydd Gorsedd y Beirdd, roedd Iolo yn ymgyrchydd brwd a gweithgar dros ddileu'r fasnach mewn caethweision er bod ei frodyr yn berchnogion planhigfeydd yn Jamaica. Pan fu farw ei frawd John, gobeithiai Iolo etifeddu ei ystâd er mwyn datrys ei broblemau ariannol ei hun a rhyddfrenio'r caethweision. Derbyniodd swm o arian parod ymhen hir a hwyr ym 1815, ac erbyn hynny roedd y fasnach mewn caethweision wedi'i dileu ac felly roedd tir ei frawd yn rhydd o gaethweision, gan ganiatáu iddo dalu ei ddyledion gyda'r arian gyda chydwybod glir.	M B	Siop yn y Bont-faen		Andrew Davies, 'Uncontaminated with Human Gore'? Iolo Morganwg, Slavery and the Jamaican inheritance, yn <i>Rattleskull Genius</i> , 2006
James I (Iago I)	1566-1625	A?	Cenedlaethol	Creodd Brenin Iago I y Company of Adventurers of London Trading into the Parts of Africa ym 1618. Rhoddodd fonopoli 31 mlynedd i'r cwmni ar allforio nwyddau o Orllewin Affrica i'w mewnfario i Loegr. Fe'i hailenwyd y Guinea Company ym 1631. Prif fuddiant y cwmni i ddechrau oedd aur ac ni ddechreuodd fasnachu mewn caethweision tan ar ôl marwolaeth James.	M			
James, Meredith Herbert	c.1744-1774	B?	Aberhonddu	Bu farw yn Barbados yn 30 oed. Roedd yn hanu o Aberhonddu ac astudiodd yng Ngholeg Penfro, Rhydychen. Nid yw'n glir beth oedd yn ei wneud yn Barbados.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146654555
Jeffreys, Jeffrey	c..1652-1709	A	Llywel, Aberhonddu	Yn wreiddiol o Lywel, ac yna perchennog Ystâd y Priorddy yn Aberhonddu ac AS Aberhonddu a henadur dinas Llundain. Gwnaeth Jeffreys ffortiwn o'r fasnach drionglog mewn caethweision. Bu'n Gynorthwydd i'r Royal African Company ac yn ddiweddarach masnachodd nifer fawr o gaethweision ar ei liwt ei hun.		Ystâd y Priorddy, Aberhonddu		https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1690-1715/member/jeffreys-jeffrey-1652-1709 Chris Evans, 2010
Jeffreys, John	c..1614-1688	A	Llywel (Sir Faesyfed)	Yn gynorthwydd i'r Royal African Company a adawodd ei ffortiwn i'w nai Jeffrey Jeffreys, roedd yn fasnachwr tybaco ac yn mewnfario caethweision i Virginia yn y 1670au a'r 1680au. Mae'n ymddangos fel perchennog y llong caethweision <i>Rappahanok</i> a oedd yn hwylio o Lundain ym 1656. Gwnaeth ffortiwn enfawr. AS Sir Faesyfed.				Chris Evans, 2010
Jenkins, James	c..1750-1786	B	Llanwytherin Y Fenni	Bu farw Jenkins ym 1786 yn Jamaica. Dywedir ei fod yn hanu o Gelli, Llanwytherin, Sir Fynwy. Roedd ei ewyllys yn sôn am ei fam Mary Jenkins a'i frawd John, y ddau o'r Fenni. Roedd ei eiddo yn Jamaica yn cynnwys caethweision yr oedd wedi'u henwi yn Cardiff, Monmouth, Pembroke a Newport ac ystâd o'r enw Llanblethian Hill.		Gelli		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146658257

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Jenkins, Robert	c.1700-1743	A	Llanelli	Roedd Jenkins yn gapten llongau y credir ei fod yn hanu o Lanelli. Roedd yn enwog am fod yn gomander ar long y Llynges Frenhinol pan ddaeth herwlongwr o Sbaen ar fwrdd y llong a thorri ei glust i ffwrdd, gan ddarparu esgus sawl blwyddyn yn ddiweddarach i Ryfel Clust Jenkins. Ymunodd â'r East India Company fel meistr yr <i>Harrington</i> a oedd yn cludo nifer o gaethweision o Affrica i India yn y 1730au ac fe'i cofnodwyd fel masnachwr caethweision ar ei liwt ei hun. Bu farw yn Bombay.				ODNB https://en.wikipedia.org/wiki/Robert_Jenkins_(master_mariner)
Jervis, John (Iarll St Vincent)	1735-1823	C	Cenedlaethol	Ganed Jervis yn Swydd Stafford ac ymunodd â'r Llynges Frenhinol, gan godi i safle Lyngesydd y Fflyd. Roedd yn uchel ei barch fel crëwr llynges fwy effeithlon a oedd yn cael ei harwain yn well. Roedd yn AS ac yn ddiweddarach yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi, lle siaradodd yn erbyn bil dileu'r fasnach mewn caethweision 1807 ar y sail y byddai eraill yn parhau â'r fasnach ac y byddai'r genedl yn colli refeniw.	M S	Y Cymin		https://en.wikipedia.org/wiki/John_Jervis,_1st_Earl_of_St_Vincent
Jim Crow (Thomas Dartford Rice)	-	E	Rhyngwladol	Perfformiad theatr gerdd lle byddai'r perfformiwr yn peintio ei wyneb yn ddu oedd Jim Crow. Fe'i crëwyd gan Thomas Rice rhwng 1827 a 1832. Daeth yr enw'n derm difriol am Americanwyr Affricanaidd, a gafodd eu difreinio'n ddiweddarach yn y taleithiau deheuol gan y 'Jim Crow Laws'. Perfformiodd Rice ym Mhrydain ym 1836 ac roedd yn adnabyddus iawn. Mae'n bosibl bod bwthyn, coedwig ac yn ddiweddarach sgwâr yng Nghwmbrân wedi cael eu henwi ar ôl y cymeriad ffuglennol neu ar ôl Jim Crowe go iawn.	S			
Jones, Frances F (née Allen)	? – 1843	B	Treffynnon	Roedd Jones yn ferch i blannwr ac yn gydberchennog ystâd ar Barbados y dyfarnwyd iawndal iddi ar ei chyfer. Adeg ei marwolaeth roedd hi'n byw yn Nhreffynnon, Sir y Fflint.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/4259
Jones, James a Thomas		A	?	Brodyr a ddaeth yn brif fasnachwyr caethweision ym Mryste ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Dywedir eu bod wedi dod o dde Cymru. Rhyngddynt, rheolwyd 102 o fordeithiau caethweision ganddynt rhwng 1767 a 1795, pan fu farw Thomas.				Richardson, 1985, <i>Bristol Slave Traders</i> , Bristol Record Society.
Jones, John Chambres	1750-1833	A	Llansanffraid Glan Conwy	Roedd Jones yn fasnachwr o Lerpwl y dywedir fod ganddo fuddiant yn y fasnach mewn caethweision – roedd gan gwmni o bedwar partner o'r enw John Chambers, Jones & Co un llong ym masnach caethweision Lerpwl ym 1790. Dychwelodd Jones i brydlesu tir yn ei blwyf genedigol, Llansanffraid Glan Conwy.				http://discoveringgoldwelshhous.co.uk/library/Hhistory/con%20087_HH_55_Plas_Uchaf_Conwy.pdf
Kemeys, John Kemeys Gardner Kemeys	1757-1830	B	Llantrisant Fawr	Mam Kemeys oedd Jane Kemeys o Sir Fynwy. Etifeddodd gaethweision yn Jamaica gan ei dad. Bu'n Uchel Siryf Sir Fynwy ym 1809 ac yn berchen ar Bertholey House, Llantrisant Fawr, er ei fod yn byw ym Mryste adeg ei farwolaeth.		Bertholey House		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146662423

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Kendall, Edward	1789-1862	B?	Llangattock Beaufort	Roedd Kendall yn dod o deulu a oedd wedi bod â chysylltiad hir â'r diwydiant haearn sawl rhan o Brydain. Roedd ganddynt fuddiannau yn ffrwrneisi Conwy a Dyfi a gafodd eu disodli ym 1779 pan agorwyd gwaith haearn Cendl gan dad Edward Kendall (yntau'n Edward, 1750-1807). Bu'r teulu'n byw am beth o'r amser yn Nhan-y-Parc, <u>Llangatwg</u> . Ychydig ddiddordeb ddangosodd Edward ei hun yn y gwaith a gwerthodd ei siâr ym 1833. Roedd yn byw yn Cheltenham. Dyfarnwyd iawndal iddo am gaethweision yn Dominica fel ymddiriedolwr cytundeb priodas William Lindsay Darling a'i ail wraig Anna. Mae'n ymddangos nad oedd ganddo fuddiannau ei hun mewn planhigfeydd.	S			https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/41906
Kewley, John	? – 1834	B	Wrecsam	Hawliodd Kewley iawndal adeg rhyddfrefinio caethweision am eiddo ar St Lucia ac mae'n debyg ei fod yn rhan o'r teulu o fasnachwyr caethweision o'r un enw yn Lerpwl. Y cyfeiriad a roddodd adeg ei hawliad oedd Stansty Lodge, Wrecsam.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/689722661
Kewley, Mary (née Brocklebank)	1799 - 1865	B	Wrecsam Sir Drefaldwyn	Gweddwy John Kewley yn ôl pob tebyg, ar ôl priodi yn 21 oed a dod yn weddw yn 35 oed, roedd yn dal i fyw yn Stansty Lodge, Wrecsam flynyddoedd lawer ar ôl ei farwolaeth. Ganed ei dau fab yn Sir Drefaldwyn tua 1830. Dyfarnwyd iawndal iddi am ystadau yn St Lucia. Yn ddiweddarach bu'n byw yn Berkshire.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/26851
Kitchener, Horatio Herbert	1850-1916	D	Cenedlaethol	Roedd Kitchener yn swyddog byddin hynod arwisgedig ac yn weinyddwr trefedigaethau a cherfiodd ei yrfa yn Affrica ac India. Fe'i gwnaed yn Farwn Kitchener o Khartoum ar ôl ennill rheolaeth Brydeinig dros y Swdan. Mae'n cael ei feirniadu'n hallt am ei weithredoedd fel Pennaeth Staff yn Ne Affrica yn ystod yr Ail Ryfel y Boer, 1900-2, pan ddilynodd bolisi 'tir llosg' o losgi cnydau, lladd da byw a charcharu 154,000 o sifiliaid mewn gwersyll-garchardai: 45 ar gyfer y Boeriaid gwyn a 64 ychwanegol ar gyfer Affricaniaid Du. Arweiniodd camreoli'r gwersylloedd a thlodi'r boblogaeth y tu allan at newyn torfol, oerfel ac afiechyd, a marwolaethau tua 28,000 o Boeriaid ac o leiaf 14,000 (dros 20,000 o bosibl) o Affricaniaid Du. Bu farw tua 28,000 o filwyr Prydain hefyd. Canfu ymchwiliad gan y Swyddfa Ryfel mai diffygion gweinyddol yn hytrach na pholisi Kitchener oedd ar fai am y marwolaethau. Ar ôl y fuddugoliaeth, dychwelodd Kitchener adref i groeso arwr ym mis Gorffennaf 1902 a chafodd ei anrhydeddu'n helaeth. Daeth yn eicon y Rhyfel Byd Cyntaf gyda'i lun ar bosteri recriwtio'r fyddin. Bu farw'n gwasanaethu pan gafodd ei long ei suddo gan un o gychod U yr Almaen ym 1916. Cafodd ei goffau'n eang.	B S		Topple the Racists am gerfluniau yn Llundain a Chatham	ODNB https://en.wikipedia.org/wiki/British_concentration_camps

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Knox, William	1732-1810	B	Slebech Arberth Llanstinan Templeton Mynwar	Ganed Knox, o Sgwâr Soho yn Llundain, yn Iwerddon ac roedd wedi bod yn uwch was llywodraeth Prydain yn America cyn ac yn ystod y Rhyfel Annibyniaeth. Roedd wedi gwneud ffortiwn diolch i'w blanhigfeydd reis yn Georgia lle'r oedd gweithlu mawr o gaethweision. Ysgrifennodd bamffled i amddiffyn caethwasiaeth ym 1768 a gafodd ei ailgyhoeddi ym 1789. Daeth i Sir Benfro ym 1783 a chaffael ystâd Llanstinan yn Nhrecŵn ger Abergwaun yna ym 1785 ystâd Slebech a bu'n Uchel Siryf Sir Benfro ym 1786. Cafodd ei ystadau yn Georgia eu hatafael ar ôl annibyniaeth America. Profodd drafferthion ariannol a gwerthodd Slebech i Nathaniel Phillips ym 1792/3. Ymddengys ei fod wedi cadw ystadau eraill yn Sir Benfro ac wedi byw yn Llanstinan. Yn Sir Benfro, ceisiodd hyrwyddo diwylliant a gwelliannau'r wlad drwy sefydlu Cymdeithas Amaethyddol, a diwygio moesau'r bobl drwy sefydlu ysgolion ar gyfer addysgu plant y tlodion. Ym 1794 trefnodd Milwyr Gwirfoddol Abergwaun a Threfdraeth i amddiffyn rhag ymosodiad y Ffrancwyr, a thair blynedd yn ddiweddarach cafodd y milwyr eu galw i wrthsefyll ymosodiad Abergwaun o dan arweiniad ei fab Thomas Knox.		Tŷ Llanstinan (adfeiliedig) Parc Slebech		https://archives.library.wales/downloads/slebech-estate-records.pdf https://www.facebook.com/groups/trulypembrokeshire/permalink/3231850333525486/ Rena Vassar, 1970. William Knox's Defence of Slavery https://georgianpapers.com/2019/04/15/william-knoxs-counterrevolution/ .
Laroche, James	1730 - 1804	A	Pîl	Roedd Laroche yn fasnachwr caethweision ym Mryste a daeth planhigfa yn Antigua i'w feddiant drwy ei briodas gyntaf. Ei ewythr, hefyd yn James Laroche, yr oedd yn etifedd iddo, oedd y prif fasnachwr caethweision ym Mryste yn y 1730au a'r 1740au a hefyd asiant Bryste ar gyfer partneriaeth gwaith copr Llangyfelach yn Abertawe. Prynododd Over Court yn Swydd Gaerloyw, cafodd ei urddo'n farchog a daeth yn AS Bodmin yng Nghernyw 1768-80 fel ei dad o'i flaen. Fodd bynnag, aeth yn fethdalwr ym 1778 a bu farw ei wraig gyntaf ym 1781. Ym 1795 priododd Elizabeth Thursley, gwraig weddw o Langynwyd ger Pen-y-bont ar Ogwr. Symudodd y ddau i'r Pîl ac efallai eu bod wedi byw yn Pyle Cottage ac yn ddiweddarach Fferm Longland tan ei farwolaeth. Claddwyd y ddau yn Eglwys y Pîl.		Fferm Longland, Y Pîl Pyle Cottage		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146640531 https://en.wikipedia.org/wiki/James_La_Roche https://www.facebook.com/groups/81923433064/permalink/10155136640058065/
Laroche, James	fl. 1730au-1740au	A	Abertawe	Masnachwr caethweision mwyaf Bryste y 1730au a'r 1740au, hefyd yr asiant ym Mryste ar gyfer copr o waith copr Llangyfelach yn Abertawe.				Chris Evans, 2010
Lawrence, William	1793 – 1844	B	Llanfair-ym-Muallt	Roedd Lawrence yn fab i Gymro o gyfreithiwr o Dyvannor ger Llanfair-ym-Muallt. Bu'n gweithio i Fanc Lloegr yn Llundain gydol ei yrfa. Mae'n ymddangos mewn cofnodion iawndal fel ysgutor ond nid buddiolwr planhigfeydd yn Jamaica.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146647481

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Leach , Catherine (ne Smyth)	1763- 1843	B	Corston (Sir Benfro)	Derbyniodd Catherine Smyth o Barnstaple yn Nyfnaint setliad priodas o flwydd-daliadau o ystadau yn Jamaica pan briododd Abraham Leach o Corston yn Sir Benfro (1763-1843).		Corston House		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/46208
Leach , Edward	1802 - 1855	B	Corston (Sir Benfro)	Hawliodd iawndal am blanhigfeydd yn Jamaica adeg rhyddfrenio caethweision gyda'i frodyr Henry a John Frederick, a etifeddwyd drwy eu mam Catherine. Cafodd ei eni yn Corston House yn Sir Benfro a daeth yn gyfreithiwr ym Mhenfro.		Corston House		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/46208
Leach , Henry	1794 – 1864	B	Corston (Sir Benfro)	Hawliodd iawndal am blanhigfeydd yn Jamaica adeg rhyddfrenio caethweision gyda'i frodyr Edward a John Frederick, a etifeddwyd drwy eu mam Catherine. Roedd yn byw yn Corston House yn Sir Benfro ac roedd yn etifedd i'r ystâd. Bu'n Uchel Siryf Sir Benfro ym 1852.		Corston House		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/43036
Leach , John Frederick	1804 – 1843	B	Corston (Sir Benfro)	Hawliodd iawndal am blanhigfeydd yn Jamaica adeg rhyddfrenio caethweision gyda'i frodyr Henry a Edward, a etifeddwyd drwy eu mam Catherine. Cafodd ei eni yn Nhŷ Corston yn Sir Benfro a bu farw yno yn 38 oed. Roedd wedi dod yn fargyfreithiwr yn y Deml Fewnol.		Corston House		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/46207
Lewellyn , William	1774- 1803	A	Sir Fynwy	Cofnodwyd fel capten llongau cludo caethweision ym 1802 a aned yn Sir Fynwy ac a fu farw ar fordaith ym 1803.				Behrendt, Captains in the British Slave Trade
Llewhellin , Michael	?-1854	B	Caeriw	Dyfarnwyd iawndal i Michael Llewhellin gyda Henry Palmer (m.1849) ar gyfer planhigfa Castell Caeriw yn Jamaica, ac felly mae'n bosibl mai Michael Llewhellin 82 oed oedd â fferm 136 erw yn Pincheston, Caeriw ym 1851, oedd hwn.		Pincheston		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/43616
Mackworth , Herbert	1791- 1848	B	Castell-nedd	Mackworth oedd ail fab Syr Digby Mackworth o'r Gnoll, sef teulu o ddiwydianwyr o Gastell-nedd. Ymunodd â'r Llynges yn 12 oed. Fe'i lleolwyd yn Trinidad tua 1825 a dyfarnwyd iawndal iddo am saith o gaethweision ar ei aelwyd adeg rhyddfrenio caethweision. Dychwelodd i fyw yn Llundain ac yn ddiweddarach bu'n byw yn yr Almaen.		Y Gnoll		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/29931
Macnamara , John	1756- 1818	B	Llangoed (Sir Frycheiniog)	Yn AS Caerlŷr, roedd Macnamara yn byw yn Wiltshire ac yng Nghastell Llangoed (Neuadd yn ddiweddarach), a ddaeth i'w feddiant drwy gamblo yn ôl y sôn. Roedd yn berchen ar eiddo yn Tortola ac yn rhagweld arian o ystadau eraill yn India'r Gorllewin. Priododd ei fab Arthur Macnamara ag Anne, merch John Pedley, a gafodd iawndal am ei ystadau ei hun yn Jamaica. Etifeddasant Llangoed a chyfoeth ei thad.		Llangoed		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146649889 https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/15649

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Marryat , Joseph	1790 – 1876	B	Ystradgynlais	Fe'i ganed yn Grenada, ac roedd yn fuddiolwr ystadau niferus ei dad. Fel AS Sandwich yng Nghaint bu'n gweithio yn erbyn rhyddfrenio caethweision. Caffaelodd waith haearn Ynyscedwyn yn Ystradgynlais a bu'n byw ym Maesydderwen yng Nghwm Tawe o tua 1849 ond dychwelodd i Lundain maes o law.		Maesydderwen Gwaith Haearn Ynyscedwyn		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/11416 http://www.histparl.ac.uk/volume/1820-1832/member/marryat-joseph-1790-1876
Meyler , Richard Hynaf	?-1772	A	Hwlfordd	Masnachwr caethweision ym Mryste o'r 1730au, yn wreiddiol o Hwlfordd. Roedd yn berchen ar blanhigfeydd yn Jamaica ac yn masnachu siwgr, caethweision, bwydydd a nwyddau sych. Gadawodd £30,000 ac roedd ganddo ystadau yn Sir Benfro, Hampshire a Gwlad yr Haf. Caffaelodd ei frawd iau Jeremiah blanhigfeydd caethweision hefyd. Priododd ei bartner busnes Henry Bright ei ferch Sarah Meyler				Kenneth Morgan, 1993, Bristol West India Merchants
Meyrick , Owen Putland	1752 – 1825	B	Bodorgan, Ynys Môn	Cyd-berchennog, mae'n debyg drwy deulu ei wraig Clara Garth, sawl planhigfa ar St Kitts ym 1807. Roedd ei deulu ei hun wedi bod yn berchen ar ystâd Bodorgan ar Ynys Môn ers tro byd. Priododd ei ferch Clara ag Augustus Elliott Fuller (1777-1857), a oedd â phlanhigfeydd sylweddol ac a gafodd iawndal amdanynt adeg rhyddfrenio caethweision. Etifeddodd eu mab Owen Augustus Fuller (1804-1876) Bodorgan yn ddiweddarach a chymerodd yr enw Meyrick.		Bodorgan		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146665085 https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/18791 https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MEYR-BOD-1485
Miles , John	1620/1 -1683	B	Caerfyrddin Y Gelli Gandryll Llanelli Llanilltud Gŵyr	Sylfaenydd mudiad y Bedyddwyr yn ne Cymru, cafodd ei eni ger y Gelli Gandryll. Sefydlodd eglwys y Bedyddwyr yn Llanilltud Gŵyr yng Ngŵyr erbyn 1649 a theithiodd ledled de Cymru yn hyrwyddo achos y Bedyddwyr. Fe'i penodwyd i swydd ychwanegol yn Llanelli ym 1656. Cafodd ef a'i ddilynwyd eu herlyn ar ôl yr Adferiad a gadawodd am Drefedigaeth Plymouth yn America, lle sefydlwyd tref Swansea ym 1667. Ffodd o Swansea yn ystod Rhyfel y Brenin Philip gyda'r Americanaid Brodorol ym 1675 ond dychwelodd a bu farw yno. Roedd ganddo gaethweision Du yn Swansea a chadwodd dir yn Sir Gaerfyrddin. Dadorchuddiwyd amgae o gwmpas adfeilion capel Sant Cenydd, Llanilltud Gŵyr, er cof amdano gan Lloyd George ym 1928.	M			https://www.oxforddnb.com/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-19691?rskey=NdRznP&result=2
Miles , Philip John	1774-1845	B	Aberteifi	Yn fab i fasnachwr a pherchennog planhigfa yn Jamaica o Fryste, roedd yn ymwneud â'r fasnach siwgr ar ei liwt ei hun ac adeg rhyddfrenio caethweision cafodd ei ddigolledu am dros 2,000 o gaethweision. Buddsoddodd mewn ystod eang o fuddiannau masnachol a diwydiannol a llawer o eiddo. Caffaelodd y Priorddy yn Aberteifi ym 1832 a'i roi ar osod.		Y Priorddy, Aberteifi		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/19118 http://www.glen-johnson.co.uk/cardigan-priory-hospital/

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Morgan , Henry	c.1635-1688	B	Llanrhymni	Herwlongwr a Llywodraethwr Jamaica a brynodd ei blanhigfa siwgr ei hun, o'r enw Llanrumney ar ôl ei gartref. Roedd yn berchen ar dair planhigfa adeg ei farwolaeth. Roedd yn gefnder i Morgans Tredegar.	S			Chris Evans, 2010 DWB Cymorth NDNB
Morgan , John	1670-1719	A	Casnewydd Aberhonddu	Mae'n debyg bod ail fab William Morgan (m.1680), yn dal i fuddsoddi yn y Royal African Company.				
Morgan , Thomas	1664-1699	A	Casnewydd Aberhonddu	Mab William Morgan (m.1680). Bu farw heb blant ac aeth ei eiddo i'w frawd John. Mae'n debyg iddo fuddsoddi yn y Royal African Company.				
Morgan , Thomas	1604-1679	A	Lingoed Llangatwg	Cipiodd 900 o gaethweision mewn cyrch ar St Eustatius yn India'r Gorllewin a mynd â nhw i Jamaica.				
Morgan , William	?-1762	A	Radur	Morwr o Radur, Caerdydd, a fu farw ar fordaith i Guinea.				Dyddiadur William Thomas
Morgan , William	c.1640	A	Casnewydd Rhiwperra Tredegar Newydd Aberhonddu Caerdydd	Buddsoddodd William Morgan a'i ddisgynyddion yn y Royal African Company. Daethant yn Farnwniaid Tredegar, enw sy'n cael ei ganfod yn eang. Nid oes yr un o'r teulu wedi'i restru ar gronfa ddata UCL felly mae'n debyg nad oeddent yn berchnogion planhigfeydd adeg rhyddfrefinio caethweision. Cyflwynodd Charles Morgan Robinson Morgan o Rhiwperra a Thredegar (1792-1875) ddeisebau gwrth-gaethwasiaeth fel AS Aberhonddu ym 1830, felly hefyd Syr Charles Morgan o Dredegar (1760-1846) ym 1826.		Tŷ Tredegar Castell Rhiwperra Tredegar Newydd		Chris Evans, 2010 https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1820-1832/member/morgan-charles-1792-1875
Morris , John	1706-1740	A	Ynys Môn	Yr ieuengaf o'r pedwar brawd Morris o Lanfihangel-Tre'r-Beirdd yn Ynys Môn, roedd John yn forwr. Bu'n gwasanaethu ar long East India Company yr <i>Harrington</i> , yn cludo caethweision o Madagascari India, ac aeth ef ei hun â chaethwas i'w werthu. Yn ddiweddarach bu'n gwasanaethu ar long rhyfel y llynges, y Torbay, a bu farw mewn ymosodiad ar Cartagena yn y Caribî. Fe'i disgrifiwyd fel dyn caredig. Mae 22 o'i lythyrau wedi goroesi.	M			http://antislavery.ac.uk/items/show/902 DWB
Morris , Pryse	c.1760-1797	A	Ceredigion	Mab ieuengaf y polymath Lewis Morris o Ynys Môn ac yn ddiweddarach Ceredigion, roedd Pryse yn forwr a dywedir iddo gael ei ladd yn ystod gwrthdystiad ar fordaith caethweision i Barbados. Roedd brawd Lewis Morris, John (1706-40), hefyd wedi bod yn rhan o'r fasnach mewn caethweision a bu farw ei fab hynaf Lewis (c.1750-1779) yn Jamaica hefyd.				
Morris , Valentine	c.1768-1743	B	Cas-gwent	Roedd Cymol Morris yn berchen ar blanhigfeydd siwgr yn Antigua. Roedd yn ddisgynydd teulu o Sir Fynwy, y Walters, a phrynnodd Piercefield ger Cas-gwent ym 1740.		Piercefield		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146646967

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Morris, Valentine II	1727-1789	B	Cas-gwent Brynbuga	Ganed Morris yn Antigua ac aeth i'r ysgol yn Llundain. Etifeddodd Piercefield ger Cas-gwent pan oedd yn ei arddegau ar ôl marwolaeth ei dad, a oedd wedi'i brynu dair blynedd yn gynharach. Defnyddiodd ei gyfoeth enfawr i ddatblygu'r tŷ yn un o'r mynegiannau arloesol cyntaf o'r symudiad Darluniaidd. Hefyd, hyrwyddodd y gwaith o adeiladu tua 300 milltir o ffyrdd tyrpeg yn y rhanbarth a phrynodd ystâd ym Mrynbuga. Dychwelodd i'r Caribî a bu'n Llywodraethwr St Vincent 1772-9, lle collodd ei ffortiwn bersonol yn amddiffyn yr ynys rhag y Ffrancwyr. Ar ôl dychwelyd i Lundain, cafodd ei garcharu am ddyled a bu'n rhaid iddo ildio ei ystadau yn Antigua a gwerthu Piercefield.		Piercefield		Ivor Waters, 1964 https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146636527
Myddelton, Thomas	c.1550-1631	A	Y Waun Bryn Calch Meirionnydd	Un o sylfaenwyr a chyfranddallwyr yr East India Company ym 1600. Roedd gan y Cwmni fonopoli'r Goron am fasnach nid yn unig gydag India ond hefyd Gorllewin Affrica nes iddo drosglwyddo i'r Company of Royal Adventurers ym 1662. O 1621, roedd y cwmni'n symud caethweision o Ddwyrain a Gorllewin Affrica i'r mannau lle'r oedd angen llafur arno yn Affrica, India a thu hwnt. Myddelton oedd un o'r masnachwyr siwgr cyntaf. Buddsoddodd hefyd yn y Virginia Company ac mae'n ymddangos ei fod wedi buddsoddi mewn mordeithiau ar draws yr Iwerydd gan gynnwys o leiaf un a oedd yn cario caethweision o Affrica. Roedd Myddelton yn fab i lywodraethwr Castell Dinbych a phrynodd dir ar draws gogledd Cymru. Bu'n AS a daeth yn Arglwydd Faer Llundain. Prynodd Gastell y Waun ym 1593 ac arhosodd yn y teulu.		Castell y Waun		NDNB https://blogs.ucl.ac.uk/eicah/welshpool-gold-cup-case-study/the-welshpool-gold-cup-case-study-thomas-davies-and-west-africa/ https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1604-1629/member/myddelton-sir-thomas-i-1556-1631

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Nelson , Horatio	1758-1805	C	Cenedlaethol	Caiff y Llyngesydd Nelson ei ystyried fel y ffigwr mwyaf yn hanes y Llynges Frenhinol. Bu farw yn Trafalgar a daeth yn arwr cenedlaethol i Brydain. Yn gynharach yn ei yrfa fel swyddog y Llynges Frenhinol, cafodd y dasg o orchymyn llongau llyngesol a oedd yn amddiffyn llongau yn y fasnach drionglog i India'r Gorllewin ac yn ôl. Roedd ei wraig Frances Herbert Nisbet née Woolward (1761-1831) yn aelod o ddosbarth y planhigfawyr ar Nevis a gyfarfu â Nelson tra yng nghartref ei hewythr ym mhlanhigfa Montpelier. Mewn llythyr preifat ym 1805, ysgrifennodd Nelson: 'I ever have been and shall die a firm friend of our present colonial system I was bred as you know in the Good old school and taught to appreciate the value of our West India possessions, and neither in the field or the Senate shall their just rights be infringed whilst I have an arm to fight in their defence or a tongue to launch my voice against the damnable cruel doctrine of Wilberforce and his Hipocritical allies'. Fodd bynnag, ni wrthwynebodd ddiddymu'r fasnach gaethweision yn gyhoeddus a bu farw cyn i'r mesur ddod gerbron Senedd Lloegr i'w drafod. Cafodd ei goffáu'n helaeth ar ôl iddo farw gan enwau strydoedd a henebion ledled y DU, a'r enwocaf ohonynt yw Colofn Nelson yn Sgwâr Trafalgar, Llundain.	M B S		Topple the Racists	https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/17420 https://www.historyextra.com/period/georgian/lord-nelson-slavery-abolition-william-wilberforce-dark-side/
Nembhard , Ballard Jacques	1789 – 1822	B	Acrefair	Roedd Nembhard yn filwr yn ystod y Rhyfeloedd Napoleonaidd. Etifeddodd gyfran o ystadau yn Jamaica adeg marwolaeth ei dad ym 1821. Priododd â Jane Lloyd Jones o Blas Madog, Wrecsam, lle bu farw'n fuan ar ôl ei dad, yn 32 oed.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146638547

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Nott, William	1782-1845	E	Castell-nedd Y Bont-faen	Ganed Nott ger Castell-nedd, a phan oedd yn 16 oed, ymunodd â'r corfflu gwirfoddol yng Nghaerfyrddin lle'r oedd ei rieni'n cadw tafarn. Ymunodd â byddin y British East India Company ym 1800, a oedd yn defnyddio llafur caethweision tan 1843. Dringodd drwy'r rhengoedd i fod yn gadfridog. Enillodd fri yn ystod y rhyfel Eingl-Affganistanaid cyntaf a oedd yn ymgais i orfodi llywodraeth o blaid Prydain yn Affganistan. Ym 1842, llwyddodd i ddal y gaer yn ninas Kandahar yn erbyn gwrthryfel. Wrth i fyddin Prydain gilio, llwyddodd byddin Nott i gipio dinas Ghazni. Yna gorymdeithiodd ymlaen i Kabul i ymuno ag 'Army of Retribution' y Cadfridog George Pollock, a orchymynnwyd i achub gwystlon a dymchwel basâr hynafol Kabul ond a ddinistriodd lawer o'r ddinas cyn cilio'n ôl i'r India. Gwobrwywyd Nott gan ei urddo'n farchog. Gwadodd honiadau bod ei filwyr wedi cyflawni llofruddiaethau a threisio wrth adael Affganistan, gan alw'r rhain yn 'gross and villainous falsehoods' ac ysgrifennu 'never did an army march through a country with less marauding and less violence than that which I commanded in Afghanistan.' Ymddeolodd i Gaerfyrddin ym 1844 a dyfarnwyd blwydd-dal gan yr East India Company iddo ond bu farw y flwyddyn ganlynol. Fe'i claddwyd yn Eglwys San Pedr, Caerfyrddin.	M S		Ar Topple the Racists fel arweinydd milwrol yn India a Rhyfel Affganistan.	https://doi.org/10.1093/ref:odnb/20372 https://en.wikipedia.org/wiki/William_Nott
Oakeley, Edward	1796 - 1870	B	Yr Wyddgrug	Un o 13 o blant Syr Charles Oakeley, Llywodraethwr Madras ac ariannwr busnes masnachol dau fab arall yn India'r Gorllewin. Roedd Edward yn gyd-hawliwr am iawndal am ystadau. Bu'n byw yn Llundain a Burton-on-Trent ond roedd yn berchen ar lofa yng Nghoed Talon ger yr Wyddgrug.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/24078
Oakley, Thomas	1773 - 1861	B	Mons	Digolledwyd am 69 o gaethweision yn Jamaica. Ei gartref teuluol oedd Lydart House, Llanfihangel Troddi, Sir Fynwy, a dychwelodd o Jamaica i'r cartref hwn ym 1816. Arhosodd yno tan ei farwolaeth.		Lydart House		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/24305
Owen, Goronwy	1723-1769	B	Ynys Môn	Fe'i ganed yn Llanfair Mathafarn Eithaf a chafodd ei fagu yno yn Y Dafarn Goch. Roedd Owen yn uchel ei barch fel bardd Cymraeg. Dychwelodd fel y ficer lleol ond symudodd ymlaen i swyddi eraill ac allfudodd i America ym 1757. Cadwodd gaethweision yn ei gartref yn Williamsburg, Virginia.	B			https://en.wikipedia.org/wiki/Goronwy_Owen_(poet) http://antislavery.ac.uk/items/show/902

Owen, Robert	1771-1858	C	Drenewydd Rhyngwladol	Ganed Owen yn y Drenewydd ac mae'n fyd-enwog fel un o sylfaenwyr y mudiad cydweithredol, un o sylfaenwyr sosialaeth Prydain ac ymgyrchydd dros addysg ac amodau gwell i'r dosbarth gweithiol a dros leihau llafur plant. Aeth o gefndir tlawd yn y Drenewydd i fod yn rheolwr melin gotwm ym Manceinion, cyn cymryd yr awenau yn ffatri gotwm ei dad-yng-nghyfraith yn New Lanark yr Alban a'i rheoli o tua 1799 i 1825, lle datblygodd weledigaeth iwtopaidd o gymdeithas heb drosedd, tlodi na dioddefaint. Er ei fod yn edmygu William Wilberforce fel gelyn y fasnach gaethweision, ni wrthwynebodd parhad caethwasiaeth. Er nad oes tystiolaeth iddo ymgyrchu yn erbyn rhyddfrenio, mae'n rhaid ei fod yn ymwybodol o'i ddylanwad fel sylwebydd craff a deallus pan gyhoeddodd adroddiad am ei ymweliad â Jamaica ym 1829. Dywedodd fod amodau presennol y caethweision yn un o 'happiness and independence' dan law 'humane masters' gan awgrymu y byddai'r diddymwyr a'r cenhadon ond yn gwaethygu'r sefyllfa wrth eu hannog i adael eu 'present happy ignorant state'. Serch hynny, roedd yn cydnabod yr anochel y byddai addysg raddol y caethweision yn y tymor hwy yn cynyddu galwadau am eu rhyddid. Fel llawer o gynhyrchwyr cotwm yr oes, roedd ei felinau'n dibynnu ar gotwm a dyfwyd gan gaethweision yn ne'r Unol Daleithiau, y Caribî a Brasil, er bod ei dad-yng-nghyfraith David Dale wedi prynu cyfranddaliadau yn y Sierra Leone Company, a geisiodd sefydlu trefedigaeth o gaethweision rhydd. Wrth drafod y dosbarth gweithiol ym 1818 ysgrifennodd ei fod o'r farn bod 'the whole human race as men created originally with the same general faculties and qualities', ac ym 1828, canmolodd gamau diweddar Mecsico i ddiddymu caethwasiaeth fel 'worthy of general imitation'. Roedd cyfansoddiad ei anheddiad iwtopaidd Americanaidd, New Harmony, Indiana, (a grëwyd yn y 1820au, pan oedd caethwasiaeth yn dal mewn grym yn yr Unol Daleithiau), yn eithrio aelodaeth gan 'persons of colour', gan awgrymu y gallent gael eu derbyn fel cynorthwyyr yn lle hynny, neu eu galluogi i ymuno â chymunedau yn Affrica neu yn rhywle arall. Ond ym 1825, ysgrifennodd at y diddymwr William Allen gan ddweud 'our operations will soon extend to the blacks and the Indians'. Roedd ei fab, Robert Dale Owen (1801-1877), yn ymgyrchydd amlwg o blaid rhyddfrenio, a dylanwadodd ei ddau lyfr ar y pwnc ar Abraham Lincoln. Ddiwedd y 1820au, cafodd Robert Owen a'i fab eu penodi'n ymddiriedolwyr cymuned Nashoba (Tennessee) gan ei sylfaenydd Fanny Wright. Bwriad y gymuned integredig hon o ran hil, a ffurfiwyd ar seiliau Owenaidd, oedd bod 'in perpetual trust for the benefit of the Negro race'.	M B S			Michael Morris, 2018 https://www.academia.edu/37124983/The_Problem_of_Slavery_in_the_Age_of_Impovement_David_Dale_Robert_Owen_and_New_Lanark_Cotton
--------------	-----------	---	-----------------------	---	-------------	--	--	--

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Palmer, Henry	c.1780	B	Caeriw Aberdaugleddau	Fe'i digolledwyd gyda Michael Llewellyn am blanhigfa Carew Castle yn Jamaica. Roedd yn wreiddiol o Coachyland, Caeriw yn Sir Benfro ac fe'i cofnodwyd ym Myddin Jamaica erbyn 1808. Ar ôl dychwelyd, mae'n ymddangos ei fod wedi rhentu fferm yng Ngelliswick, Hubberston, Aberdaugleddau.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/18766
Palmer, John Rose	1785-1827	B	Caeriw Lawrenni	Bu farw Palmer yn Jamaica yn 42 oed. Roedd wedi etifeddu dwy blanhigfa â morgais arnynt ar ôl marwolaeth ei gefnder, yr Anrhydeddus John Palmer, ym 1818. Cafodd ei fedyddio yng Nghaeriw ac mae'n ymddangos iddo gael ei fagu yn Lawrenni.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146637407
Parker, Peter	1721-1811	B	Cenedlaethol	Ymunodd Parker â'r Llynges Frenhinol yn ifanc a dringodd drwy'r rhengoedd i safle Llyngesydd y Fflyd ac o 1777 ef oedd Pencadlywydd Jamaica Station. Roedd yn berchen ar blanhigfa yn Jamaica o tua 1765 tan ei farwolaeth.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146661273 https://en.wikipedia.org/wiki/Sir_Peter_Parker,_1st_Baro_net
Parris, Richard Neave	c.1875-1829	B	Caerdydd	Roedd Parris yn hanu o Nevis a daeth yn filwr ond roedd ganddo forgais ar blanhigfa hefyd. Priododd Fanny Henrietta Hollier yng Nghaerdydd ym 1804 a chawsant bedwar o blant yn y Rhath, yn Roath Villa yn fwyaf diweddar. Bu farw ei wraig yn Nevis ym 1817 ac ailbriododd yno a chael dau blentyn arall. Ymddengys eu bod wedi mynd i dlodi ac yn byw ar gardod.		Roath Villa neu Glwb Chwaraeon Mackintosh		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146643491
Parry, John	?-c.1795	B	Gresffordd	Ym 1789, prydlesodd John Parry o Gresffordd ystâd yn Jamaica gan y Parchedig George Warrington (m.1830) a'i wraig Mary. Ef oedd John Parry o Gresford Lodge o bosibl.		Gresford Lodge		https://discovery.nationalarchives.gov.uk/details/r/acb198a1-2476-4a60-a8e4-851a6d691de6
Paxton, William	c.1744-1824	A??	Llanarthne, Sir Gaerfyrddin Dinbych-y-pysgod	Cafodd Paxton ei eni yng Nghaeredin a'i fagu yn Llundain. Ar ôl mynd ar y llongau fel bachgen caban yn 12 oed, gwasanaethodd yn y llynges nes ei fod yn 20 oed. Aeth i India ac roedd yn forwr rhydd i'r East India Company, a gallai fod wedi mynd ar fordeithiau a oedd yn cludo caethweision o Affica i India, ond yna'n canolbwyntio ar fasnach fewndirol. Daeth yn feistr swyddfa brofion metelau gwerthfawr yn Bengal ac yn ddiweddarach Meistr y Bathdy yn Calcutta. Mae'n ymddangos ei fod wedi gwneud ei ffortiwn yn bennaf drwy sefydlu tŷ asiantaeth i reoli cyllid ar gyfer masnach o fewn India. Dychwelodd i Lundain tua 1786. Prynodd Ystâd Middleton Hall (safle'r Ardd Fotaneg Genedlaethol erbyn hyn) tua 1789. Adeiladodd blasty newydd a thyred ar ben bryn yn edrych i lawr arno fel cofeb i Nelson. Buddsoddodd hefyd yn natblygiad Dinbych-y-pysgod ac mewn ffyrdd a chamlesi yn Sir Gaerfyrddin. Bu'n AS Gaerfyrddin am gyfnod byr.		Tŵr Paxton Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol		https://blogs.ucl.ac.uk/eicah/middleton-hall-case-study/ http://kuiters.org/wqj/history/botgardpaxton.html http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1790-1820/member/paxton-sir-william-1744-1824

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Peel , Robert	1788-1850	E	Cenedlaethol	Tad y Prif Weinidog Syr Robert Peel oedd Syr Robert Peel AS (1750-1830), a wrthwynebodd ddileu caethwasiaeth ym 1794 a 1799, pan oedd Prif Weinidog y dyfodol yn blentyn. Oherwydd dryswch rhwng y ddau ddyn, cafodd y cerfluniau niferus o Peel o amgylch y DU eu nodi gan brotestwyr. Ers cydnabod y dryswch, mae Peel yn parhau i fod ar Topple the Racists am iddo elwa'n ariannol ar fusnes ei dad (a oedd yn defnyddio cotwm wedi'i fewnforio) ac ef oedd sylfaenydd yr heddlu modern. Mae Robert Taylor wedi dweud bod Peel yn rhan o wrthwynebiad seneddol i ryddfrenio, a bydd hynny'n cael sylw yn ei lyfr a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn hir.	S		Topple the Racists yn nodi cerfluniau yn Lloegr	https://www.theguardian.com/commentisfree/2020/jun/20/gladstone-wellington-peel-britain-pro-slavery-british-history-abolition?CMP=share_btn_tw https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-leicestershire-53005223
Pennant , Edward	1672-1736	B		Prif Ustus Jamaica a pherchennog planhigfa, a anwyd yn Jamaica, mab hynaf Gifford Pennant (m.1676). Roedd ganddo 610 o gaethweision pan fu farw. Mae'n debyg na ddaeth i Gymru erioed ond dychwelodd ei feibion John, Samuel a Henry i Brydain – John i Gymru.				
Pennant , Gifford	c.1630	B	Treffynnon, Bagillt	Aeth mab Henry Pennant o Dreffynnon a Bagillt i Jamaica fel milwr yn y 1650au. Roedd ganddo ystadau a 65 o gaethweision adeg ei farwolaeth ym 1676.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146663883
Pennant , John	c.1700-1782	B	Treffynnon? Gwynedd	Ganed yn Jamaica, yn fab ac etifedd i Edward Pennant (m.1736) a dychwelodd i Brydain pan fu farw ei dad. Bu'n byw yn Sgwâr Hanover, Llundain. Roedd yn berchen ar ystadau helaeth yn Jamaica ac roedd ei ewyllys yn cyfeirio at ystadau yng Nghymru. Ymhlith yr ystadau roedd wedi dechrau eu prynu oedd ystâd Penrhyn.		Ystâd Penrhyn		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146643725
Pennant , Richard (Barwn Penrhyn o Louth)	1737-1808	B	Bangor, Bethesda	Etifeddodd Pennant chwe ystâd siwgr yn Jamaica gan ei dad John (m. 1782). Bu'n Gadeirydd y West India Committee i wrthwynebu dileu caethwasiaeth ac ymgyrchodd fel AS. Trwy ei briodas i Anne Warburton parhaodd i gaffael ystadau ym Mhenrhyn ger Bangor fel roedd ei dad wedi dechrau ei wneud a phrynodd yr hanner arall ym 1785 gyda'i etifeddiaeth o Jamaica, lle datblygodd y chwareli llechi. Bu'n byw yn Neuadd Penrhyn, a ddaeth yn Gastell Penrhyn yn ddiweddarach ar ôl iddo gael ei etifeddu gan ei ail gefnder George Hay Dawkins-Pennant.		Neuadd / Castell Penrhyn Ystâd a chwareli Penrhyn Porth Penrhyn		https://www.nationaltrust.org.uk/cy_gb/penrhyn-castle/features/castell-penrhyn-ar-fasnach-gaethweision-draws-iwerydd https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146643723 https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146643723
Penrose , Charles	?-1848	B	Abertawe, Port Talbot Cuba	Peiriannydd a adawodd Gwaith Copr Cwmafan am fwyngloddiau La Consolidada yn Cuba a oedd yn cael eu gweithio gan gaethweision. Bu farw yno.				Chris Evans, 2010

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Philips, Thomas	c.1749	A??	Sir Gaerfyrddin	Yn fab i farcer o Benfro, teithiodd Philipps i India tua 1769 fel llawfeddyg gyda'r East India Company. Treuliodd 32 mlynedd yno, gan godi i fod yn Brif Lawfeddyg. Casglodd arian i ddychwelyd adref i Gymru a buddsoddi mewn tir. Erbyn 1800 roedd wedi buddsoddi £25,000 yng nghronfeydd yr East India Company. Nid yw'n glir a fu'n ymwneud â chaethwasiaeth. Prynodd ystâd Aberglasne ym 1803 a chyrhaeddodd adref ym 1807.		Aberglasne		https://blogs.ucl.ac.uk/eicah/aberglasney-case-study/
Phillips, Nathaniel	1733-1815	B	Slebech Arberth	Magwyd Phillips yn Llundain ac aeth i Jamaica ym 1759 lle datblygodd fuddiannau mewn pedair planhigfa siwgr a oedd yn cael eu gweithio gan 700 a mwy o gaethweision. Symudodd yn ôl i Lundain ym 1789. Ym 1793 prynodd Ystâd Slebech yn Sir Benfro. Yr oedd yn weithgar yn yr ymgyrch yn erbyn dileu'r fasnach mewn caethweision. Ar ôl ei farwolaeth etifeddwyd ystâd Slebech ac arian o'r planhigfeydd gan ei ferch Mary Dorothea a'i gŵr Barwn de Rutzen.		Parc Slebech		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/1330090056
Phillips, Thomas	c.1665-1713	A	Aberhonddu	Captan llongau cludo caethweision, a ysgrifennodd gofnod o'i ail fordaith drychinebus yn cludo caethweision, a ddechreuodd ym 1694 o Lundain i arfordir Guinea ac India'r Gorllewin ar yr <i>Hannibal</i> ar gyfer Jeffrey Jeffreys. Bu farw bron hanner yr Affricaniaid. Roedd Philips yn dod o deulu o Aberhonddu ond gadawodd i ymuno â'r llynges yn 14 oed.	S		Coflechen yn Aberhonddu yn destun dadl ers meitin	Chris Evans, 2010 https://en.wikipedia.org/wiki/Hannibal_(slave_ship)
Phillips, Thomas	1760-1851	B	Llanbedr Pont Steffan Llanymddyfri Llandeglaau	Ganwyd Phillips (weithiau gydag un l) yn Llundain ond roedd ei dad o Sir Faesyfed a threuliodd beth o'i ieuenctid yn Llandeglaau. Cafodd ei brentisio i apothecari yn y Gelli Gandryll, hyfforddodd fel llawfeddyg a chyflogwyd ef gan y Llynges Frenhinol a'r East India Company. Daeth yn gyfoethog trwy fasnachu yn India a phrynodd ystâd ar St Vincent tua 1817 pan ymddeolodd i Lundain. Ym 1821 prynodd 85 o gaethweision yn ychwaneg o ynys Garib'iaidd Carriacou. Cafodd iawndal am 167 o gaethweision ym 1836. Roedd yn byw yn Llundain ond yn gymwynaswr sylweddol i Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan (bellach Coleg y Drindod, Dewi Sant) a Choleg Llanymddyfri, gan roi iddynt lyfrau gwerthfawr yn ogystal ag arian a gwaddoli ysgoloriaethau. Roedd yn gefnogwr nodedig o addysg yn yr iaith Gymraeg. Mae penddelw ohono o waith John Evan Thomas yng Ngholeg Llanymddyfri.		TSD Llanbedr Pont Steffan Coleg Llanymddyfri		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/25786 ODNB John Morgan-Guy, 'A cultivated and well-stocked mind'. Thomas Phillips MRCS benefactor of St David's College Lampeter
Phillpotts, Thomas	1785 – 1862	B	Cas-gwent	Fe'i ganed yng Nghaerloyw ac aeth i Jamaica lle datblygodd nifer fawr o ystadau, gan hawlio iawndal amdanynt adeg rhyddfrenio caethweision. Fe'i cysylltwyd â llawer o gyfeiriadau gwahanol ar ôl dychwelyd i Brydain, yn Llundain, Caerfaddon a Swydd Gaerloyw yn bennaf, ond ym 1851 fe'i cofnodwyd yn 3 Mount Pleasant, Cas-gwent.		3 Mount Pleasant, Cas-gwent		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/14110

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Picton , Charlotte Maria (née Edwardes)	? - 1840	B	Sir Gaerfyrddin	Gweddwr Parchedig Edward Picton (1761-1835), hawliodd iawndal gydag ef ar gyfer y 98 o gaethweision yr etifeddodd ar Trinidad gan Thomas Picton (1758-1835). Arhosodd yn Iscoed tan ei marwolaeth.		Plasty Iscoed		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/27927
Picton , Edward	1761 – 1835	B	Rudbaxton Sir Gaerfyrddin Llansanffraid-ar-Elái Y Wig	Edward Picton oedd brawd iau ac etifedd Thomas Picton (1758-1835), ac etifeddodd ei blanhigfeydd a'i gaethweision ar Trinidad a'i blasty yn Iscoed. Cafodd ei ddigolledu am 98 o gaethweision adeg y rhyddfrenio. Fe'i magwyd yn Rudbaxton ac roedd yn ficer Llansanffraid-ar-Elái o 1798 tan ei farwolaeth.		Plasty Iscoed		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/447209048
Picton , Thomas	1758 – 1815	B	Rudbaxton Hwlfordd, Caerfyrddin, Glanyfferi, Rhyngwladol	O blith yr holl ffigyrau a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â chaethwasiaeth, Picton yw'r un sy'n cael ei goffáu fwyaf gan henebion ac enwau lleoedd yng Nghymru. Cafodd ei eni yn Hwlfordd a'i fagu yn Neuadd Poyston yn Rudbaxton. Fel Is-gadfridog Syr Thomas Picton, ef oedd y swyddog rheng uchaf i farw ym mrwydr Waterloo ac fe'i hystyriwyd yn arwr cenedlaethol, yn enwedig yn ei famwlad, Cymru. Fodd bynnag, roedd hefyd yn llywodraethwr milwrol Trinidad rhwng 1797 a 1803, lle'r oedd yn berchennog planhigfa a lle bu'n gyfrifol am anfadwaith ar draws y diriogaeth. Lluniodd god caethweision a oedd â'r nod o reoli'r boblogaeth o gaethweision drwy arteithio a dienyddio caethweision i wneud esiampol ohonynt, gyda'r dulliau'n cynnwys llosgi'n fyw a darnio cyrff. Arweiniodd hyn at 36 o gyhuaddiadau yn erbyn Picton, yn cynnwys arthai, carcharu ar gam a dienyddio heb achos llys. Cafodd ei arestio ar ôl iddo ddychwelyd i Lundain, a'i ryddhau ar fechnïaeth o £40,000, ac ym 1806 aeth o flaen ei well am un cyhuaddiad, sef caniatáu arthai farnwrol yn erbyn gordderch 14 oed, Louisa Calderón, nad oedd yn gaethwas. Roedd y cyhoeddusrwydd enfawr a roddwyd i'r achos, drwy ddatgelu'r anfadwaith yn nhiriogaethau caethweision yn y Caribî mewn pamffledi, printiau ac adroddiadau papur newydd, yn ddylanwadol iawn yn y frwydr i ddileu'r fasnach mewn caethweision. Cafodd collfarn Picton ei wrthdroi mewn ail achos llys ym 1808, ar fanylyn technegol y gyfraith yn hytrach na'i fod wedi cael ei ddyfarnu'n ddieuog. Bu'n gadfridog yn ystod Rhyfel Iberia. Daeth yn AS Sir Benfro ym 1813 ac ymgartrefodd yn Iscoed, ei blasty anorffenedig yng Nglangyfferi yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, cafodd ei adalw ar ôl i Napoleon ddianc o Elba ac fe'i lladdwyd ar faes y gad yn Waterloo. Fe'i cofiwyd am ei farwolaeth arwrol yn hytrach na'i droseddau a rhoddwyd beddrod cofebol iddo yn eglwys gadeiriol St Paul. Mae strydoedd yn Trinidad wedi'u henwi ar ei ôl o hyd ac mae trefi o'r enw Picton yng Nghanada, Awstralia a Seland Newydd.	M B S	Iscoed Neuadd Poyston	Mae coffáu Picton wedi bod yn destun pryder i lawer o bobl ers sawl blwyddyn – gweler y gwefannau.	https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146654149 Chris Evans, 2010 https://en.wikipedia.org/wiki/Thomas_Picton https://qwallter.com/art/the-memory-of-sir-thomas-picton.html

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Price, Walter	c.1791-1848	B	Llanymddyfri	Dyfarnwyd ychydig o iawndal iddo am gaethweision yn Guiana Brydeinig, ac roedd wedi dal swyddi ym Moroco a Demerara. Roedd yn byw ym Mwlich Tre Bannau yn Sir Gaerfyrddin ac fe'i claddwyd yng Nghil-y-cwm.		Bwlch Tre Bannau		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/203
Priest, Richard	?-1769	A	Caerdydd	Fe'i magwyd yng Nghaerdydd a daeth yn gapten ar fordeithiau o Fryste i gasglu caethweision yn Guinea, a dywedwyd ei fod wedi marw ar ei drydedd fordaith. Mae'n ymddangos yn y gronfa ddata slavevoyages ym 1765 ar long Brothers i Sierra Leone, a oedd yn cario 226 o gaethweision i Antigua. Fe'i henwir yn Priest Jr gyda Priest fel y perchennog. Yng nghofnodion Bryste, nodir bod y Brothers yn dod o Gaerdydd ac yn eiddo i Richard Priest & Co.				Dyddiadur William Thomas Richardson, BRS
Protheroe, Edward	1774-1856	B	Castell-nedd, Lundain, Gloucestershire	Roedd Protheroe yn fab i Philip Protheroe ac yn gynbartner yn Protheroes a Claxton. Roedd yn fasnachwr a banciwr yng Ngorllewin India, a chafodd iawndal am ryddfrenio ystadau yn Jamaica, St Vincent a Trinidad. Fel AS Chwigaid 1812-1820 cefnogodd Wilberforce mewn gweithredoedd yn gysylltiedig â'r fasnach gaethweision dramor ond hefyd cefnogodd fasnachwyr Bristol West India yn erbyn cofrestru caethweision ym 1816. Cafodd £20,000 yn ewyllys ei dad ac aeth ati i fuddsoddi mewn pyllau glo, tramffyrdd a gwaith haearn yn Fforest y Ddena a Chwm Nedd, lle cafodd hawliau cloddio oddeutu 1819 ym Mhwllfaron, Derlwyn Mawr, Blaengwrach a Chwmgwrach ac adeiladodd gamlas leol breifat. Roedd ganddo gartrefi yn Llundain, Swydd Gaerloyw a Brighton.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/27337 http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1790-1820/member/protheroe-edward-1774-1856 Gwybodaeth o Steven Carter
Protheroe, George	1786-1860	B	Dinbych-y-pysgod	Roedd Protheroe yn bartner mewn ystadau yn Jamaica a dyfarnwyd iawndal iddo adeg y rhyddfrenio. Bu'n siryf Bryste ym 1830 ond erbyn cyfrifiad 1841 roedd yn byw yn Norton, Dinbych-y-pysgod, lle bu farw ym 1860. Gadawodd lai na £600. Roedd yn gefnder i Philip Protheroe yr ieuaf o Fryste ac roedd ganddo gysylltiadau teuluol yn Sir Benfro.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/43582

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Protheroe, Philip	?-1763	A	Hwlfordd	Un o ardal Hwlfordd yn wreiddiol oedd Philip Protheroe. Bu'n gapten ar chwe mordaith gaethweision yn y 1730au a threfnodd chwe arall yn y 1740au-50au, gan gludo tua 4,000 o bobl i India'r Gorllewin ac America. Roedd ganddo gysylltiadau busnes â Richard Meyler, gynt o Hwlfordd.				Gwybodaeth o Steven Carter Cronfa ddata Slavevoyages
Protheroe, Philip yr hynaf	1747- 1803	A	Sir Gaerfyrddin Sir Benfro	Ymunodd Philip Protheroe yr hynaf ag elit masnach Bryste diolch i gyfoeth a chysylltiadau busnes ei ewythr, y Capten Philip Protheroe, a ddeilliodd o'r fasnach gaethwasiaeth. Daeth yn un o fasnachwyr siwgr pennaf Prydain, a buddsoddodd mewn o leiaf un fordaith gaethweision gyda'r capten William Llewellyn a allai fod wedi hanu o'i ardal. Roedd ganddo ystâd yn India'r Gorllewin ac roedd yn amddiffyn buddiannau West India. Prynodd dir yn 'siroedd ei gyndeidiau' sef Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Maenor ac Arglwyddiaeth Llandeilo Abercywyn, a adawodd i'w feibion Edward, Syr Henry, Philip a Lewis. Yn ei ewyllys, roedd ei gymynroddion arian parod yn unig yn werth £112,000.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146649875
Reece, Sarah Ann	c.1820 - c.1880	B	Caerdydd	Etifeddodd elw o werthu caethweision ar St Vincent gyda'i brawd Charles Edward Bernard (1815-1866). Roedd yn byw yn Elgin Cottage, Caerdydd.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/27657

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Rhodes, Cecil	1853-1902	D	Rhyngwladol	Rhodes yw un o'r ffigurau mwyaf dadleuol sy'n gysylltiedig â gwladychu Affrica gan Brydain, ac mae wedi cael ei gyhuddo o gredu yng ngoruchafiaeth pobl wyn ac o fod yn imperialydd ac anturiaethwr diegwyddor. Nid oedd ganddo gysylltiad â Chymru ond cafodd ei goffáu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol. Gadawodd ei ffortiwn enfawr i achosion addysgol yn bennaf. Credai mai'r Eingl-Sacsoniaid oedd yr hil gyntaf yn y byd a pho fwyaf o rannau o'r byd y byddent yn byw, gorau oll i ddynolryw: safbwyntiau a oedd yn gyffredin yn Lloegr yn Oes Fictoria a'i Hymerodraeth. Roedd yn uchel iawn ei barch ymysg ei gyfoedion ond daw'r ODNB i'r casgliad: 'Later biographers and historians who have not shared his imperialism have been more critical of his methods. They have shown how, for most of the peoples of southern Africa, his ventures hastened the pace of colonialism, capitalist development, and political reconstruction and were accompanied by brutal conquest, ruthless exploitation, sharp business practice, and the insidious corruption of public life. Nevertheless, in his lifetime Rhodes's use of power was often tempered by his ability to engage imaginatively with those who were subject to his control and to bestow largess upon them, whether fellow mining magnates, Cape Afrikaners, or even, on occasion, African notables and their subjects.'	S		Ffigwr dadleuol iawn yn Ne Affrica a Rhydychen	ODNB
Richards, Anne (Hannah) (yna Rollings; née Haworth)	c.1780 -1844	B	Llaneirwg Caerdydd	Priododd yn Jamaica â David Richards (m.1823), yn wreiddiol o Lanedeyrn ger Caerdydd. Ar ôl ei farwolaeth priododd George Rollings o Henffordd ac arhosodd yn Neuadd Llanrhymni lle hawliodd iawndal o bron £20 am ystâd yn Jamaica.		Neuadd Llanrhymni		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/16174
Richards, David	?-1823	B	Llaneirwg Caerdydd	Roedd Richards yn gyfreithiwr yn Jamaica, yn wreiddiol o Lanedeyrn ger Caerdydd. Gwnaeth ei ffortiwn yn India'r Gorllewin ac ymddeolodd i Neuadd Llanrhymni ac fe'i claddwyd yn Llaneirwg. Hawliodd ei weddw Anne (m.1844) iawndal o bron £20 ar ystâd yn Jamaica.		Neuadd Llanrhymni		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146637298
Riley, Samuel	?-1823	B	Sir Ddinbych	Roedd Riley yn berchennog planhigfa yn Jamaica a brynodd Neuadd Marchwail ym 1801. Roedd yn dal i fod yn berchen ar ei ystadau a chaethweision adeg ei farwolaeth. Gadawodd nhw i Thomas Parker o Swydd Gaer.		Neuadd Marchwail		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146634328

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Roberts, Bartholomew (Barti Ddu)	1682-1722	A	Casnewydd Bach (Sir Benfro)	Newidiodd Roberts ei enw o John i Bartholomew, a daeth i gael ei adnabod yn ddiweddarach mewn chwedloniaeth fel Barti Ddu neu Black Bart. Roedd yn dod o Gasnewydd Bach ac yn ail is-gapten ar long yn cludo caethweision. Pan gafodd ei chipio gan fôr-ladron, ymunodd â nhw a daeth yn un o gapteiniaid môr-ladron mwyaf enwog a llwyddiannus y cyfnod. Roedd ei griw yn cynnwys llawer o forwyr Du o dan y Cod Môr-ladron a sefydlodd Roberts. Mae rym gwymon yn cael ei wneud heddiw o'r enw Bartirum.	M			https://en.wikipedia.org/wiki/Bartholomew_Roberts
Roberts, John	c.1723-1763	A	Y Bont-faen	Roedd yn cael ei adnabod fel Doctor Roberts o'r Bont-faen, a bu farw yn St Kitts ym 1763 tua deugain oed. Roedd wedi gwneud tua thair ar ddeg o fordeithiau i Guinea.				John Evans, 2004
Rodney, George Brydges	1719-1792	C	Cenedlaethol	Rodney oedd un o'r Llyngesyddion mwyaf talentog yn y Llynges Frenhinol o'i genhedlaeth. Roedd yn dod o deulu cefnog a gollodd ei arian yn y South Sea Bubble, ac awgrymwyd bod hyn wedi'i wneud yn benderfynol o wneud arian, yn bennaf drwy gipio llongau tramor. Fodd bynnag, collodd lawer iawn o arian drwy gamblo a'i swydd ddi-dâl fel AS am lawer o'r cyfnod 1751-82. Ymhlith ei fuddugoliaethau niferus oedd Brwydr y Seintiau oddi ar St Domingo ym 1782, a gadwodd Jamaica ym meddiant Prydain. Cynigiodd Charles James Fox air o ddiolch yn Nhŷ'r Cyffredin am 'the most brilliant victory that this country had seen this century' (er bod rôl bersonol Rodney wedi'i gwrth-ddweud yn ddiweddarach). Diolch i weithredoedd o'r fath roedd ei enw'n gyfystyr â thrachwant ac arwr cenedlaethol. Yn bersonol, hyrwyddodd John Perkins i fod y prif swyddog Du cyntaf yn y Llynges Frenhinol a phan wrthodwyd y dyrchafiad yn ddiweddarach ysgrifennodd at y Morlys i gefnogi Perkins, gan ddweud bod ganddo gymeriad heb ei ail a'i fod wedi rhoi gwasanaeth rhagorol. Gwnaed Rodney yn arglwydd ym 1782 ac fe'i coffawyd yn eang ym Mhrydain a'i threfedigaethau. Siaradodd yn erbyn dileu'r fasnach mewn caethweision yn Nhŷ'r Arglwyddi a phan roddodd dystiolaeth ym 1788 i'r pwyllgor dethol a benodwyd i archwilio'r fasnach mewn caethweision, dywedodd nad oedd wedi gweld unrhyw dystiolaeth i Affricaniaid gael eu trin yn farbaraid yn ystod ei flynyddoedd lawer yn India'r Gorllewin. Bu farw yn yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'honourable poverty'.	M B S			ODNB https://www.philipkallan.com/single-post/2019/04/01/Admiral-Rodney https://en.wikipedia.org/wiki/John_Perkins_(Royal_Navy_officer)
Rogers, James	?-1799	A	Hwlfordd	Un o fasnachwyr caethweision mwyaf blaenllaw Bryste a fu gynt yn bartner mewn busnes yswiriant morol yn Hwlfordd. Daeth yn Rhyddfrefniwr Bryste ym 1774. Aeth ei fusnes i'r wal ym 1793 a dywedwyd bod ganddo ddyledion o £100,000, swm anferthol.				Richardson, Bristol Records Society

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Rowland , Edward	? – 1815	B	Rhiwabon	Roedd Rowland yn feistr haearn a pherchennog pyllau glo yn Rhiwabon. Bu'n byw yn Garthen Lodge. Roedd ei frawd, Gabriel Rowland, yn berchen ar blanhigfa goffi yn Port Royal a gadawodd ei ystâd i ferched priod Edward, Ann Campbell a Mary Frase, a oedd ill dwy yn byw yng Nghaerwysg. Gadawyd blwydd-dal bach o £30 y flwyddyn i Edward.		Garthen Lodge Plas Bennion		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146651873
Rowland , Jane	?- c.1840	B	Yr Wyddgrug, Sir y Fflint	Gwedd Edward Rowland (m.1815) yn ôl pob tebyg, hawliodd iawndal am ystâd yn Jamaica yn ymwneud â'i brawd-yng-nghyfraith diweddar.		Garthen Lodge		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146630509
Sandbach , Henry Robertson	1807 – 1895	B	Sir Ddinbych	Dyfarnwyd iawndal sylweddol iawn i Sandbach am gaethweision yn British Guiana ar ôl cymryd cyfrifoldeb dros fuddiannau ei dad ym mhartneriaeth Sandbach Tinne ym 1833. Bu'n byw yn Lerpwl ond yn y 1860au adeiladodd Hafodunos ar ystâd ei dad yn Sir Ddinbych, lle bu farw ym 1895.		Neuadd Hafodunos		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/8821
Sandbach , Samuel	1769- 1851	B	Sir Ddinbych	Masnachwr o Lerpwl a aeth i Grenada a Demerara tua 1789. Roedd yn bartner yn Sandbach Tinne a gwnaeth hawliadau sylweddol adeg y rhyddfrenio. Ymddeolodd ym 1833 ar ôl prynu ystâd Hafodunos ond bu farw yn Lerpwl. Bu'n Uchel Siryf Sir Ddinbych ym 1839.		Hafodunos		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/8083
Scott , George Henry Cussans	1811- 1887	B	Rhoscrowdder (Sir Benfro)	Ymddengys fod Scott wedi bod yn fuddiolwr rhywfaint o iawndal adeg rhyddfrenio caethweision am blanhigfa yn Jamaica. Cafodd ei fagu yn Llundain. Roedd yn ficer, yn gyntaf yn Sussex ac yna o 1850 tan ei farwolaeth yn Rhoscrowdder, Sir Benfro.		Rheithordy Rhoscrowdd er		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/1111970578

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Shand, Frances Batty	1815-1885	B	Caerdydd	Ganed yn Jamaica fel un o ddeg o blant i'r perchennog planhigfa John Shand (1759-1825) a'i wraig cadw tŷ Frances Brown, menyw groenliw rydd. Dychwelodd ei thad i'r Alban gyda swm mawr o arian a ail-fuddsoddodd mewn tir yno tua 1816 a bu farw pan oedd hi'n 10 oed; arhosodd ei mam yn Jamaica. Bu'n byw gyda'i modryb yn yr Alban ac yna o 1857 gyda'i brawd di-briod John Shand, ysgrifennydd cwmni rheilffordd, yng Nghaerdydd. Ymunodd ei chwaer Milborough â nhw maes o law. Yng nghyfrifiad 1861 roedd hi'n byw ym Mhlas y Parc, Caerdydd; ym 1871 roedd hi yn 13 Plas Windsor. Yn ddiweddarach symudodd yn ôl i'r Alban ac yna i'r Swistir, lle bu farw ym 1885. Fe'i claddwyd yng Nghaerdydd. Gadawodd ei thad £5,000 i bob un o'i blant 'honedig'. Nid yw'n glir a oedd gan yr un ohonynt unrhyw fuddsoddiadau o hyd yn Jamaica ac er iddi hi adael bron i £12,000, gadawodd ei brawd a'i chwaer a oedd hefyd yng Nghaerdydd lawer llai. Gyda'i brawd sefydlodd Sefydliad y Deillion Caerdydd ym 1865 i roi gwaith cyflogedig i bobl dlawd a gweithiodd yno nes marwolaeth ei brawd ym 1877 a gadwodd arian ar gyfer y sefydliad yn ei hewyllys. Aeth y rhan fwyaf o'i hystâd i Ysbyty Morgannwg a Sir Fynwy i gynnal ward plant er cof am ei brawd (nid yw'n ymddangos bod yr enw wedi'i drosglwyddo i ysbyty olynol). Enwyd adeilad y CIB ym 1951 ar Heol Casnewydd yn Shand House ac mae'n llety myfyrwyr ar hyn o bryd.	B	Plas y Parc, Caerdydd 13 Plas Windsor, Caerdydd		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146642845 https://sightlife.wales/about-us/history/ https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/woman-who-gave-name-prominent-15370142 https://en.wikipedia.org/wiki/Frances_Batty_Shand https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146642837
Shand, John Batty	c.1804-1877	B	Caerdydd	Roedd John Batty Shand yn un o ddeg o blant i'r perchennog planhigfa John Shand (1759-1825) a'i wraig cadw tŷ Frances Brown, menyw groenliw rydd. (Gweler Frances Batty Shand am ragor o wybodaeth.) Cafodd ei eni yn Jamaica ond bu'n byw yn Glasgow ac yna symudodd i Blas y Parc, Caerdydd, lle bu'n Ysgrifennydd Rheilffordd Rhymni. Ym 1871 roedd yn byw yn 13 Plas Windsor, Caerdydd, gyda'i chwiorydd Milborough a Frances. Gadawodd eu tad £5,000 i bob un o'i blant 'honedig'. Nid yw'n glir a oedd gan unrhyw un ohonynt unrhyw fuddsoddiadau o hyd yn Jamaica ond bu farw John yng Nghaerdydd gydag ystâd o lai na £2,000. Gyda'i chwaer Frances sefydlodd yr hyn a ddaeth yn Sefydliad y Deillion Caerdydd ym 1865.	B	Plas y Parc, Caerdydd 13 Plas Windsor, Caerdydd		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146642837

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Shand , Milborough Batty	1802-1875	B	Caerdydd	Ganed Milborough Batty Shand yn un o ddeg o blant i'r perchennog planhigfa John Shand (1759-1825) a'i wraig cadw tŷ Frances Brown, menyw groenliw rydd. (Gweler Frances Batty Shand am ragor o wybodaeth.) Symudodd i'r Alban a phiodi John Sandiman, llawfeddyg yn Brechin, ym 1826. Erbyn 1871 roedd hi'n weddw ac yn byw gyda'i brawd John a'i chwaer Frances yn 13 Plas Windsor, Caerdydd. Bu farw yn Leamington ym 1875. Nid yw'n glir a oedd ganddi unrhyw fuddsoddiadau parhaus yn Jamaica ond gadawodd ystâd o lai na £1,000.		13 Plas Windsor, Caerdydd		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146642837
Shickle , Ann	c.1770	B	Talacharn	Gwedd John Shickle, y bu'n byw gydag ef yn Nhalacharn yn y 1820au, hawliodd iawndal am ystadau yn Jamaica. Bu farw yn Nhalacharn.		Springwell Villa, Talacharn		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/1302686494
Shickle , John	1767-1828	B	Talacharn	Fe'i ganed yn Jamaica ac roedd yn berchennog ystadau yno. Ym 1800 roedd yn byw yn Swydd Hertford ond yn ddiweddarach bu'n byw yn Springwell Villa yn Nhalacharn, a roddodd ar werth ym 1821, yna hysbysebodd ei eiddo personol i'w werthu yno ym mis Mawrth 1828 gan ddweud ei fod yn gadael am Loegr, a bu farw yn Brixton ym mis Hydref. Mae'n ymddangos bod ei weddw Ann wedi dychwelyd i Dalacharn.		Springwell Villa, Talacharn		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146633556 Cambrian, 13 Hyd 1821, 7 Maw 1828, 1 Tach 1828
Smith , Milborough Daniel (née Tabois)	1795-c.1857	B	Abertawe	Derbyniodd Smith iawndal am gaethweision yn Jamaica fel ysgutor i'w gŵr. Cafodd ei geni yn Jamaica lle'r oedd ei thad yn blanhigfawr. Roedd hi'n byw yn 4 Adelaide Place yn Abertawe fel gwraig weddw gyda'i merched a dau letywr yn ôl cyfrifiad 1841 ond erbyn 1851 roedd hi ym Mryste. Roedd ganddi fondiau yn Ymddiriedolaeth Harbwr Abertawe.		4 Adelaide Place, Abertawe		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/22013
Smyth , Francis George yr ieuaf	1770 - 1839	B	Maenclochog	Ganed Smyth yn Jamaica lle'r oedd ei dad yn berchen ar blanhigfeydd, ac fe etifeddodd y planhigfeydd hynny. Ym 1824 cyhoeddodd bamffled yn erbyn rhyddfrefinio caethweision <i>An Apology for West Indians and Reflections on the Policy of Great Britain's Interference in the Internal Concerns of the West India Colonies</i> . Roedd yn byw yn Swydd Gaerloyw yn bennaf. Ym 1814 cyfeiriwyd ato fel gynt o Temple Druid, Maenclochog, Sir Benfro. Roedd yn gysylltiedig â'r teulu Leach o Colston gerllaw.		Temple Druid		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/644886395
Somerset , Henry Charles (Marcwis Caerwrangon, 6 ^{ed} Dug Beaufort)	1766-1835	C	Cenedlaethol	Ef oedd AS Trefynwy 1788-90 a daliodd seddi yn Lloegr tan 1803 pan ddaeth yn Ddug Beaufort ar ôl marwolaeth ei dad. Pleidleisiodd yn erbyn dileu'r fasnach mewn caethweision ym 1796. Roedd gan y teulu dirddaliadau mawr yn Sir Fynwy a Sir Frycheiniog a ddaeth ag elw diwydiannol sylweddol iddynt gyda thwf y diwydiant haearn.	S			https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1790-1820/member/somerset-henry-charles-1766-1835

<i>Enw</i>	<i>Dyddia dau</i>	<i>Pam</i>	<i>Ardaloedd cysylltiedig</i>	<i>Trafodaeth</i>	<i>Gweler y tablau</i>	<i>Safleoedd eraill</i>	<i>Dadleuon hyd yma</i>	<i>Ffynonellau</i>
Spencer, Thomas	c. 1660	B	Sain Tathan, Dwyrain Aberthaw	Roedd y teulu Spencer o Sain Tathan yn masnachu mewn tybaco a siwgr rhwng Dwyrain Aberthaw a St Kitts o'r 1630au i'r 1660au. Credir bod Thomas Spencer, pennaeth y teulu, yn berchennog planhigfa fach yn y Caribî hefyd. Mae'r cyfenw Spencer yn gysylltiedig ag o leiaf un caethwas a aned ar blanhigfa ar yr ynys. Mae nodwr bedd treuliedig yn festri eglwys y plwyf. Chwalwyd cartref y teulu i'r llawr er mwyn gwneud lle ar gyfer gorsaf bŵer Aberddawan.				Gohebiaeth gyda John Banks

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Stanley, Henry Morton	1841-1904	D	Dinbych, Llanelwy	Newyddiadurwr dadleuol a fforiwr byd-enwog a oedd yn ffigwr allweddol yn y 'scramble for Africa' yn y 1870au a'r 1880au ac fe'i coffawyd yn eang iawn. Cafodd ei eni'n blentyn siawns fel John Rowlands yn Ninbych, cafodd ei adael yn blentyn bach a chafodd ei fagu yn y wyrchwys yn Llanelwy. Gadawodd am America yn 17 oed a dechrau ei fywyd o'r newydd fel newyddiadurwr o dan enw newydd. Cynhaliodd gyfres o deithiau llethol yn Affrica. Aeth i chwilio am David Livingstone yn Tanzania am y tro cyntaf ym 1871. Ym 1874 dechreuodd daith ar draws Affrica i goedwig drwchus lle yr ymladdodd frwydrau niferus yn erbyn y brodorion a'u cosbi'n dreisgar ('violent chastisement') yn ei eiriau ef. Cafodd ei feirniadu am hynny yn y wasg Brydeinig. Cynorthwyodd Leopold II o Wlad Belg i sefydlu Gwladwriaeth Rydd Congo drwy adeiladu ffyrdd a chanolfannau masnachu a fyddai'n galluogi ymelwa ar y rhanbarth ond gadawodd cyn i'r erchyllterau sy'n gysylltiedig â rheolaeth Gwlad Belg ddechrau. Ar ei daith fawr ddiwethaf, o 1886 i 1890, aeth yr ôl-fyddin yr oedd wedi'i gadael ar ôl yn wallgof ac yn filain, gan gyflawni troseddau dychrynlyd a fyddai'n parhau ei enw da maes o law. Amlygodd ac ymosododd ar y fasnach barhaus mewn caethweision rhwng gwledydd Arabaidd a Dwyrain Affrica ac eto fe'i cyhuddwyd ef ei hun o ddefnyddio caethweision fel porthorion, ac yn y Swdan, o agor llwybrau newydd ar gyfer masnachwyr caethweision i bob pwrpas. Ymchwiliwyd i gyhuddiadau o greulondeb gan bwyllgor Seneddol ac eraill ond goroesodd ei enw da yn ystod ei oes a chafodd ei urddo ym 1899. Mae rhai yn Zaire heddiw yn ystyried Stanley yn ffigwr cadarnhaol wedi'i ddatgysylltu o ddigwyddiadau diweddarach ac mae ei fywgraffydd diweddaraf, Tim Jeal, wedi dod i'r casgliad bod cyhuddiadau hanesyddol yn erbyn Stanley yn rhagfarnlyd ac yn ddi-sail ond mae bywgraffwyr eraill wedi eu hategu. Mae Nobert Mbu-Mputu wedi cyfrannu yn 2020: 'there is no evidence that "he had little respect for the natives of Africa". The historical evidence and facts show the opposite.' Fodd bynnag, ysgrifennodd yr Athro Georges Nzongola-Ntalaja o Brifysgol Gogledd Carolina yn 2010 fod Stanley wedi 'committed heinous crimes against humanity in my homeland, the Congo'. Mae hanes ei fywyd yn destun cryn ddadlau o hyd.	M S		Topple the Racists; llawer o ddadlau lleol. Yn Ninbych yn 2010 llofnododd dros 50 o bobl lythyr yn gwrthwynebu cerflun, a drefnwyd gan Selwyn Williams o Brifysgol Bangor. Yn 2011 ar ôl ei osod yn Llanelwy llofnododd 160 o drigolion ddeiseb i gael gwared ar y polyn totem.	ODNB https://www.smithsonianmag.com/history/henry-morton-stanleys-unbreakable-will-99405/ https://www.iwa.wales/agenda/2010/06/henry-morton-stanley-hero-or-villain/?lang=cy https://en.wikipedia.org/wiki/Henry_Morton_Stanley Datganiad gan Tim Jeal am y ddadl am y cerflun, Mehefin 2020 Llythyr gan Norbert Mbu-Mputu 2020 Gohebiaeth o Howard Hughes, Wanda Zyboriska

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Stapleton, Catherine	1734-1815	B	Dim yng Nghymru	Perchennog planhigfeydd ar Nevis a St Kitts o 1776 tan ei marwolaeth. Ym 1776 prynodd fuddiannau Syr Robert Cotton a Watkin Williams yng nghwmni Stapletons [a elwir hefyd yn Fountains]. Hi oedd yn bennaf cyfrifol am weinyddu buddiannau'r teulu mewn planhigfeydd. Roedd hi'n byw yn Swydd Gaer a Gwlad yr Haf.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146647791 https://archiveshub.jisc.ac.uk/search/archives/00c75886-91cc-30dd-8830-56f16c43ca64
Stapleton, James Russell	1699-1743	B	Bodrhyddan	Caffaelodd ystâd yng Nghymru drwy briodi Penelope Conway o Bodrhyddan, Sir y Fflint, ym 1731, ac etifeddodd incwm o blanhigfeydd yn St Kitts gan ei dad-cu Syr William Stapleton (m.1686). Rhannodd ei ystâd yn gyfartal rhwng ei bum merch. Priododd ei ferch Penelope ag Ellis Yonge (1717-1785) o Fryn Iorcyn yn Sir y Fflint.		Bryn Iorcyn		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146647787 https://archiveshub.jisc.ac.uk/search/archives/00c75886-91cc-30dd-8830-56f16c43ca64
Stewart, James Law	1787 – 1869	B	Dinbych-y-pysgod	Fe'i digolledwyd adeg rhyddfrenio am gaethweision yn Jamaica. Bu'n byw yn Cheltenham tan 1843 ond treuliodd ei flynyddoedd olaf yn Ninbych-y-pysgod.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/22434
Strudwick, Henry	?-1760	B	Swydd Amwythig ond efallai fod ganddo dir yng Nghymru	Adeiladodd Henry Strudwick (neu Strudwicke) ystâd Pantrepant yn Jamaica 1740-60 a'i henwi ar ôl ei gartref teuluol ger Croesoswallt ym Mhentre Pant yn Swydd Amwythig. Ym 1754 cofnodwyd ei fod yn berchen ar bron i 2000 erw mewn tri phlwyf yn Jamaica. Gadawodd eiddo mewn ymddiriedolaeth i'w ddau blentyn hil cymysg a'u mam ond y gweddill i'w wraig a'i ferch Mary Warrington. Aeth yn fethdalwr.				
Swymmer, Anthony Langley	c.1724 -1760	B	Yr Wyddgrug	Ganed Swymmer yn Jamaica i deulu o fasnachwyr o Fryste. Mae cyfenw'r teulu'n ymddangos ar sawl mordaith yn cludo caethweision 1728-1852. Roedd yn berchen ar ystadau mawr yn Jamaica. Bu'n AS Southampton ac roedd ganddo gyfeiriadau yng Nghaer-wynt a'r Wyddgrug ond bu farw yn Jamaica yn 36 oed. Gadawodd ei ystadau i'w nai Syr Thomas Champneys. Nid oes sicrwydd am ei ystâd yn yr Wyddgrug ond mae Neuadd Argoed yn bosiblwydd.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146651303 http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1715-1754/member/swymmer-anthony-langley-1724-60
Teulu Tarleton		A	Sir y Fflint	Roedd y teulu Tarleton ymhlith y teuluoedd cyfoethocaf o fasnachwyr caethweision yn Lerpwl. Priododd Uwchgapten Henry Tarleton (1788-1829) â merch o deulu Fletcher o Wernheulod, Sir y Fflint ym 1828 yn Owrtyn. Bu farw yn fuan wedyn ac fe'i claddwyd ym Malpas yn Swydd Gaer. Roedd yr enw Tarleton yn gysylltiedig am gyfnod byr â Penley Hall, Sir y Fflint, a adeiladwyd tua 1800 ac a ddinistriwyd gan dân ym 1935. Mae'r Archifau Cenedlaethol yn cynnwys papurau sy'n ymwneud â gwaddolion o ystâd Cynol Henry Tarleton o Lannerch Banna, Sir y Fflint, 1871-2.				https://historicengland.org.uk/content/docs/research/stretnames-pdf/

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Thomas, Rees Goring	1801-1863	B	Llanelli Glanyfferi	Hawliodd Thomas iawndal adeg rhyddfrenio caethweision am eiddo yn Jamaica fel partner yn Sir James Edsdail and Company. Roedd yn dod o deulu â thir o amgylch Llanelli ac fe'i ganed yn Llannon, Sir Gaerfyrddin. Tuag at ddiwedd ei oes roedd yn byw yn Iscoed, Sir Gaerfyrddin.	S	Iscoed		https://www.llanellich.org.uk/files/440-llanelli-and-its-association-with-the-slave-trade https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/45938
Thompson, William	1793-1854	B	Merthyr Tudful Abertawe Tredegar	Ffigwr pwysig yn ninas Llundain a'r Arglwydd Faer. Priododd ferch Samuel Homfray a daeth yn feistr haeam Penydarren a Thredegar. Bu'n bennaeth y Santiago Company, a oedd yn cyflenwi copr i Abertawe ac yn defnyddio caethweision i weithio yn ei fwyngloddiau. Enw un o'i longau oedd <i>Alderman Thompson</i> ac enw un arall oedd <i>Countess of Bective</i> ar ôl ei ferch. Bu'n AS ar gyfer amryw o etholaethau yn Lloegr 1820-1854. Cyflwynodd ddeisebau seneddol ar gyfer dileu caethwasiaeth ym 1830 a 1831.				Chris Evans, 2010 https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1820-1832/member/thompson-william-1792-1854
Townsend, Chauncy	1708-1770	A?	Abertawe Llanelli	Masnachwr yn Llundain a arloesodd ddatblygiad diwydiannol yn Abertawe a Llanelli. Dechreuodd weithio fel dilledydd ac yna datblygodd fuddiannau fel masnachwr yn cyflenwi contractau'r llywodraeth yn New England, Nova Scotia a Honduras. Buddsoddodd yn helaeth mewn mwyngloddio yn ne Cymru. Roedd hefyd yn AS. Ni chanfuwyd buddiannau uniongyrchol yn y fasnach mewn caethweision ond roedd ei wraig Bridget yn ferch i James Phipps o Westbury yn Wiltshire (c.1687-1723), a oedd wedi gweithio i'r Royal Africa Company ac wedi priodi merch Affricanes a milwr o'r Iseldiroedd. Mae mab Bridget, James Townsend, wedi cael ei alw'n Arglwydd Faer 'Du' cyntaf Llundain.		Gwaith copr Upper Bank		https://www.academia.edu/31908338/A_Black_Lord_Mayor_of_London_in_the_Eighteenth_Century http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1715-1754/member/townsend-chauncy-1708-70
Tringham, Eleanor Amelia (Tarleton gynt, née Fletcher)	1798 - 1871	B	Sir y Fflint Talacharn	Ceisiodd Tringham yn aflwyddiannus i hawlio iawndal am ystâd yn Jamaica a etifeddwyd drwy dad ei diweddar ŵr Thomas Tarleton, a oedd yn fasnachwr caethweision blaenllaw yn Lerpwl. Cafodd ei geni yn Sir y Fflint a phriododd Henry Tarleton yn Owrtyn ym 1828 ond bu farw ei gŵr saith mis yn ddiweddarach. Priododd â William Tringham pan oedd yn byw yn Leamington ym 1831. Symudasant i Dalacharn am ychydig flynyddoedd cyn symud i Ddyfnaint ac yna i Lundain.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146632015
Tringham, William	1798-1859	B	Talacharn	Ceisiodd yn aflwyddiannus i hawlio iawndal am ystâd yn Jamaica yr oedd ei wraig Eleanor wedi'i hetifeddu.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146632018

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Tyndall , Joseph	1840 - 1899	B	Casnewydd	Cyd-berchennog absennol a gafodd ei ddigolledu ym 1863 gan yr Iseldiroedd am gaethweision yn Surinam, er bod y DU wedi'i gwneud yn drosedd ugain mlynedd yn gynt i ddeiliaid Prydeinig feddu ar gaethweision unrhyw le yn y byd. Cafodd ei eni yn Nyfnaint a thua 1860 bu'n byw am gyfnod byr yn 44 Blewitt Street yng nghanol Casnewydd cyn symud yn ôl i Ddyfnaint ac yna allfudo i Seland Newydd.		44 Blewitt St, Casnewydd		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146650719
Vaughan , John (3 ^{ydd} Iarll Carbery)	1639-1713	A	Caerfyrddin	Yn AS seddi yn Sir Gaerfyrddin 1661-89 ac etifedd ystâd Gelli Aur ym 1686, ef oedd Is-lywodraethwr Jamaica 1675-8 ac fe hwylusodd y planhigfeydd siwgr. Bu'n bargeinio prisiau caethweision gyda'r Royal African Company, yn ymladd yn erbyn y Jamaican Maroons, a oedd wedi dianc rhag caethwasiaeth. Gwerthodd gaethweision ei hun.		Gelli Aur		Chris Evans, 2010 https://en.wikipedia.org/wiki/John_Vaughan,_3rd_Earl_of_Carbery
Vaughan , Robert Williames (2 ^{il} Farwnig)	1768 – 1843	C	Dolgellau	Bu Robert Williames Vaughan yn AS Meirionnydd am 44 mlynedd, o 1792 i 1836, ond dim ond unwaith y siaradodd yn y Tŷ. Ef oedd y tîrfeiddiannwr mwyaf ym Meirionnydd. Fe'i cyhuddwyd o lesterio'r Gymdeithas Gwrth-gaethwasiaeth yn lleol ac eto cyflwynodd a chymeradwyodd ddeisebau i ddileu caethwasiaeth o drefi ledled y sir.		Nannau		Andrew Green, 2018 https://en.wikipedia.org/wiki/Sir_Robert_Vaughan,_2nd_Baronet https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1820-1832/member/vaughan-sir-robert-1768-1843
Warrington , Y Parch. George	1744-1830	B	Wrecsam Yr Hob Llanellwy	Clerig o Fryn-y-ffynnon, Wrecsam, a dderbyniodd £3,000 gyda'i wraig Mary (née Strudwick, 1740-1802) i ildio hawliau ar ystâd ei dad-yng-nghyfraith, Pantre Pant, yn Jamaica ym 1789. Bu'n ficer yr Hob ac yn ganon yn Llanellwy, 1778-1830.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146664831
Watts , Margaret (née Haverkam)	1794 – 1846	B	Llangollen	Ganed Margaret Haverkam yn Antigua a phriododd Samuel Watts yno ym 1812. Ymddeolasant i Langollen a thalwyd iawndal iddynt am gaethweision yn Antigua.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/601#
Watts , Samuel	? – 1839	B	Llangollen	Lefftenant-cyrnol yn y fyddin a briododd Margaret Haverkam yn Antigua ym 1812. Ymddeolasant i Langollen a thalwyd iawndal iddynt am gaethweision yn Antigua.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/1229

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Wellesley , Arthur (Dug Wellington)	1769-1852	C?	Cenedlaethol	Wellesley oedd cadlywydd lluoedd Prydain yn erbyn Napoleon a bu'n Brif Weinidog ddwywaith. Cyn hynny, llwyddodd i ffrwyno gwrthryfel yn erbyn rheolaeth Prydain yn India. Roedd yn AS ym 1806-9, cafodd y teitl Dug Wellington ym 1814 a'i benodi'n llysgennad i Baris, ac un o'i brif rolau oedd trafod atal y fasnach gaethweision dramor. Dychwelodd i'r fyddin i drechu Napoleon yn Waterloo ym 1815. Ym 1818 dychwelodd i fyd gwleidyddiaeth, a bu'n Brif Weinidog ym 1828-30 a 1834. Roedd yn hynod geidwadol ei farn a'i natur, ac roedd rhyddfreinwyr yn ei ystyried fel rhywun â chydymdeimlad cryf â buddiannau West India. Cododd bryderon rheolaidd ynghylch goblygiadau diddymu caethwasiaeth yn llwyr a risgiau chwalfa gymdeithasol yn y trefedigaethau a thwf masnach gaethweision tanddaearol anghyfreithlon. Nododd ei amheuan ynghylch cywirdeb gorfodi deddfau San Steffan ar weinyddiaethau trefedigaethol. Serch hynny, mewn dadl ar ryddfrenio yn Nhŷ'r Arglwyddi ym 1833, cyflwynodd ddeisebau o blaid diddymu a honnodd iddo weithio'n hir a chaled i roi terfyn ar gaethwasiaeth.	M B S		Nid yw Wellington yn ymddangos ar Topple the Racists ond bu galwadau i gael gwared ar gerfluniau yn yr Alban oherwydd ei ymgyrchoedd yn India.	https://www.theguardian.com/commentisfree/2020/jun/20/gladstone-wellington-peel-britain-pro-slavery-british-history-abolition?CMP=share_btn_tw https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1790-1820/member/wellesley-sir-arthur-1769-1852 ODNB Michael Taylor, 2020. The Interest: How the British Establishment Resisted the Abolition of Slavery
Wells , Nathaniel	1779 - 1852	B + G	Sant Arfan St Kitts Llandochoau	Yn fab i berchennog planhigfeydd William Wells a'i gaethforwyn Juggy, etifeddodd Nathaniel y planhigfeydd pan oedd yn ei arddegau. Cafodd ei addysg yn Lloegr a phrynodd Ystâd Piercefield ym 1802, a oedd yn nodwedd bwysig o daith Dyffryn Gwy. Daeth yn Siryf Sir Fynwy, cefnogodd welliannau i Eglwys Sant Arfan, a chafodd fwy nag 20 o blant. Gwaredodd nifer o'i blanhigfeydd caethweision yn St Kitts yn y 1820au ond cafodd ei ddigolledu am golli 86 o gaethweision ar un blanhigfa a oedd ganddo'n weddill.		Piercefield, Eglwys Sant Arfan		NDNB John Evans, 2004 https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/25474
Wells , William	1730-1794	B	Caerdydd St Kitts Nevis	Fe'i ganed yng Nghaerdydd ac aeth i St Kitts pan oedd tua 19 oed, gan gaffael tair planhigfa siwgr yn y pen draw. Roedd ganddo blant gan o leiaf dair o'r caethforwynion yn ei dŷ ac yn y pen draw rhyddhaodd rai o'r menywod a gadael cymynroddion i'w blant. Gadawodd ei ffortiwn a'i blanhigfeydd i'w fab yn ei arddegau Nathaniel (ei fam oedd ei gaethforwyn Juggy (Joardine Wells oedd ei henw ar ôl cael ei rhyddhau).				NDNB John Evans, 2004 https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146647727
Whittle , Latimer	1813-1891	B	Y Fenni	Buddiolwr cronfa ymddiriedolaeth o ystadau yn Jamaica, roedd yn beiriannydd sifil a bu'n byw mewn sawl rhan o'r DU ond tua 1861-2 roedd yn byw yn Stryd y Castell, y Fenni.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146654817

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Wilkins , Walter	1741-1828	A??	Aberhonddu Maesllwch	Roedd ei dad yn dwrnai i'r Priorddy, Aberhonddu, a'i fam oedd Sibyl, merch Walter Jeffreys o Lywel. Aeth i Bengal yn ei arddegau hwyr a daeth yn uwch fasnachwr gyda'r East India Company, ond nid yw'n glir a oedd ganddo unrhyw gysylltiad â chaethwasiaeth. Dychwelodd ym 1772 a defnyddiodd y cyfoeth a enillwyd i brynu ystâd Maesllwch yn Sir Faesyfed a buddsoddi mewn gwaith haearn a chamlesi ac ym Manc Aberhonddu. Roedd yn werth £250,000 adeg ei farwolaeth. Fel AS Sir Faesyfed 1796-1828 cyflwynodd ddeisebau gwrth-gaethwasiaeth ym 1824.				https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1820-1832/member/wilkins-walter-1741-1828 H.V. Bowen, 2017. <i>Wales and the Making of British India</i>
Williams , Evan	?-1769	A	Llanfihangel-y-fro	Bu farw Evan Williams gyda'i frawd William Williams o Lanfihangel-y-fro ar fordaith yn cludo caethweision o Guinea i India'r Gorllewin ym 1769.				Dyddiadur William Thomas
Williams , Martin	1782 - 1856	B	Llanfyllin	Ganed Williams yn Jamaica, yn fab i Martin Williams arall o Jamaica. Caffaelodd Bryngwyn ger Llanfyllin erbyn 1813 ac roedd yn byw yno adeg ei farwolaeth ym 1856. Cafodd ei ddigolledu adeg y rhyddfrenio. Cadeiriodd Fwrdd y Gwarcheidwaid yn wyrchw Llanfyllin ym 1837. Priododd ei ferch Elizabeth Charlotte Williams ag Henry Robertson Sandbach o Hafodunos, a oedd yn berchennog nifer o blanhigfeydd.		Y Dolydd / Wyrchw Llanfyllin Bryngwyn		Andrew Green, 2018 https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/16235/#addresses
Williams , Michael	1784-1858	B	Abertawe	Cyd-berchennog Gwaith Copr Rose yn Abertawe, Williams, Foster & Co maes o law, perchnogion Gwaith Copr Morfa, daeth yn fuddsoddwr yn y Santiago Company, a oedd yn cyflenwi copr i Abertawe ac yn defnyddio caethweision yn ei fwyngloddiau.				Chris Evans, 2010
Williams , Thomas	1737-1802	C	Ynys Môn, Treffynnon, Abertawe, Penclawdd	Gyda'r llysenwau Twm Chwarae Teg neu Copper King, roedd Williams yn ddyn busnes diegwyddor a greodd fonopoli i bob pwrpas o'r diwydiant copr ym Mhrydain. Roedd cyflenwi nwyddau copr i fasnachwyr caethweision ar gyfer masnachu yn Affrica ac i berchnogion planhigfeydd a morgludiant yn y Caribî yn rhan bwysig o'i fusnes ac roedd yn gwrthwynebu dileu'r fasnach mewn caethweision yn frwd, gan gyflwyno deiseb i'r Senedd ym 1788. Pleidleisiodd yn erbyn dileu fel AS ym 1796. Roedd ganddo sawl ystâd yng Nghymru a Lloegr yn ogystal â'i fuddiannau diwydiannol a'i brif gartref oedd Llanidan ar Ynys Môn.		Penclawdd, Gwaith copr Abertawe a Dyffryn Maes Glas, Mynydd Parys, Amlwch, Llanidan		https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-THO-1737 https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1790-1820/member/williams-thomas-1737-1802
Williams , Watkin	1742-1808	B	Penbedw (Sir Ddinbych), Erbistog (Sir y Fflint)	AS Bwrdeistrefi Sir Drefaldwyn a'r Fflint, priododd ag Elizabeth Stapleton, un o ferched a chyd-etifeddion James Russell Stapleton. Ym 1776, prynodd ei chwaer-yng-nghyfraith Catherine Stapleton ei fuddiant yn yr ystadau Stapleton ar St Kitts a Nevis.		Erbistog		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146651955

Enw	Dyddia dau	Pam	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Gweler y tablau	Safleoedd eraill	Dadleuon hyd yma	Ffynonellau
Williams-Wynn , Watkin Williams	1772-1840	C	Y Gogledd	Roedd ystadau Williams-Wynn yn ymestyn dros saith sir yng ngogledd Cymru a'r gororau. Bu'n AS Biwmares ac yna Sir Ddinbych rhwng 1794 a 1840. Yn y Senedd, fe wrthwynebodd feirniadu yr achosion llys yn erbyn caethweision yn Jamaica ym 1826. Yn etholiad 1832 dywedwyd ei fod yn cael cefnogaeth pawb ac eithrio ambell un a oedd naill ai'n ddiwygwyr treisgar neu'n dreisgar o blaid dileu caethwasiaeth ar unwaith.		Wynnstey		https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1820-1832/member/williams-wynn-sir-watkin-1772-1840
Wilson , George	? - ?	B	Mynwy	Hawliodd yn aflwyddiannus am gaethweision ar ystâd yn Barbados, a phryd hynny roedd mewn cyfeiriad yn St John Street, Trefynwy, 1838.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146632498
Winston , Benjamin (Sandford gynt)	1786 – 1866	B	Y Rhyl	Clerig Anglicanaidd a aned yn Benjamin Sandford yn Martinique, bu'n ficer yng Nghaint tan 1848, pan ymddengys iddo ymddeol i'r Fflint. Newidiodd ei enw fel un o amodau ewyllys ei dad-cu mamol Charles Winston (m.1802) ac etifeddodd ystadau yn Dominica.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146645575
Workman , Francis o Barbados	? – c.1820	B	Abertawe	Roedd Workman yn berchen ar forgeisi ar ystâd a chaethweision yn Barbados. Bu'n byw yn Barbados ac yn Mainstone Court ger Ledbury yn Swydd Henffordd ond yn ddiweddarach bu'n byw yn Cheltenham ac yn fuan cyn ei farwolaeth cofnodwyd mewn atodiad i'w ewyllys ei fod yn byw yn Abertawe.				https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146652727
Yale , Elihu	1649-1721	E	Wrecsam Sir Ddinbych	Ganed Yale yn Boston, Massachusetts, i deulu o Sir Ddinbych ond dychwelodd gyda'i deulu i Lundain yn blentyn. Gweithiodd i'r East India Company a chronni ffortiwn fasnachol yn India, yn enwedig drwy fasnachu diemwntau. Daeth yn Llywodraethwr Fort George ym 1687. Dychwelodd i Brydain yn 50 oed a threuliodd ei ddau ddegawd olaf yn Llundain ac ym Mhlas Grono ger Wrecsam. Bu'n Uchel Siryf Sir Ddinbych. Rhoddodd arian ar gyfer sefydlu'r hyn a oedd i ddod yn Brifysgol Iâl ond fe'i claddwyd yn Wrecsam. Yn ystod ei gyfnod ym Madras, roedd yr East India Company yn masnachu mewn caethweision Affricanaidd ac Indiaidd. Mae ei ymwneud personol â chaethwasiaeth yn destun dadl. Ymddengys na fu erioed yn berchen ar gaethweision nac yn eu masnachu ond roedd yn gyfrifol am reolaethau ar gaethweision fel Llywodraethwr.	B S	Plas Grono	Wedi'i gynnwys ar Topple the Racists Bu dadlau ym Mhrifysgol Iâl	https://yaledailynews.com/blog/2020/06/28/cancel-yale-not-likely/
Yonge , Barbara	1760 – 1837	B	Rhuddlan	Roedd Barbara Yonge yn ferch i Ellis Yonge o Fryn Iorcynd (1717-1785) a Penelope Stapleton. Roedd yn gyd-berchennog ar blanhigfa Stapleton ar St Kitts gyda'i chefnider Syr Stapleton Cotton (Is-iarll Combermere) a hawliodd iawndal amdano adeg rhyddfrenio.		Neuadd Bodrhyddan, Bryn Iorcynd		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/43944
Yonge , Ellis	1717-1785	B	Bryn Iorcynd (Sir y Fflint) Neuadd Acton (Wrecsam)	Priododd â Penelope Stapleton a thrwy hynny roedd ganddo fuddiant ym mhlanhigfeydd y teulu Stapleton yn India'r Gorllewin. Ei gartref teuluol oedd Bryn Iorcynd ac roedd yn berchen ar Neuadd Acton cyn iddo gael ei brynu gan Syr Foster Cunliffe.		Bryn Iorcynd		https://archiveshub.jisc.ac.uk/search/archives/00c75886-91cc-30dd-8830-56f16c43ca64

<i>Enw</i>	<i>Dyddia dau</i>	<i>Pam</i>	<i>Ardaloedd cysylltiedig</i>	<i>Trafodaeth</i>	<i>Gweler y tablau</i>	<i>Safleoedd eraill</i>	<i>Dadleuon hyd yma</i>	<i>Ffynonellau</i>
Efrog , Dug (Brenin Iago II)	1633-1701	A	Cenedlaethol	Brawd Brenin Siarl II, a gafodd ei goroni'n Iago II ym 1685. O 1660 ef oedd Llywodraethwr y Royal Adventurers into Africa (y Royal African Company < https://en.wikipedia.org/wiki/Royal_African_Company > yn ddiweddarach), sef y prif gorff a oedd yn gysylltiedig â masnach caethweision Lloegr. Ef hefyd oedd cyfranddaliwr mwyaf y cwmni. Yn gomander y Llynges Frenhinol < https://en.wikipedia.org/wiki/Royal_Navy > yn ystod yr Ail Ryfel rhwng Lloegr a'r Iseldiroedd < https://en.wikipedia.org/wiki/Second_Anglo-Dutch_War > (1665-1667), y Dug a gipiodd y caerau a fyddai'n hwyluso caethwasiaeth. Roedd gan y cwmni fonopoli yn y fasnach â gorllewin Affrica ac erbyn y 1680au roedd yn cludo miloedd o gaethweision y flwyddyn i India'r Gorllewin, llawer ohonynt â llosgnod 'DY' i ddynodi Duke of York.	S			

Atodiad 2: Pobl o dras Ddu ag arwyddocâd hanesyddol sy'n cael eu coffáu yng Nghymru o bosibl neu a allai gael eu coffáu yn y dyfodol

(nid yn cynnwys pobl sy'n byw)

Enw	Dyddiadau	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Tabl coffáu	Safleoedd eraill	Dadlau hyd yma	Ffynonellau
Bovell, Edward	Tua 1870-1960	Caerdydd	Roedd Bovell yn un o'r bobl Ddu gyntaf i ymgartrefu yn Butetown, gan gyrraedd o Barbados ym 1885, gan fynd i fyw yn Sophia Street. Roedd yn gweithio fel cogydd ar long tan tua 1940 ac roedd yn warden cyrchoedd awyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Tynnwyd llun ohono gan Bert Hardy ar gyfer <i>Picture Post</i> ym 1950.				Alan Llwyd, 2005
Campbell, Betty	1934-2017	Caerdydd	Yr unigolyn Du cyntaf i fod yn bennaeth ysgol yng Nghymru. Roedd yn ymgyrchydd ac yn gynghorydd sir yng Nghaerdydd. Mewn pleidlais gyhoeddus, fe'i dewiswyd i fod yn destun cerflun newydd y tu allan i bencadlys BBC Cymru Wales a osodwyd yn 2021.	M			https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-48610689
Coleridge-Taylor, Samuel	1875-1912	Llangollen	Cyfansoddwr Edwardaidd enwog o Loegr. Roedd ei dad yn llawfeddyg o Sierra Leone a'i fam yn dod o Lundain. Roedd ei gerddoriaeth yn cael ei pherfformio'n eang tua dechrau'r ugeinfed ganrif. Roedd ei hunaniaeth fel cyfansoddwr Du yn bwysig iddo ac roedd yn defnyddio themâu Affricanaidd, Caribïaidd ac Americanaidd, gan ymweld â'r Unol Daleithiau dair gwaith i gyfeilio i'w waith ei hun. Bu farw o niwmonia yn 37 oed, ac roedd miloedd o bobl yn bresennol yn ei angladd yn Llundain. Roedd yn ymweld â Chymru'n rheolaidd i feirniadu a chyfeilio mewn eisteddfodau, er enghraifft yn Eisteddfod Genedlaethol Llangollen 1908. Mynychai eisteddfodau lleol hefyd, ac aeth i Eisteddfod Dolgellau i fod yn feirniad ar Ddydd Calan 1907. Mewn llythyr at drefnydd taith o America a oedd yn poeni am ei ddiogelwch yno ym 1904 dywedodd: <i>'I do a great deal of adjudicating in Wales among a very rough class of people.'</i>				ODNB Alan Llwyd, 2005
Craft, Ellen a William	1826-1891 a 1824-1900	Abertawe	Roedd Ellen a William Craft yn gaethweision a oedd wedi dianc o Georgia cyn cael lloches ym Mhrydain ar ôl i'r Fugitive Slave Act ddod i rym yn UDA ym 1850. Arhosodd y ddau am 19 o flynyddoedd tan ar ôl y Rhyfel Cartref. Fe gawsant bump o blant ym Mhrydain, gan ysgrifennu am eu profiadau a thraddodi darlithoedd, gan gynnwys darlith yng Nghapel Mount Pleasant, Abertawe ym 1863.				https://en.wikipedia.org/wiki/Ellen_and_William_Craft
de Freitas, Iris	1896-1989	Aberystwyth	Fe ddaeth De Freitas o Guiana Prydeinig i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth ym 1919. Hi oedd y cyfreithiwr Caribïaidd benywaidd cyntaf. Mae Ystafell de Freitas yn Aberystwyth yn rhan o Lyfrgell Huw Owen.	B	Neuadd Alexandra, Aberystwyth		https://en.wikipedia.org/wiki/Iris_de_Freitas_Brazao

Enw	Dyddiadau	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Tabl coffáu	Safleoedd eraill	Dadlau hyd yma	Ffynonellau
Douglass, Frederick	1818-1895	Rhyngwladol	Ganed Douglass yn gaethwas ym Maryland. Ar ôl dianc ym 1838 fe ddaeth yn enwog fel areithiwr penigamp ac ymgyrchydd dros ddileu caethwasiaeth. Ysgrifennodd sawl cyfrol o'i hunangofiant. Fe aeth ar daith areithio ledled Prydain yn y 1840au, gan ddenu cynulleidfaoedd mawr. Yn ystod ei ymweliad, fe ddaeth yn rhydd yn gyfreithiol ar ôl i'w gefnogwyr brynu ei ryddid gan ei 'berchennog' Americanaidd. Mae placiau wedi'u codi i gofio am ei areithiau yn Llundain, Caeredin, Cork a Waterford, ond nid oes unrhyw blac wedi'i godi i gofio am ei areithiau yng Nghymru. Rydym yn gwybod ei fod wedi siarad yn Neuadd y Dref Wrecsam ar 9 Hydref 1846.			Cerflun yn Rochester, Efrog Newydd, wedi'i dynnu i lawr ym mis Gorffennaf 2020	Daniel G. Williams, 2012
Drake, St Clair	1911-1990	Caerdydd Rhyngwladol	Cymdeithasegydd Affricanaidd-Americanaidd arloesol oedd Drake a gwblhaodd astudiaeth gynhwysfawr o gymuned amlhiliol Tiger Bay, gan fyw yno yn ystod ymweliad dwy flynedd â Phrydain. Fe'i penodwyd yn athro cynorthwyol ym Mhrifysgol Roosevelt yn Chicago ym 1946, roedd yn bennaeth yr adran gymdeithaseg ym Mhrifysgol Ghana, a sefydlodd Astudiaethau Affricanaidd ac Affricanaidd Americanaidd yn Stanford ym 1969. Teitl traethawd ei ddoethuriaeth oedd 'Values, social structure, and race relations in the British Isles', ac roedd yn seiliedig ar waith ymchwil yn ymwneud â morwyr Affricanaidd a'u teuluoedd yng Nghaerdydd. Roedd yn un o'r ysgolheigion cyntaf i astudio cysylltiadau hiliol yn y DU. Ym mis Ebrill 1948, ei gyfeiriad oedd 151 Bute Street (stryd sydd wedi'i hailddatblygu erbyn hyn). Symudodd un o'i fyfyrwyr yn Stanford, Dr Glenn Jordan, i Gaerdydd gan arwain Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown ym 1987.				http://archives.nypl.org/scm/20826 https://en.wikipedia.org/wiki/St._Clair_Drake https://credo.library.umass.edu/view/pageturn/mums312-b118-i163/#page/1/mode/1up
Ellison, Ralph Waldo	1914-1994	Rhyngwladol Abertawe	Ellison oedd un o'r awduron Americanaidd Du mwyaf blaenllaw ar ôl y rhyfel, ac mae'n enwog am ei nofel led-hunangofiannol, <i>Invisible Man</i> (1952) sy'n trafod unigolyn Du o ardal ddeheuol UDA yn mynd drwy'r broses raddol o ganfod ei hun, er ei fod yn anweledig i'r gymdeithas wen. Astudiodd Ellison gerddoriaeth a cherfluniaeth yn wreiddiol, ond ysgrifennodd ffuglen am y tro cyntaf wrth wasanaethu gyda'r US Merchant Marine yn Abertawe ym 1944, ac roedd y ddinas yn lleoliad i dair o'i straeon.				http://babylonwales.blogspot.com/2006/08/ralph-ellison-in-swansea.html Daniel G. Williams, 2013
Erskine, Joe	1934-1990	Caerdydd	Erskine oedd pencampwr bocsiu pwysau trwm Prydain 1956-8. Roedd yn cael ei ystyried fel bocsiwr cywrain a'i waith troed yn cael ei gymharu ag eiddo Muhammad Ali. Enillodd 45 o'i 58 gornest broffesiynol. Ganwyd ef i dad o India'r Gorllewin a mam wen thyfodd i fyny yn Butetown lle'r oedd y teulu'n cadw llety i longwyr. Ym 1958 roedd yn llofnodwr llythyr i bapur y Times yn gwrthwynebu apartheid mewn chwaraeon rhyngwladol ac yn amddiffyn cydraddoldeb hiliol. Enillodd lawer iawn o arian yn ystod ei yrfa ond bu farw yn ei fflat yng Nghaerdydd yn 56 oed.				Williams, Evans and O'Leary, 2015 Alan Llwyd, 2005

Enw	Dyddiadau	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Tabl coffáu	Safleoedd eraill	Dadlau hyd yma	Ffynonellau
Farah, Abdurahim Abby	1919-2018	Y Barri Rhyngwladol	Roedd Farah yn ddiplomydd o Somalia, yn llywydd Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig ac yn Is-ysgrifennydd cyffredinol y Cenhedloedd Unedig. Fe gafodd ei eni a'i fagu yn y Barri. Roedd ei dad o Somali yn beiriannydd, a'i fam o Brydain yn cynnal tŷ llety. Ar ôl gadael Ysgol Ramadeg y Barri bu'n gweithio am gyfnod i'r gwasanaeth trefedigaethol Prydeinig yn Somalia cyn dychwelyd i astudio yn Rhydychen. Gweithiodd wedyn fel llysgennad i Weriniaeth Somalia a oedd newydd ennill annibyniaeth, ac ar ôl ymddeol sefydlodd ysbyty ar gyfer dioddefwyr ffrwydrion tir yn Somalia.				https://www.theguardian.com/world/2018/jun/14/abdurahim-abby-farah-obituary
Flynn, Patti	1937-2020	Caerdydd	Magwyd Patricia (Patti) Flynn, Young gynt, yn Butetown yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a cholodd ei thad a dau frawd yn y rhyfel. Daeth ei thad i Gaerdydd o Jamaica yn y 1920au fel masnachlongwr a phriodi Cymraes. Cafodd ei dylanwadu gan y gerddoriaeth a glywodd o amgylch Bae Caerdydd pan oedd hi'n fenyw ifanc i fod yn gantores jazz a pherfformwr cabaret, gan weithio yn y West End ac yna yn Sbaen. Yng Nghaerdydd, helpodd i sefydlu Gwyl Dreftadaeth Jazz Butetown Bay ac ymgyrchodd dros sylw i hanes pobl Dduon a chofeb i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a fu'n ymladd yn y ddau ryfel byd. Cynhyrchodd albwm o'r enw <i>Love to You</i> ym 1979.				https://bhmwales.org.uk/our-team/patti-flynn/ https://www.youtube.com/watch?v=AmTlvRxtalw
Francis, Roy	1919-1989	Caerdydd Brynmawr	Francis oedd yr hyfforddwr chwaraeon proffesiynol Prydeinig cyntaf ac un o fabolgampwyr proffesiynol cyntaf Prydain o darddiad Du. Fe gafodd ei eni yn Tiger Bay a'i fagu ym Mrynmawr, lle y chwaraeodd rygbi'r undeb nes arwyddo i Wigan ym 1937. Chwaraeodd rygbi'r gynghrair ar lefel ryngwladol i Gymru ac i Brydain, ac aeth ymlaen i fod yn un o brif hyfforddwyr timau rygbi'r gynghrair. Cafodd ei atal rhag teithio gyda'r tîm i Awstralia ym 1946 oherwydd gwaharddiad y wlad ar fewnfudo gan bobl heb fod yn wyn, ond derbyniodd swydd hyfforddi yno am gyfnod byr rhwng 1969 a 1971.				https://www.southwalesargus.co.uk/news/18439615-trailblazer-roy-francis-gwent-became-britains-first-professional-black-sporting-coach/
Geta	189-211	Caerllion Rhyngwladol	Roedd Geta a'i frawd Caracalla yn gyd-ymerawdwyr Rhufain am gyfnod byr iawn. Fe ddaethant i Brydain gyda'u tad yr Ymerawdwr Septimus Severus yn ystod yr ymgyrch i oresgyn yr ynys gyfan yn y flwyddyn 208. Roedd Geta yn gyfrifol am y dalaith a oedd eisoes yn bodoli ac mae'n debygol bod Geta wedi dod i Gaerllion yn ystod y cyfnod hwnnw. Ei dad Septimus Severus (145-211), a fu farw yn ystod yr ymgyrch, oedd yr Ymerawdwr Rhufeinig cynaf o darddiad Gogledd Affricaidd: roedd yn dod o Leptis Magna yn nhalaith Affrica ac mae'n ymddangos bod darlun ohono'n ei bortreadu fel person croenliw.		Safleoedd Rhufeinig Caerllion		https://en.wikipedia.org/wiki/Septimius_Severus https://en.wikipedia.org/wiki/Geta_(emperor)

Enw	Dyddiadau	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Tabl coffáu	Safleoedd eraill	Dadlau hyd yma	Ffynonellau
Hall, William Anderson	Tua1815-?	Caerdydd	Ganed Hall yn gaethwas yn Tennessee. Roedd ei fam yn gaethwas a'i dad yn berchennog planhigfa. Symudodd i fyw i Gaerdydd yn y 1860au. Cyhoeddodd bamffledyn ym 1862: <i>Slavery in the United States of America: Personal Narrative of the Sufferings and Escape of William A. Hall fugitive slave, now a resident in Cardiff</i> . Nododd y llyfryn hwn fod ei dad wedi'i ddwyn oddi ar ei fam pan oedd yn blentyn bach a'i rentu i feistri gwahanol. Ar ôl priodi, fe gafodd ei wahanu oddi wrth ei wraig a'i blant. Llwyddodd i ddianc sawl gwaith cyn cyrraedd Chicago ym 1852 lle y cafodd waith am dâl cyn derbyn cyngor i symud i Ganada. O'r wlad honno fe deithiodd i Lerpwl, Llundain, Bryste ac yna Caerdydd, lle yr argraffwyd ei naratif gan James Wood, Bute Street. Mae'n bosibl ei fod wedi dychwelyd i Ganada wedyn.				David Wyatt a William Jones, 2010 https://archive.org/details/williamhall/page/n1/mode/2up
Hinds, John Darwin	1922-1981	Y Barri Bargoed Gelligaer	Roedd tad Hinds, Leonard (1887-1948) wedi symud i'r Barri o Barbados fel llongwr masnach cyn cael swydd fel glöwr ym Maerdy. Bu'n gweithio fel glöwr ym Margoed i gychwyn, ond gadawodd i weithio i Swyddfa'r Trefedigaethau am gyfnod cyn dychwelyd i'r Barri a throi at ffydd Islam. Hinds oedd y cynghorydd Du neu Fwslimaidd cyntaf yng Nghymru ar ôl cael ei ethol i Gyngor y Barri ar ran y Blaid Lafur ym 1958. Roedd yn faer Bro Morgannwg ym 1975.				
Jabavu, Davidson Don Tengo	1885-1959	Bae Colwyn Rhyngwladol	Roedd Jabavu yn academydd, yn addysgwr ac yn ymgyrchydd pwysig o Dde Affrica. Fe'i ganed yn Nhrefedigaeth y Penrhyn a bu'n astudio yno am gyfnod, ond ar ôl i ysgol uwchradd ar gyfer plant gwynion wrthod ei dderbyn yn ei wlad enedigol, fe fynychodd Sefydliad Hyfforddiant y Congo ym Mae Colwyn. Fe aeth ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Llundain rhwng 1906 a 1912. Jabavu oedd llywydd cyntaf y Confensiwn Affrica Gyfan ym 1935 i wrthwynebu gwahanu a difreinio dinasyddion Du. Bu'n arwain Cymdeithas Pleidleiswyr Brodorion Cape wedyn. Roedd Nelson Mandela wedi'i gydnabod yn fentor.				https://www.sahistory.org.za/people/davidson-don-tengo-jabavu https://www.britannica.com/biography/Davidson-Don-Tengo-Jabavu
James, C. L. R.	1901-1989	Rhyngwladol Castell-nedd	Roedd James yn hanesydd, yn awdur ac yn ymgyrchydd hynod ddylanwadol o Trinidad. Yn ôl yr hanesydd Hywel Francis, roedd cyfrol ddylanwadol James ar chwyldro Haiti, gwrthryfel gan gaethweision rhwng 1791 a 1804, <i>The Black Jacobins</i> (1938) wedi'i chwblhau pan oedd James yn aros yng Nghrynant ger Castell-nedd mewn tŷ o'r enw Camden, cartref Tillie a Brinley Griffiths, a oedd yn cynnwys llyfrgell fawr. Pan oedd yn byw ym Mhrydain rhwng 1932 a 1938, bu'n siarad yn rheolaidd yn ne Cymru.		'Camden', 44 Neath Road, Crynant		https://en.wikipedia.org/wiki/C._L._R._James#Return_to_Britain https://www.llyfrgell.cymru/fileadmin/fileadmin/docs/gwefan/casgliadau/archifau/archif_wleidyddol/darlith_awg/dar_awg_hywel_franncis_2010.pdf

Enw	Dyddiadau	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Tabl coffáu	Safleoedd eraill	Dadlau hyd yma	Ffynonellau
Kin Kassa	c.1874-1888	Bae Colwyn	Roedd Kin Kassa a N'Kansa yn ddau fachgen a symudodd i Fae Colwyn o'r Congo gyda'r cenhadwr y Parchedig William Hughes ym 1885, lle y gwnaethant ei ysbrydoli i sefydlu Sefydliad Hyfforddiant y Congo ym 1889, a ddatblygodd yn Sefydliad Affricanaidd ac yn fan cyfarfod pwysig i bobl o bob cwr o'r cyfandir tan 1912. Roedd Kin Kassa tua un ar ddeg oed pan ddaeth i Gymru a bu farw yn dilyn salwch ddwy flynedd yn ddiweddarach. Mae ei fedd i'w weld o hyd ym Mae Colwyn. Fe gafodd tua 100 o fechgyn eraill o wledydd Affrica ac UDA hyfforddiant mewn crefftau a phroffesiynau, gan fynd â'u sgiliau yn ôl i'w gwledydd. Gweler hefyd Christopher Draper a John Lawson-Reay, 2012, <i>Scandal at Congo House: William Hughes and the African Institute, Colwyn Bay</i> .		Bay View Road Myrtle Villa		https://www.northwalespio.neer.co.uk/news/15750688.congolese-prime-minister-to-pay-respects-in-colwyn-bay/ Charlotte Williams, 2002, tt. 25-34 https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-4177209 https://www.facebook.com/congo.house.colwyn.bay/
Landsman, Ivor Gabriel	1899-?	Caerdydd	Ganed Landsman yn Butetown, Caerdydd, a bu'n ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf nes iddo gael ei anafu a gorfod dychwelyd adref yn 19 oed. Yn ystod y terfysgoedd hil ym 1919 pan oedd gangiau o bobl wyn yn ymosod ar gartrefi pobl Dduon, fe aeth Landsman ati i amddiffyn Butetown trwy saethu at y dorf. Fe'i dedfrydwyd i dair blynedd o garchar.				
Mandela, Nelson	1918 – 2013	Rhyngwladol	Mae Mandela yn cael ei ystyried yn eang yn un o arweinwyr gorau'r ugeinfed ganrif. Ar ôl brwydo yn erbyn apartheid, roedd yn gyfrifol am y newid heddychlon i ddemocratiaeth yn Ne Affrica, gan wasanaethu fel Arlywydd y wlad rhwng 1994 ac 1999. Fe gafodd ei anrhydeddu'n eang ar ffurf enwau strydoedd ac adeiladau ym Mhrydain yn y 1980au pan oedd yn garcharor gwleidyddol. Ar ôl cael ei ryddhau o'r carchar, arweiniodd raglen genedlaethol o gymodi, ac enillodd Gwobr Heddwch Nobel ym 1993. Rhoddwyd rhyddfraint dinas Caerdydd iddo mewn seremoni yng Nghastell Caerdydd ym 1998.	S			
Mossell, Aaron Albert II	1863-1951	Rhyngwladol Caerdydd	Cyfreithiwr Affricanaidd-Americanaidd a'r person Du cyntaf i raddio o ysgol y gyfraith Prifysgol Pennsylvania ym 1888. Bu'n byw yn ne Cymru am 30 mlynedd olaf ei fywyd. Sefydlodd y Cardiff International Coloured Association ym 1922 ar ôl y terfysgoedd hil ym 1919, ac ar ôl hynny arweiniodd yr United Committee of Coloured and Colonial Organisations. Siaradodd gerbron y bumed Gyngres Affricanaidd Gyfan ym Manceinion ym 1945.				https://archives.upenn.edu/exhibits/penn-people/biography/aaron-albert-mossell https://labourcountry.wordpress.com/author/dleeworthy1/
N'Kansa	Tua 1877-1892?	Bae Colwyn	Roedd N'Kansa a Kin Kansa yn ddau fachgen a symudodd i Fae Colwyn o'r Congo gyda'r cenhadwr y Parchedig William Hughes ym 1885, lle y gwnaethant ei ysbrydoli i sefydlu Sefydliad Hyfforddiant y Congo ym 1889. Roedd N'Kansa yn wyth oed pan aeth Hughes ati i'w brynu a'i ryddhau o gaethwasiaeth gan bennaeth pentref Vunda. Bu farw yn 16 oed ac mae ei fedd i'w weld ym Mae Colwyn.				https://www.northwalespio.neer.co.uk/news/15750688.congolese-prime-minister-to-pay-respects-in-colwyn-bay/ Charlotte Williams, 2002, tt. 25-34

Enw	Dyddiadau	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Tabl coffáu	Safleoedd eraill	Dadlau hyd yma	Ffynonellau
O'Connell, Harry	1888-tua1960	Caerdydd	Saer coed llong o Guiana a ddaeth yn ymgyrchydd comiwnyddol dylanwadol trwy drefnu gwrthwynebiad i hiliaeth yng Nghaerdydd a'r diwydiant llongau trwy'r Cardiff Coloured Seamen's Committee. Brwydrodd yn erbyn polisïau hiliol Undeb Cenedlaethol y Morwyr, a oedd wedi creu diweithdra enfawr ar gyfer morwyr o leiafrifoedd ethnig.		32 Maria Street, Butetown		https://grahamstevenson.me.uk/2019/12/21/harry-e-oconnell/ https://labourcountry.wordpress.com/author/dleewor-thy1/
Oluwole, Isaac Ladipo	1892-1953	Bae Colwyn	Mae Dr Oluwole yn adnabyddus fel tad iechyd y cyhoedd yn Nigeria. Mynychodd yr ysgol yn Lagos cyn dod i Sefydliad Hyfforddiant y Congo (y Sefydliad Affricanaidd) ym Mae Colwyn tua 1903. Yn ddiweddarach, ymddengys fod y Sefydliad yn lleoliad pwysig iddo wrth astudio meddygaeth yn Lerpwl a Phrifysgol Glasgow rhwng 1913-18 cyn dychwelyd i Nigeria. Roedd yn un o sêr tîm criced y Sefydliad Affricanaidd.		Bay View Road Myrtle Villa		https://en.wikipedia.org/wiki/Isaac_Ladipo_Oluwole https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-41777209
Parris, Eddie	1911-1971	Cas-gwent	Ganed Parris ym Mhwllmeurig ger Cas-gwent. Roedd ei fam yn dod o Gaerlŷr a'i dad yn dod o Barbados. Chwaraeodd bêl-droed i glwb Tref Cas-gwent a Bradford. Parris oedd y pêl-droediwr Du cyntaf i ennill cap i Gymru, ym 1931.				https://en.wikipedia.org/wiki/Eddie_Parris
Payne, Elvira Gwenllian	1917-2007	Y Barri	Credir mai Payne oedd y fenyw ddu gyntaf i gael ei hethol yn gynghorydd yng Nghymru ar ran y Blaid Lafur yn y Barri ym 1972. Fe'i ganed yn y Barri ac roedd ei thad yn y dod o Barbados a'i mam yn dod o Gymru. Priododd Colin Payne o Barbados. Gweithiodd fel goruchwylydd prydau ysgol, ac roedd yn hoffi cefnogi sefydliadau gwirfoddol ym Mro Morgannwg. Roedd yn Faeres i'w brawd Darwin Hinds. Ym mis Mehefin 2020, lansiwyd ymgyrch i enwi canolfan gymunedol newydd ar ei chyfer yn hytrach nag ar gyfer y Cynghorydd Margaret Alexander.			Ymgyrch i enwi canolfan gymunedol iddi yn 2020	https://www.barryanddistrictnews.co.uk/news/18548484.campaign-name-barry-community-hall-first-black-councillor-launched/
Picton, Cesar	Tua 1755-1836	Sir Benfro	Fe gafodd ei symud o Senegal pan oedd yn fachgen tua chwech oed, a'i roi i Syr John Philipps (1701-64) o Gastell Picton yn Sir Benfro, a dechreuodd weithio iddo fel gwas cyflogedig yng Nghastell Picton ac yn Kingston, Surrey. Yr enw a roddwyd iddo oedd Cesar Picton. Pan oedd yn ei dridegau, gadawodd y Foneddiges Philipps gymynrodd iddo, a sefydlodd fusnes fel masnachwr glo yn Kingston. Gadawodd plant Philipps ragor o arian iddo, a bu farw'n ŵr bonheddig cyfoethog. Ceir placiau iddo ar furiau ei ddau dŷ yn Surrey.		Castell Picton		https://en.wikipedia.org/wiki/Cesar_Picton
Postumius Varus, Titus Flavius	Tua 250	Caerllion	Roedd llawer o filwyr Rhufeinig ym Mhrydain yn dod o Affrica, ond ychydig iawn o unigolion sy'n hysbys i ni. Credir bod teulu Postumius yn dod o Affrica. Ar ôl cael ei fagu yn yr Eidal, fe symudodd i Brydain i arwain Ail Leng Awgwestws. Mae arysgrif o'r drydedd ganrif, sy'n cael ei chadw yn Amgueddfa Llen Rufeinig Cymru yng Nghaerllion, yn nodi iddo adnewyddu teml i Diana yng Nghaerllion. Fe ddaeth yn Llywodraethwr Rhufain maes o law.		Safleoedd Rhufeinig Caerllion		https://en.wikipedia.org/wiki/Titus_Flavius_Postumius_Varus

Enw	Dyddiadau	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Tabl coffáu	Safleoedd eraill	Dadlau hyd yma	Ffynonellau
Robeson, Paul	1898-1976	Rhyngwladol De Cymru	Roedd Robeson yn ddinesydd Americanaidd a aned yn New Jersey ac yn un o gantorion clasurol gorau'r ugeinfed ganrif. Hefyd, roedd yn ymgyrchydd gwleidyddol, yn athletwr proffesiynol ac yn gyfreithiwr. Fe ddaeth i Brydain fel perfformiwr yn y 1920au. Fe gyd-gerddodd â glowyr de Cymru yn ystod gorymdeithiau newyn ym 1927 a 1928, ac yn ystod y 30au bu'n perfformio ledled y Cymoedd, cyn cefnogi'r Gweriniaethwyr yn Rhyfel Cartref Sbaen. Bu'n actio rôl glöwr yn y ffilm <i>Proud Valley</i> (1940), ac roedd rhai golygfeydd allanol wedi'u ffilmio yng Ngilfach Goch, Tonyrefail a Chwm Darran ymysg lleoliadau eraill. Ar ôl y rhyfel, roedd yn un o nifer o bobl a ddioddefodd o dan bolisi McCarthy, ac fe'i gwaharddwyd rhag teithio dramor. Perfformiodd gyngerdd dros y ffôn dros yr lwerydd ar gyfer Eisteddfod y Glowyr Porthcawl ym 1957. Bu'n siarad neu'n perfformio mewn nifer o lefydd yng Nghymru, gan gynnwys: Aberpennar, Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy, Pont-y-clun, Hopkinstown, Caerdydd, Abertawe, Castell-nedd, Caernarfon, Porthcawl a Wrecsam.	M B		Sefydlwyd ymgyrch i godi cerflun yn 2013	https://en.wikipedia.org/wiki/Paul_Robeson
Selassie, Haile	1892-1975	Abertawe Rhyngwladol	Roedd Haile Selassie yn Ymerawdwr Ethiopia rhwng 1930 a 1973/4 ac yn arweinydd ei wlad yn ystod y rhyfel yn erbyn yr Eidal. Fel rhyng-genedlaetholwr, fe lwyddodd i sicrhau bod Ethiopia'n dod yn aelod o'r Cenhedloedd Unedig, ond fe gafodd ei gyhuddo o reoli fel unben a gormesu lleiafrifoedd diwylliannol. Mae'r mudiad Rastafari yn ei barchu'n fawr iawn. Ar un adeg, roedd Selassie wedi ffoi i Brydain yn dilyn goresgyniad ei wlad, a bu'n ymweld â Choleg y Beibl Cymru yn Abertawe ym 1939 a 1940, lle'r oedd ei nai yn fyfyrwr. Arhosodd y teulu yn un o dai ystâd Penlle'r-gaer. Pan gafodd ei ddiorseddu ym 1973, fe gafodd y cyfle i ddychwelyd i ystâd Penlle'r-gaer fel alltud, ond bu farw fel carcharor yn Addis Abbaba.		Penlle'r-gaer	Cerflun yn Wimbledon, Llundain a ddinistriwyd gan grŵp ethnig lleiafrifol o Oromia, Gorffennaf 2020	https://www.byfaith.co.uk/paulreeshowells.htm

Enw	Dyddiadau	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Tabl coffáu	Safleoedd eraill	Dadlau hyd yma	Ffynonellau
Shand, Frances Batty (yng nghategori B hefyd)	1815-1885	Caerdydd	Fe'i ganed yn Jamaica yn un o ddeg o blant perchennog planhigfa o'r enw John Shand (1759-1825) a'i wraig cadw tŷ Frances Brown, 'menyw rydd groenliw'. Dychwelodd ei thad i'r Alban gyda swm sylweddol o arian, ac aeth ati i'w fuddsoddi mewn tir yno tua 1816 a bu farw pan oedd Frances yn 10 oed; fe arhosodd ei mam yn Jamaica. Roedd hi'n byw gyda'i modryb yn yr Alban, ac ym 1857 fe symudodd i fyw gyda'i frawd dibriod John Shand, ysgrifennydd cwmni rheilffordd yng Nghaerdydd. Symudodd ei chwaer Milborough i fyw gyda nhw wedyn. Yng nghyfrifiad 1861 nodir ei bod hi'n byw ym Mharc-y-Plas, Caerdydd, ac ym 1871 roedd hi'n byw yn 13 Plas Windsor. Symudodd yn ôl i'r Alban yn ddiweddarach, cyn symud i'r Swistir lle y bu farw ym 1885. Fe'i claddwyd yng Nghaerdydd. Gadawodd ei thad £5,000 i bob un o'i blant 'honedig'. Nid yw'n glir a oedd gan unrhyw un ohonyn nhw unrhyw fuddsoddiadau yn Jamaica o hyd, ac er i Frances adael £12,000 yn ei hewyllys, roedd ei brawd a'i chwaer yng Nghaerdydd wedi gadael llai o lawer na hynny. Fe aeth Frances a'i brawd ati i sefydlu Sefydliad y Deillion Caerdydd ym 1865 i ddarparu gwaith i'r tlawd, a bu'n gweithio'n gyson dros y sefydliad hyd at farwolaeth ei brawd ym 1877. Gadawodd arian i'r sefydliad yn ei hewyllys. Fe aeth y rhan fwyaf o'i hystâd i Glafdy Morgannwg a Sir Fynwy er mwyn cynnal ward plant er cof am ei brawd (nid yw'n ymddangos bod y rhodd wedi'i throsglwyddo i ysbyty olynol). Cafodd adeilad Sefydliad y Deillion Caerdydd ar Heol Casnewydd ei enwi'n Tŷ Shand ym 1951, ac mae'n llety i fyfyrwyr ar hyn o bryd.	B	Plas-y-Parc, Caerdydd 13 Plas Windsor, Caerdydd		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146642845 https://sightlife.wales/about-us/history/ https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/woman-who-gave-name-prominent-15370142 https://en.wikipedia.org/wiki/Frances_Batty_Shand https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146642837
Shand, John Batty (yng nghategori B hefyd)	tua 1804-1877	Caerdydd	Roedd John Batty Shand yn un o ddeg o blant perchennog planhigfa o'r enw John Shand (1759-1825) a'i wraig cadw tŷ Frances Brown, 'menyw rydd groenliw'. (Gweler Frances Batty Shand am ragor o wybodaeth.) Fe'i ganed yn Jamaica ond bu'n byw yn Glasgow cyn symud i Blas-y-Parc, Caerdydd i weithio fel Ysgrifennydd Cwmni Rheilffordd Rhymni. Ym 1871 roedd yn byw yn 13 Plas Windsor, Caerdydd, gyda'i chwiorydd Milborough a Frances. Gadawodd eu tad £5,000 i bob un o'i blant 'honedig'. Nid yw'n glir a oedd gan unrhyw un ohonyn nhw unrhyw fuddsoddiadau yn Jamaica o hyd, ond bu farw John yng Nghaerdydd gan adael cyfanswm o lai na £2,000. Fe aeth John a'i chwaer Frances ati i sefydlu Sefydliad y Deillion Caerdydd ym 1865.	B	Plas-y-Parc, Caerdydd 13 Plas Windsor, Caerdydd		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146642837
Shand, Milborough Batty (yng nghategori B hefyd)	1802-1875	Caerdydd	Ganed Milborough Batty Shand yn Jamaica yn un o ddeg o blant perchennog planhigfa o'r enw John Shand (1759-1825) a'i wraig cadw tŷ Frances Brown, 'menyw rydd groenliw'. (Gweler Frances Batty Shand am ragor o wybodaeth.) Fe symudodd i'r Alban a phiodi John Sandiman, llawfeddyg yn Brechin, ym 1826. Erbyn 1871 roedd hi'n wraig weddw ac yn byw gyda'i frawd John a'i chwaer Frances yn 13 Plas Windsor, Caerdydd. Bu farw yn Leamington ym 1875. Nid yw'n glir a oedd ganddi unrhyw fuddsoddiadau yn Jamaica o hyd, ond gadawodd swm o lai na £1,000.		13 Plas Windsor, Caerdydd		https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/2146642837

Enw	Dyddiadau	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Tabl coffáu	Safleoedd eraill	Dadlau hyd yma	Ffynonellau
Stennett, Enrico	1926-2011	Penmaenmawr Llandudno Gogledd Cymru	Ymgyrchydd a oedd yn brwydro yn erbyn rhagfarn hiliol ac yn cefnogi Cenhedlaeth Windrush ym Mhrydain oedd Stennett. Roedd wedi symud i'r DU o Jamaica yn 19 oed ym mis Medi 1947, cyn i genhedlaeth Windrush gyrraedd. Sefydlodd y Cosmopolitan Social Society ym 1950 i gefnogi mewnfudwyr Caribïaidd, ac roedd yn gyd-sefydlydd ac yn Gadeirydd ei holynydd, y Gynghrair Affricanaidd ym 1952, a oedd yn cefnogi dadwladychu a'r brwydrau am ryddid yn Affrica. Credir iddo sefydlu'r papur newydd cyntaf i bobl dduon ym Mhrydain, ac roedd yn aelod o'r pwyllgor a oedd yn gyfrifol am baratoi'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol gyntaf. Symudodd i ogledd Cymru yn ddiweddarach gan gefnogi Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru. Cyhoeddodd hunangofiant <i>Buckra Massa Pickney</i> a oedd yn trafod tarddiad ei rieni ar blanhigfa siwgr. Roedd yn byw ym Mhenmaenmawr a bu farw yn Llandudno yn 2011.		Ffilm fer am Stennett, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru 2019.		https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/veteran-enemy-racism-tells-story-2864935 https://llyw.cymru/dathliad-au-yng-nghymru-i-anrhydeddu-cenhedlaeth-windrush
Sullivan, Clive	1943-1985	Caerdydd	Sullivan oedd y person du cyntaf i fod yn gapten ar dîm cenedlaethol ym Mhrydain mewn unrhyw gamp. Bu'n gapten ar dîm rygbi'r gynghrair Prydain ym 1972, gan ei arwain i ennill pencampwriaethau'r byd. Cafodd Sullivan ei fagu yn y Sblot, Caerdydd a bu'n chwarae rygbi'r gynghrair yn broffesiynol i Hull. Roedd yn gapten ar dîm rygbi'r gynghrair Cymru ym 1975. Bu farw o ganser yn 42 oed, ac ailenwyd y brif ffordd i ddinas Hull yn Clive Sullivan Way er cof amdano.				https://en.wikipedia.org/wiki/Clive_Sullivan
Taylor, Cuthbert	1909-1977	Merthyr Tudful	Paffiwr proffesiynol pwysau bantam ac ysgafn o Ferthyr Tudful oedd Taylor, a ymladdodd 250 o ornestau swyddogol rhwng 1928 a 1947. Fe'i ganed yn 16 John Street, Georgetown. Roedd ei dad o dras Caribïaidd a'i fam yn Gymraes wen. Merthyr oedd ei gartref oes. Fel amatur, enillodd deitl pwysau plu y Gymdeithas Bocsio Amatur ac ef oedd y bocsiwr Du cyntaf i ymladd dros Brydain, yng Ngemau Olympaidd Amsterdam 1928 (y trydydd Olympiad Du Prydeinig mewn unrhyw gamp). Ond fel paffiwr proffesiynol, fe bechodd yn erbyn rheolau'r British Boxing Board of Control, a ddiddymwyd ym 1948 yn unig, a oedd yn mynnu bod gan baffiwr teitl 'ddau riant gwyn'. Ym 1935, cynhaliodd ornest baffio elusenol yn Lerpwl gyda'r Americanwr Freddie Miller, pencampwr pwysau ysgafn y byd, i godi arian ar gyfer teuluoedd tanchwa Gresffordd. Dadorchuddiwyd plac i'w goffáu yn 2021 yn Llysoedd Merthyr Tudful, lle arferai hyfforddi.	M			https://www.theguardian.com/world/2021/oct/30/family-of-black-boxer-barred-from-british-title-fights-call-for-apology https://boxrec.com/media/index.php/Cuthbert_Taylor https://www.merthyr-history.com/?p=3693

Enw	Dyddiadau	Ardaloedd cysylltiedig	Trafodaeth	Tabl coffáu	Safleoedd eraill	Dadlau hyd yma	Ffynonellau
Vincent , Juba	Tua 1765-?	Rhiwabon	Roedd Juba Vincent yn was i Syr Watkin Williams Wynn (1749-89) o ystâd fawr Wynnstay ger Rhiwabon. Roedd wedi'i gipio a'i orfodi i weithio fel caethwas. Fe'i bedyddiwyd yn eglwys y plwyf Rhiwabon ym 1774 a nodir iddo berfformio mewn sioeau theatr Wynn yn Wynnstay.		Wynnstay		https://blog.library.wales/sakespeare-sir-watkin-williams-wynn-and-the-theatre/ Chris Evans, 2010
Ward , Samuel Ringgold	1817-1866		Llwyddodd Ward a'i rieni i ddianc caethwasiaeth pan oedd yn blentyn bach. Fe ddaeth yn awdur pwysig, yn ymgyrchydd yn erbyn caethwasiaeth ac yn areithiwr heb ei ail. Roedd ei daith ym Mhrydain ym 1953 yn ddylanwadol iawn a bu'n areithio yng Nghymru. Gweithiodd fel ffermwr yn Jamaica yn ddiweddarach.				https://en.wikipedia.org/wiki/Samuel_Ringgold_Ward
Wells , Nathaniel (yng nghategori B hefyd)	1779 - 1852	Sant Arfan St Kitts	Roedd Nathaniel yn fab i berchennog planhigfa o'r enw William Wells a'i gaethwas Juggy, ac etifeddodd y planhigfeydd pan oedd yn ei ardegau. Fe'i haddysgwyd yn Lloegr ac fe brynodd Ystâd Piercefield ym 1802, a oedd yn elfen bwysig o daith Dyffryn Gwy. Fe ddaeth yn Siryf Sir Fynwy, cefnogodd welliannau i Eglwys Sant Arfan, ac roedd yn dad i dros 20 o blant. Fe aeth ati i gael gwared ar rai o'i blanhigfeydd caethweision yn St Kitts yn y 1820au ond fe gafodd iawndal am golli 86 caethwas yn y blanhigfa a oedd yn weddill.		Piercefield, Eglwys Sant Arfan		NDNB John Evans, 2004 https://www.ucl.ac.uk/lbs/person/view/25474
Willis	1813-tua 1880	Abertawe	Ganed Willis yn gaethwas ar blanhigfa yn America, ond llwyddodd i ddianc i lawr Afon Ohio cyn cuddio mewn llong yn New Orleans a oedd yn cludo copr o Chile i Abertawe ym 1833. Roedd y capten yn fodlon iddo weithio i dalu am ei daith, a datganwyd ei fod yn ddyn rhydd wrth gyrraedd harbwr Abertawe. Credir mai hwn yw'r dyn a oedd yn adnabyddus yn lleol am eistedd yn Northampton Lane yn Abertawe hanner can mlynedd yn ddiweddarach yn dweud wrth bobl ei fod wedi'i eni'n gaethwas.		Adnodd ysgolion: https://www.casgliadywerin.cymru/items/575531		http://www.spanglefish.com/welshblackhistorystories/index.asp?pageid=712287
Ystumllyn , John	c.1740-1786	Cricieth	Gadawodd naill ai Affrica neu India'r Gorllewin yn blentyn gyda'r teulu Wynne o Ystumllyn, lle y bu'n gweithio fel garddwr wedyn. Cyfeiriwyd ato fel John Ystumllyn neu Jac Du ac roedd yn siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl. Priododd Margaret Gruffydd yn Ynysgain a bu'n gweithio fel stiward tir yno. Fe gawson nhw saith o blant. Mae yna faen coffa rhestredig ym mynwent Ynyscynhaearn.	M	Ystumllyn		https://en.wikipedia.org/wiki/John_Ystumllyn

Mae tri digwyddiad wedi'u nodi hefyd

1919	Caerdydd Y Barri Casnewydd	Cafwyd terfysgoedd hil yn erbyn morwyr Du a'u cymunedau mewn tri phorthladd ym mis Mehefin 1919 wrth i densiynau godi oherwydd prinder swyddi ar gyfer milwyr a oedd yn dychwelyd o'r Rhyfel Mawr. Roedd trigolion Du yn eu hamddiffyn eu hunain yn eu cartrefi. Bu farw un yn y Barri a thri yng Nghaerdydd.		Neil Evans, 1980 https://journals.library.wales/view/1326508/1327456/79#?xywh=-651%2C562%2C2622%2C1605
1944	Abersychan	Fe ddaeth 130,000 o filwyr Du o America i Brydain i baratoi ar gyfer D-Day. Roedd y milwyr o America yn cael eu gwahanu ar sail hil. Roedd y Black 320th Barrage Balloon Battalion yn aros yn ardal Pont-y-pwl, gyda llawer yn aros yng Nghapel y Drindod y Methodistiaid yn Abersychan. Fe gafodd sawl menyw leol berthynas â'r milwyr, a ganwyd nifer o blant croenliw.	M	https://www.casgliadywerin.cymru/items/523728
1915	Bangor	The U-Boat Project has noted that Black African merchant seamen gave their lives as a result of U-Boat action around the Welsh coast during the First World War. Graves have been identified at Glanadda cemetery, Bangor.		https://cbhc.gov.uk/coffau-llongwyr-masnach-o-orllewin-affrica-a-fu-farw-yn-y-rhyfel-mawr/

Atodiad 3: Henebion

- 1 bai personol pendant
- 2 bai personol ansicr
- 3 heneb wedi'i thynnu / personau o ddiddordeb heb eu coffáu / ddim ar fai

Sylwer: Nid yw'r wybodaeth am berchnogaeth yn gyflawn eto

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Portread o'r Gwir Anrhydeddus Arglwydd Aberdâr, Y Plasty, Caerdydd	Bruce , Henry Austin (Arglwydd Aberdâr)	E	Caerdydd	Cyngor Caerdydd	Amherthna sol	Mae cerflun yng Nghaerdydd yn ymddangos ar wefan 'Topple the Racists'	2	Portread o Henry Austin Bruce yn y Plasty yng Nghaerdydd. Arlunydd: Barnett Samuel Marks Dehongliad: anhysbys	
Cerflun yr Arglwydd Aberdâr, Gerddi Alexandra, Caerdydd	Bruce , Henry Austin (Arglwydd Aberdâr)	E	Caerdydd	Cyngor Caerdydd (rhagdybir)	Rhestredig II	Yn ymddangos ar wefan Topple the Racists.	2	Ariannwyd cerflun gan danysgrifiad cyhoeddus yn union ar ôl marwolaeth yr Arglwydd Aberdâr, ac fe'i codwyd ym 1898. Bu'n sefyll dros dro ger gorsaf Heol y Frenhines cyn ei symud i'w safle parhaol yng Ngerddi Alexandra yng nghanol Parc Cathays ym 1914, lle mae'n edrych tuag at brif fynedfa Prifysgol Caerdydd. Mae'n dangos yr Arglwydd Aberdâr yn gwisgo gŵn academiaidd. Mae'r plinth yn datgan yn syml 'Henry Austin Lord Aberdare GCB Born 1815, Died 1895'. Arlunydd: Herbert Hampton, 1898 Dehongliad o'r safle: anhysbys.	https://www.vads.ac.uk/digital/collection/PMSA/id/1015/rec/1
Cerflun yr Arglwydd Aberdâr, yr Hen Goleg Aberystwyth	Bruce , Henry Austin (Arglwydd Aberdâr)	E	Ceredigion	Prifysgol Aberystwyth	Rhestredig I fel rhan o'r Hen Goleg	Mae'r cerflun yng Nghaerdydd yn ymddangos ar wefan 'Topple the Racists'	2	Castin o'r cerflun yng Nghaerdydd. Yr Arglwydd Aberdâr oedd Llywydd cyntaf y brifysgol yn Aberystwyth o 1875 hyd ei farwolaeth. Saif y cerflun yng nghwadrangl yr Hen Goleg Fictoriaidd-Gothig, lle y gosodwyd to ym 1893. Mae arysgrif ddwyieithog yn dweud: 'Y gwir anrhydeddus HENRY AUSTIN BARWN ABERDÂR, 1815-1895, Llywydd cyntaf y coleg 1875 hyd 1895, Canghellor cyntaf Prifysgol Cymru.' Arlunydd: Herbert Hampton, 1899 Dehongliad o'r safle: anhysbys	https://www.vads.ac.uk/digital/collection/PMSA/id/1015/rec/1

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Plac glas Henry Bruce	Bruce , Henry Austin (Arglwydd Aberdâr)	E	Rhondda Cynon Taf	Cyngor Bwrdeistref Ceredigion	Amherthna sol	Mae'r cerflun yng Nghaerdydd yn ymddangos ar wefan 'Topple the Racists'	2	Mae'r plac wedi'i osod y tu mewn i Ysgol Gyfun Aberpennar, sydd ar safle cartref Bruce, Tŷ Dyffryn. 2012	https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-20194030
Cofadail Bulkeley, Biwmares	Bulkeley	A	Ynys Môn	Preifat	Rhestredig II		3	Obelisg i Syr Richard Bulkeley Williams Bulkeley (1801-75) o Baron Hill. Roedd yn gefnder i'r aelod o deulu Bulkeley a oedd yn ymwneud â'r fasnach mewn caethweision. 1875 Dehongliad o'r safle: anhysbys	
Cerflun o Betty Campbell, sgwâr y BBC/Gorsaf Ganolog, Caerdydd	Campbell , Betty	G	Caerdydd	Cyngor Caerdydd (rhagdybir)	Amherthna sol		3	Mae penddelw efydd real o Betty Campbell, sy'n llawer mwy na'i wir faint, yn awgrymu canopi coeden. O amgylch y boncyff mae criw o blant gwir faint yng ngwisgoedd y 1960au. Mae datganiad dwyieithog gan Betty Campbell wedi'i gastio ar fongorff y goeden sy'n tyfu allan o ddiorama o strydoedd Caerdydd. Mae'r cerflun yn sefyll oddeutu 4m ar blinlith carreg gyferbyn ag adeilad y BBC yng nghanol y brifddinas. Cafodd ei greu gan ymgyrch Monumental Welsh Women, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a llu o noddwyr. Dyma'r cerflun cyntaf o berson croenliw a enwir yng Nghymru. Artist: Eve Shepherd, 2021 Dehongliad safle: Cod QR ar blinlith	
Plac yng Nghapel Methodistiaidd y Drindod, Abersychan	DIGWYDDIAD	G	Torfaen	Yr Eglwys Methodistiaidd yng Nghymru	Amherthna sol		3	Gosodwyd plac coffa yng Nghapel Methodistiaid y Drindod yn Abersychan yn 2016 fel rhan o gyfres deledu'r BBC <i>Black and British</i> a gyflwynwyd gan David Olusoga. Mae'r plac dwyieithog yn dweud: 'Er cof am filwyr America o dras Affricanaidd oedd wedi'u lleoli yn ardal Pont-y-pŵl yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Prosiect BBC History.' Dehongliad o'r safle: anhysbys	https://www.casgliadywerin.cymru/items/523728

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Cerflun Gandhi, Rhodfa Lloyd George, Bae Caerdydd	Gandhi , Mohandas K (Mahatma)	E	Caerdydd		Nac ydy	Mae deiseb i gael gwared ar gerflun tebyg yng Nghaerlŷr yn 2020 wedi denu 5000 o lofnodion, gan gyhuddo Gandhi o fod yn 'ffasgydd, yn hiliol ac yn ysglyfaethwr rhywiol'. Bu myfyrwyr ym Mhrifysgol Manceinion yn protestio yn erbyn cerflun i'w dynnu i lawr yn 2019 gan ddefnyddio'r hashnod #GhandiMustFall. Heb ei gynnwys ar wefan Topple the Racists.	2	Cerflun efydd maint llawn ar blinrh a gafodd ei ariannu gan Gyngor Hindŵiaid Cymru a'i wneud yn India gan y cerflunydd Ram Sutar a'i fab Anil. Mae'n gerflun ffigurol o Gandhi yn ystod ei gyfnod fel arweinydd mudiad annibyniaeth India. Fe'i dadorchuddiwyd gan or-ŵyr Gandhi, a deithiodd o Dde Affrica i fynychu'r digwyddiad, gyda Carwyn Jones, Mark Drakeford a diplomyddion India. Mae plac marmor ar y gwaelod yn dweud: 'Dulliau di-drais yw grym mwyaf pwerus y ddynoliaeth. Y mae'n fwy nerthol na'r arf fwyaf ddinistriol a grëwyd drwy ddyfeisgarwch dyn.' Dyluniwyd gan: Ram Sutar ac Anil Sutar, 2017 Dehongliad o'r safle: anhysbys	https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-41469711 https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-leicestershire-53025407
Cerflun Gladstone, Penarlâg	Gladstone , William	E	Sir y Fflint		Rhestredig II	Mae cerfluniau o Gladstone ledled y DU, gan gynnwys y cerflun ym Mhenarlâg, yn ymddangos ar wefan Topple the Racists	2	Cerflun efydd ar bedestal uchel. Mae pedwar ffigur efydd ar yr ochrau yn portreadu dysgu clasurol, cyllid, huodledd ac Iwerddon, sy'n cynrychioli rhinweddau a chyflawniadau ymddangosiadol Gladstone fel ysgolhaig, Canghellor y Trysorlys, areithiwr cyhoeddus a hyrwyddwr annibyniaeth i Iwerddon. Comisiynwyd y cerflun gan Gronfa Goffa Genedlaethol Gladstone a sefydlwyd ym 1898, a'r bwriad gwreiddiol oedd gosod y cerflun yn Nulyn, ond fe'i codwyd ym Mhenarlâg ar ôl iddo gael ei wrthod gan gorfforaeth Dylun nes bod cerflun o Parnell wedi'i osod. Arlunydd: John Hughes Dehongliad o'r safle: anhysbys	

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Ffynnon Goffa Gladstone, Penarlâg	Gladstone , William	E	Sir y Fflint		Rhestredig II	Topple the Racists	2	Ffynnon wedi'i cherfio mewn carreg ar sail cynllun trionglog. Ceir portreadau cylchig o William Gladstone a'i wraig Catherine, ac mae'r ysgrif ganlynol i'w gweld ar yr ochr arall: 'DRINK YE / THE WATER / OF LIFE 1839 1889 This Fountain was erected by Parishioners of Hawarden, In Commemoration of the golden wedding of William Ewart Gladstone, and Catherine Gladstone, 25 July 1889. as a slight token of the admiration and affection inspired by residence of fifty years' Dylunydd: Edward Griffith, 1890 Cerflun neu ben newydd Catherine, 1935, Donald Hastings Dehongliad o'r safle: anhysbys	
Heneb Gladstone Penmaenmawr	Gladstone , William Ewart	E	Conwy		Rhestredig II	Topple the Racists	2	Ymwelodd Gladstone a'i deulu â Phenmaenmawr yn aml, ac agorodd Ffordd Paradwys, lle mae'r heneb wedi'i gosod, yn swyddogol ychydig cyn ei farwolaeth. Mae penddelw maint llawn o Gladstone wedi'i gosod ar golofn wenithfaen fer mewn gardd flodau drionglog. Cafodd y benddelw wreiddiol ei dwyn ym 1977 a gosodwyd un newydd ym 1991 yn dilyn tanygrifiad cyhoeddus. Mae'n cynnwys arysgrif sy'n nodi dyddiadau Gladstone 1809-1898 a'r geiriau 'Stateman, Orator, Scholar' ac 'Erected by Public Subscription 1899' Artistiaid: Albert Toft, 1896 Peter London, 1991 Dehongliad o'r safle: anhysbys	https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=cy&id=16515

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Plac i Syr Benjamin Hammet, Pont camlas Castell Malgwyn	Hammet, Benjamin	B	Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro a phernogion preifat.	Rhestredig a Chofrestredig		2	Fe'i lleolir ar bont dros y gamlas a gloddiwyd gan Hammet i gysylltu ei waith tunplat ag afon Teifi ym 1799. Mae'r bwa ar bob ochr yn cynnwys plac haearn sy'n dweud 'Sir Benj Hammet 1799' gyda phâr o ganonau wedi'u croesi a phlasty castellog. Mae'n bosibl na ddylid ystyried y plac yn blac coffáu gan fod Hammet wedi'i osod ei hun fel arwyddlun neu ddynodwr eiddo. 1799	
Plac ar gyfer Syr Benjamin Hammet ym Mhont Hammet, Heol Melin Garnon	Hammet, Benjamin	B	Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro a phernogion preifat.			2	Mae'r plac yn dweud: 'Hammet Bridge was erected and Garnons Mill Road made at the sole expense of Sir Benjamin Hammet Knt. Opened 21 August 1800'. Efallai nad yw'n cael ei ystyried yn blac coffaol, gan mae'n debyg mai Hammet ei hun wnaeth drefnodd i'w gastio cyn ei farwolaeth ym mis Gorffennaf 1800.	
Plac glas Christopher Hatton, Llanandras	Hatton, Christopher	A	Powys	PA Llanandras	Amherthna sol		2	Plac glas ar dafarn y Radnorshire Arms yn Llanandras, sef hen dŷ Syr Christopher Hatton.	
Plac glas Iolo Morganwg, Llanccarfan	Iolo Morganwg (Edward Williams)	E	Bro Morgannwg	Cymdeithas Llanccarfan ar ym 1800	Amherthna sol		3	Dadorchuddiwyd ym mis Mawrth 2020 ar fyngalo sy'n sefyll ar safle geni Iolo. Fe'i gosodwyd yn dilyn ymarferiad cyllido torfol gan Gymdeithas Llanccarfan, a gododd £640 gan 24 o bobl. Mae'r testun dwyieithog yn cyfeirio at Iolo fel 'Y Bardd Rhyddid' Dehongliad o'r safle: anhysbys	http://www.cowbridge-today.co.uk/article.cfm?id=131730&headline=lolo%27s%20Llanccarfan%20birthplace%20gets%20a%20Blue%20Plaque&sectionls=news&searchyear=2020
Plac coffa Iolo Morganwg, y Bont-faen	Iolo Morganwg (Edward Williams)	E	Bro Morgannwg	Cyngor Tref y Bont-faen	Amherthna sol		3	Plac marmor yn y Gymraeg wedi'i osod ar wal y siop yn y Bont-faen a oedd yn eiddo i Iolo. Dehongliad o'r safle: anhysbys	
Portread o Iago I, Neuadd y Dref Dinbych	Iago I	A?	Sir Ddinbych	Cyngor Tref Dinbych	Amherthna sol		3	Portread cynnar o'r Brenin Iago I. Arlunydd: anhysbys Dehongliad o'r safle: anhysbys	

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Tapestri Glaniad y Ffrancod, Abergwaun	Knox, William	B	Sir Benfro	Ymddiriedolaeth Canolfan Glaniad y Ffrancod Abergwaun	Amherthna sol		3	Crëwyd y tapestri i nodi deucanmlwyddiant glaniad y Ffrancod yn Abergwaun gan Gymdeithas y Celfyddydau Abergwaun fel gwaddol parhaol o'r Dathliadau Deucanmlwyddiant. Fe'i dyluniwyd i efelychu Tapestri Bayeux gan Elizabeth Cramp, gyda chymorth y cyngorwyr brodwaith Rozanne Hawksley, Eirian Short ac Audrey Walker a 77 o wirfoddolwyr. Mae'r tapestri yn darlunio rôl Thomas Knox ond nid ei dad, William. Dylunydd: Elizabeth Cramp, 1997 Dehongliad o'r safle: anhysbys	https://lastinvasiontapestry.co.uk/
Tir caeedig Llanilltud Gŵyr, Gŵyr	Miles, John	B	Abertawe	Undeb Bedyddwyr Cymru	Cofrestredig GM158		1	Tir caeedig o amgylch adfeilion capel Sant Cenydd, Llanilltud Gŵyr, gyda cholofn garreg â llyfr agored arni. Fe'i dadorchuddiwyd gan Lloyd George ym 1928. Mae'r llechen yn nodi: 'Gorau cof, crefydd. To Commemorate the Foundation in this valley, of the First Baptist Church in Wales 1649-60 and to honour the Memory of its Founder John Myles. This Ruin is the site of the Pre-Reformation Chapel of Trinity Well, And is claimed by tradition as a meeting place of the above Cromwellian Church. This Memorial has been erected with the permission of Admiral A. W. Heneage-Vivian, C.B., M.V.O., and was unveiled by the Right Hon. D. Lloyd George, M.P., O.M., 13th June, 1928.' Dylunydd: anhysbys, 1928 Dehongliad o'r safle: nid yw'r llechen yn sôn am deithio i America na chaethwasiaeth	http://daibach-welldigger.blogspot.com/2012/03/john-miles-and-welsh-pilgrim-fathers.html
Y Teulu Morgan, Tŷ Tredegar	Teulu Morgan	A	Casnewydd	Cymdeithas Ddinesig Casnewydd	Amherthna sol		3	Plac glas yn Nhŷ Tredegar yn datgan: 'For 500 years until 1951 the ancestral home of the Morgans of Tredegar. Listed grade I as one of the finest Restoration houses in Britain. Now in the care of Newport City Council.	

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Llechen goffa'r brodyr Morris, ger Brynrefail, A5025	Morris	A	Ynys Môn	Preifat?	Nac ydy		3	Cofeb i dri o'r brodyr Morris, ond mae'n hepgor John. Llechen gerfiedig wedi'i gosod ar risiau cerrig sy'n arwain at gamfa. Wedi'u gosod ar y fferm lle cawsant eu magu, gan Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion. Dehongliad o'r safle: anhysbys	
Cofeb y Brodyr Morris, Dulas, Moelfre	Morris, John	A	Ynys Môn	Preifat?	Rhestredig Gradd II		1	Croes Geltaidd wedi'i gwneud o wenithfaen gwyn tua 2m o uchder ar frigiad muriog o fewn fferm Pentre Eirianell, lle magwyd y brodyr Morris enwog, gan gynnwys John, morwr i Gwmni Dwyrain India. Mae siafft y groes yn cynnwys panel sy'n darlunio llong hwylio a chreadur y môr; mae hwyylbren y llong wedi'i haddurno â delwedd o lyfr agored. Mae arysgrifau hir dwyieithog ar dair ochr y gwaelod i 'FRODYR MORRIS PENTREIRANELL PENRHOSLLIGWY / LEWIS / RICHARD / WILLIAM / JOHN / PEDWAR BRAWD GWLADGAR HIL Y CYMRIC.' Dylunydd: anhysbys, 1910 Dehongliad o'r safle: anhysbys	https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=cy&id=80866
Cerflun Lewis Morris, Adeilad y Celfyddydau Prifysgol Bangor, Bangor	Morris, John	A	Gwynedd	Prifysgol Bangor	Rhestredig I		3	Mae sawl cerflun wedi'i gosod ym mhrif adeilad Prifysgol Bangor. Mae cerflun Lewis Morris wedi'i lleoli mewn cilfach ar ben talcen Neuadd Goffa Prichard Jones. Mae Morris yn dal ei offer tirlfesur, map a chwmpawdau. Nid oedd Lewis Morris ei hun yn ymwneud â'r fasnach gaethwasiaeth, ond ymddengys fod ei frawd John a dau o'i feibion wedi ymwneud â hi. 1911 Dehongliad o'r safle: anhysbys	https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=cy&id=3963

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Pobl Fel Ni, Mermaid Quay	AMHERTHNAS OL	G	Caerdydd	Cyngor Caerdydd Dinas (rhagdybir)	Nac ydy		3	Cerflun ffigurol o ddyn a menyw yn ymlacio gyda'u ci ar y rheiliau ar lan y dŵr ym Mae Caerdydd. Yr unig heneb yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n darlunio unigolion croenliw, er bod y pâr sy'n cael eu dangos yn gymeriadau ffuglen. Fe'i dyluniwyd i gynrychioli pobl a diwylliant Butetown / Tiger Bay. Mae'n un o'r cerfluniau mwyaf poblogaidd o blith nifer ym Mae Caerdydd. Arlunydd: John Clinch, 1993 Dehongliad o'r safle: dim	
Heneb Nelson (Tŵr Paxton), Llanarthne	Nelson, Horatio	C	Sir Gaerfyrddin	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Rhestredig Gradd II*	Mae henebion Nelson yn ymddangos ar wefan 'Topple the Racists' ac maent wedi'u trafod yn y wasg.	2	Cyfeirir at dŵr Paxton fel Heneb Nelson hefyd. Roedd yn felfedir a adeiladwyd gan William Paxton i addurno ystâd Middleton, a ddyluniwyd gan S. P. Cockerell. Codwyd yr heneb gan Paxton yn fuan ar ôl marwolaeth Nelson yn Trafalgar, ac mae wedi'i chysegru iddo. Roedd yn cynnwys arysgrifau yn wreiddiol nad ydynt wedi goroesi: 'To the invincible Commander, Viscount Nelson, in commemoration of the deeds before the walls of Copenhagen, and on the shores of Spain; of the empire every where maintained by him over the Seas; and of the death which in the fullness of his own glory, though ultimately for his own country and for Europe, conquering, he died; this tower was erected by William Paxton.' Gan nad yw'r arysgrif wedi goroesi, mae'n bosibl nad yw'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn ymwybodol o'r cysylltiad â Nelson. Dylunydd: De P. Cockerell, tua 1805 Dehongliad o'r safle: anhysbys; Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cyfeirio at y ffaith bod yr heneb wedi'i chysegru i Nelson	https://www.nationaltrust.org.uk/features/fe-el-on-top-of-the-world-at-paxtons-tower-

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Cerflun Nelson, Portmeirion	Nelson, Horatio	C	Gwynedd	Ymddiriedolaeth Portmeirion	Rhestredig Gradd II	Mae cerfluniau eraill o Nelson yn ymddangos ar wefan 'Topple the Racists' ac maent wedi'u trafod yn y wasg.	2	Cerflun sydd wedi ei leoli yn union o flaen Tŵr yr Arsyllfa wrth ymyl yr aber ym mhen pellaf deheuol pentref Portmeirion, sef y casgliad enwog o adeiladau Eidalaidd a grëwyd gan Syr Clough Williams-Ellis ym Mhenrhyndeudraeth sy'n atyniad poblogaidd i dwristiaid erbyn hyn. Mae'n gerflun cymharol gyntefig, maint llawn o Nelson a fwriwyd mewn carreg wedi'i malu a'i pheintio. Fel llawer o eitemau ym Mhortmeirion, roedd yn wrthrych a ganfuwyd, ac fe'i rhoddwyd i Clough gan Syr Michael Duff. Arlunydd: anhysbys, canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o bosibl Dehongliad o'r safle: anhysbys	https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=cy&id=4895
Sedd yr Arglwydd Nelson a Gardd Nelson, Trefynwy	Nelson, Horatio	C	Mynwy	Preflat	Rhestredig Gradd II*	Mae henebion eraill i Nelson yn ymddangos ar wefan 'Topple the Racists' ac maent wedi'u trafod yn y wasg.	2	Logia a sedd mewn gardd a oedd yn eiddo i Faer Trefynwy ar un adeg, lle y mynychodd Nelson a'r Foneddiges Hamilton arddwest ym 1802. Credir bod y logia wedi'i adeiladu tua 1840. Mae mainc yn cynnwys cadair a oedd wedi'i symud o'r tŷ ar gyfer Nelson gyda llechen sy'n datgan: 'Lord Nelson's Seat, August XIX MDCCCII'. Mae'r ardd yn agored i'r cyhoedd bob prynhawn Gwener yn yr haf. Fe'i hadferwyd ar ôl 1996 gyda chymorth Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru drwy Bwyllgor Ymddiriedolaeth Diogelu Gardd Nelson, a gymerodd brydles gan y perchnogion ar y pryd, Banc Lloyds. Amgueddfa Nelson sy'n gyfrifol am drefnu mynediad i'r ardd erbyn hyn. Dehongliad o'r safle: anhysbys	https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=cy&id=2290 https://en.wikipedia.org/wiki/Nelson_Garden https://www.visitmonmouthshire.com/Monmouth-Nelson-Garden/details/?dms=3&venue=1164560

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Teml y Llynges, Y Cymin	Nelson , Horatio Jervis , John Rodney , George Bridges	C C C	Sir Fynwy		Rhestredig Gradd II Cofeb rhyfel	Mae henebion Nelson yn ymddangos ar wefan Topple the Racists ac maent wedi'u trafod yn y wasg.	2	Adeiladwyd y deml i anrhydeddu buddugoliaeth y Llynges ym Mrwydr y Nile. Mae'n cynnwys placiau i bob un o'r 16 Llyngesydd a oedd wedi arwain buddugoliaethau eraill y Llynges yn ystod Rhyfeloedd Napoleon. Mae pump yn bersonau o ddiddordeb. Ymwelodd Nelson â'r Deml ei hun ym 1802. Is-Lyngesydd Charles Thompson Dirprwy Lyngesydd Adam Duncan Is-Lyngesydd Edward Boscawen Llyngesydd Samuel Hood (1724-1816)Llyngesydd Howe Llyngesydd John Warren Llyngesydd John Warren Llyngesydd Yr Arglwydd Nelson Llyngesydd y Llynges John Jervis Is-Lyngesydd George Rodney Llyngesydd Hawke Is-Lyngesydd Syr Alexander Hood Is-Lyngesydd William Cornwallis Llyngesydd Hyde Parker (1739-1807) Llyngesydd George Elphinstone Llyngesydd Andrew Mitchell Dylunydd: anhysbys, 1800 Dehongliad o'r safle: anhysbys Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn bwriadu cau'r safle.	https://www.nationaltrust.org.uk/cy_gb/the-kymin/features/darganfyddwch-deml-y-lynges-yn-y-cymin--
Plac glas ar safle'r Blue Ball Inn, Dinbych-y-pysgod	Nelson , Horatio	C	Sir Benfro		Amherthna sol	Mae henebion Nelson yn ymddangos ar wefan 'Topple the Racists' ac maent wedi'u trafod yn y wasg.	2	Plac glas yn dweud: 'Site of the Blue Ball Inn. Admiral Lord Nelson with Sir William and Lady Hamilton in 1802 attended a performance in its "Fit Up" theatre.'	

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Plac glas East Rock House, Dinbych-y-pysgod	Nelson, Horatio	C	Sir Benfro	Cymdeithas Dlineseig Dinbych-y-pysgod	Amherthna sol	Mae henebion Nelson yn ymddangos ar wefan 'Topple the Racists' ac maent wedi'u trafod yn y wasg.	2	Plac glas i Nelson ar eiddo yn Ninbych-y-pysgod yn nodi'r ffaith bod Nelson wedi aros yno gyda Syr William Hamilton a'r Foneddiges Hamilton ym 1802.	
Cerflun Nelson, Afon Menai	Nelson, Horatio	C	Ynys Môn	Y Weinyddiaeth Amdiffyn	Rhestredig Gradd II Marciwr ar siartiau mordwyo	Topple the Racists. Bu trafodaeth am Golofn Nelson yn Sgwâr Trafalgar, ond nid oes unrhyw sylw wedi'i roi i'r cerflun ger Afon Menai.	2	Cerflun tair gwaith maint llawn wedi'i leoli ar graig sy'n estyn allan i Afon Menai islaw Eglwys y Santes Fair ac yn agos at Lwybr Arfordir Cymru. Dim ond pan fydd y llanw yn isel y gellir cyrraedd y graig. Cafodd ffigur concrit Nelson sy'n wynebu'r Fenai ei gerflunio gan Paget ar ei dir ei hun ym 1873 ac mae'n sefyll ar blinth carreg gyda balwstrad. Mae'r cyfan tua 10m o uchder. Mae'r gair 'NELSON' yn ymddangos ar y gwaelod. Mae'r llechi bob ochr i'r plinth yn dweud 'FELL / AT / TRAFALGAR / 1805 ac A LADDWYD / YN / TRAFALGAR / 1805' ac mae'r un sy'n wynebu'r dŵr yn dweud 'ENGLAND EXPECTS THAT EVERY MAN WILL DO HIS DUTY'. Yr Arglwydd Clarence Paget, 1873 Dehongliad o'r safle: dim	https://www.theguardian.com/commentisfree/2017/aug/22/toppling-statues-nelsons-column-should-be-next-slavery
Cofadail Cadfridog Nott, Caerfyrddin	Nott, William	E	Sir Gaerfyrddin	Cyngor Sir Caerfyrddin (Lloeddol)	Rhestredig Gradd II	Topple the Racists	2	Dywedwyd bod cerflun wedi'i fwrw gan ddefnyddio canon a gipiwyd ym mrwydr Maharajpur. Fe'i cyflwynwyd gan yr East India Company. Cafwyd rhodd o 200 gini gan y Frenhines Fictoria tuag at y gronfa goffa. Mae arysgrif yn dweud: 'NOTT, Born 20th January, 1782, Died 1st January, 1845'. Arlunydd: Edward Davies, 1851 Dehongliad o'r safle: anhysbys	

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Portread o'r Cadfridog Nott, Neuadd y Dref Caerfyrddin	Nott , William	E	Sir Gaerfyrddin	Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin	Amherthna sol	Mae cerflun o Nott yng Nghaerfyrddin yn ymddangos ar wefan Topple the Racists.	2	Mae portread o'r Cadfridog Nott i'w weld yn Neuadd y Dref Caerfyrddin. Mae'n dangos Nott adeg ei ymddeoliad, yn edrych tua'r gorffennol yn hytrach na'r dyfodol. Mae'n sefyll yn llonydd gyda'i gleddyf a'r wain ar draws ei fraich a'i het ar y ddaear wrth ei ymyl. Mae wedi'i osod mewn tirwedd sy'n awgrymu India. Mae'n rhaid bod y portread wedi'i gwblhau'n ar ôl ei farwolaeth. Roedd Brigstocke yn un o brif ddarlunwyr portreadau y cyfnod Fictoraidd, ac roedd yng nghanol ei dridegau pan dderbyniodd y comisiwn hwn. Arlunydd: Thomas Brigstocke, 1845 Dehongliad o'r safle: anhysbys	
Plac Jones ac Owen, y Trallwng	Owen , Robert	C	Powys	preifat	Ar adeilad rhestredig		2	Plac efydd yn nodi hanes hen dŷ Gilbert ac Ann Jones, a ddaeth yn eiddo i Robert Owen yr hynaf a Robert Owen wedyn, cyn troi'n dafarn y Coach and Horses ac yna'r Coach Chambers. Ailfodelwyd yr adeilad yn helaeth yn y 1830au. Dehongliad o'r safle: dim	
Plac tŷ Robert Owen, Y Drenewydd	Owen , Robert	C	Powys	?	Nac ydy		2	Plac syml yn nodi safle'r tŷ lle cafodd 'Robert Owen ("social reformer") ei eni a lle y bu farw Dehongliad o'r safle: dim	
Llechen ar amgueddfa Robert Owen, Y Drenewydd	Owen , Robert	C	Powys	Amgueddfa Robert Owen	Adeilad Rhestredig Gradd II		2	Llechen ar Amgueddfa Robert Owen yn arddull y Celfyddydau a Chrefftiau yn y Drenewydd gyda phwti wrth yr ochrau. Dylunydd: Frank Hearn Shayler, 1902 Dehongliad o'r safle: anhysbys; cyfleoedd yn yr Amgueddfa i adrodd stori fwy llawn Owen	https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=cv&id=8029

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Plac coffa Robert Owen, siop Argos, Stryd Wesley, Y Drenewydd	Owen, Robert	C	Powys	Preifat	Nac ydy		2	Plac efydd 1.4m sgwâr wedi'i osod mewn gwaith brics ar ochr Stryd Wesley o siop Argos, gan greu basgerflun cynrychioliadol o Owen yn gwarchod dau o blant o dan ei glogyn a golygfa o'r Drenewydd ac Eglwys y Santes Fair. Mae'r testun castin o dan y plac yn dweud 'Newtown's Robert Owen (1771-1858), / enlightened employer at New Lanark, built schools and inspired the co-operative / movement. From the cradle of Montgomeryshire to teach the world.' Fe'i dyluniwyd gyda chydweithrediad Cymdeithas Ddinesig y Drenewydd ac Amgueddfa Goffa Robert Owen ac fe'i cefnogwyd gan elusen Davies. Arlunydd: Barry Davies, 2000 Dehongliad o'r safle: dim	
Cerfwedd Robert Owen, Stryd y Bont Fer, Y Drenewydd	Owen, Robert	C	Powys	Cyngor Tref y Drenewydd?			2	Cerfwedd ar y wal y tu ôl i gerflun Robert Owen yn y Drenewydd yn dangos gweithwyr amaethyddol a gweithwyr ffatri a'r testun 'Robert Owen, pioneer social reformer and philanthropist, 1771-1858'. Artistiaid: Gilbert William Bayes a William Charles Holland King, 1956 mwy na thebyg Dehongliad o'r safle: anhysbys	https://artuk.org/discover/artworks/robert-owen-17711858-272000/view_as/grid/search/keyword:bayes--work_type:sculpture/page/1
Beddrod Robert Owen, Eglwys y Santes Fair, Y Drenewydd	Owen, Robert	C	Powys	Cyngor Tref y Drenewydd	Rhestredig Gradd II*		2	Beddrod Owen yn hen fynwent Eglwys y Santes Fair, sydd bellach yn erddi cyhoeddus wrth ymyl yr eglwys sy'n adfail ers 1856. Amgylchynwyd y bedd ei hun gan heneb fwy o ran maint gan Alfred Toft ym 1902, a oedd yn cynnwys rheiliau celf nouveau addurniadol, ffris panel efydd yn portreadu gweithwyr a phortread hirgrwn o Owen. Mae plac o dan y beddrod yn nodi bod Ann Clwyd AS wedi dadorchuddio'r gwaith adfer ym 1993. Dehongliad o'r safle: mae'r panel yn ymdrin â hanes yr eglwys a hanes Owen ond nid caethwasiaeth	https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=cy&id=8154

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Cerflun Robert Owen, Stryd y Bont Fer, Y Drenewydd	Owen, Robert	C	Powys	Cyngor Tref y Drenewydd?			2	Cerflun rhamantaidd a sensitif maint llawn o Robert Owen gyda phlentyn yn cysgodi wrth ei draed. Ystyriwyd codi cofeb yn fuan ar ôl marwolaeth Owen, a sefydlwyd cronfa i'w chodi. Fodd bynnag, fe'i gwrthwynebwyd gan 'dadau' tref y Drenewydd gan fod Owen yn anffyddiwr. Sefydlwyd pwyllgor yn y Drenewydd i godi cerflun ym 1950. Comisiynwyd Gilbert Bayes i wneud y cerflun a derbyniwyd arian gan yr Undeb Cydweithredol. Dechreuodd Gilbert Bayes y prosiect ond bu farw ym 1953. Ar ôl ei farwolaeth fe'i cwblhawyd gan W. C. H. King. Mae'n anodd gwybod ai gwaith Bayes neu King oedd y panel wal. Dadorchuddiwyd y cerflun a'r panel ym mis Ebrill 1956 gan Gadeirydd y Gymdeithas Cyfanwerthu Cydweithredol. Codwyd castin arall o'r cerflun ym Manceinion ym 1994. Artistiaid: Gilbert William Bayes a William Charles Holland King, 1956 Dehongliad o'r safle: anhysbys	https://artuk.org/discover/artworks/robert-owen-17711858-272000/view_as/grid/search/keyword:bayes--work_type:sculpture/page/1
Gatiau coffa Robert Owen, Eglwys y Santes Fair, Y Drenewydd	Owen, Robert	C	Powys	Cyngor Tref y Drenewydd?			2	Roedd y gatiau i Eglwys y Santes Fair, y Drenewydd, yn rhodd gan blant Robert Owen er cof am eu tad. Mae'r gatiau'n syml ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw goffâd penodol, ond mae plac amlwg ar golofn y gât yn dweud 'These gates were presented by the children of Robert Owen in 1858'. Credir bod y gatiau wedi'u rhoi gan fab Robert Owen, y rhyddfrefiniad Dale Owen. Dehongliad o'r safle: mae'r panel yn ymdrin â hanes yr eglwys a hanes Owen ond nid caethwasiaeth	

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Plac Thomas Phillips, Aberhonddu	Phillips , Thomas (tua 1665-1713)	A	Powys	Cyngor Tref Aberhonddu	Amherthna sol	Achosodd y plac lawer o ddadlau yn lleol ac fe'i cymerwyd	3	SYMUDWYD YN 2020 Plac a osodwyd yn 2010 gan Gyngor Tref Aberhonddu ar Lwybr Cerdded y Capten yn Aberhonddu, lle y credir bod Philips yn arfer mynd am dro ar ôl ymddeol o'r môr. Roedd y plac yn cofnodi bod Phillips wedi ysgrifennu am fordaith y llong Hannibal i Affrica a Barbados ond nid am ddiben y fordaith na'r digwyddiadau ofnadwy. Cytunodd y Cyngor i'w adolygu yn 2020 ond fe'i symudwyd yn ddienw ac nid yw ei leoliad presennol yn hysbys. Dehongliad o'r safle: dim	https://www.brh.org.uk/site/articles/should-society-memorialise-a-slave-trader/ http://www.brecon-radnor.co.uk/article.cfm?id=112444&headline=Controversial%20plaque%20commemorating%20Brecon%27s%20links%20to%20slave%20trader%20is%20removed%20ahead%20of%20review&sectionIs=news&searchyear=2020

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Cerflun Picton, Neuadd y Ddinas Caerdydd	Picton , Thomas	B	Caerdydd		Rhestredig Gradd I fel rhan o Neuadd y Ddinas	Yr heneb fwyaf dadleuol yng Nghymru. Mae'n ymddangos ar wefan Topple the Racists ac mae wedi cael sylw parhaus yn y wasg. Ar 23 Gorffennaf 2020, pleidleisiodd Cyngor Dinas Caerdydd i'w symud a chafodd ei focsio o'r golwg. Rhoddwyd Caniatâd Adeilad Rhestredig i'w symud yn barhaol yn amodol ar ddatganiad dull addas.	1	Adeiladwyd Neuadd y Ddinas ym 1901-4 gan Lanchester, Stewart a Rickards fel canolbwynt Parc Cathays. Roedd ei harddull glasurol goffaol yn cyfleu safle Caerdydd fel un o brifddinasoedd yr Ymerodraeth. Roedd y tu mewn moethus yn cynnwys gofod gorymdeithiol y Neuadd Farmor, a oedd yn cynnwys lle ar gyfer grŵp o gerfluniau. Adeiladwyd y sylfeini ond ni chomisiynwyd unrhyw gerfluniau am ddegawd arall, yn dilyn cynnig gan D. A. Thomas i'w hariannu. Roedd 11 cerflun maint mwy na maint llawn wedi'u creu gan gerflunwyr gwahanol ond wedi'u gwneud o'r un math o farmor. Fe gawsant eu dadorchuddio gan Lloyd George ym 1916. Mae cerflun Picton yn wynebu un o'r grisau ac mae'n ei bortreadu yn gwisgo dillad milwrol fel pe bai mewn brwydr. Cynlluniwyd y grŵp fel 'a National Valhalla of Welsh Notables'. Roedd y gystadleuaeth ym mhapur newydd y <i>Western Mail</i> ym 1913 yn gofyn i'r cyhoedd enwebu'r 'most eminent Welshmen or Welshwomen' mewn hanes cyn 1837. Enwebwyd 250 o wrthrychau gan 364 o ymgeiswyr, ac fe gawsant eu beirniadu er mwyn sicrhau cydbwysedd o ran 'nodweddion a dyheadau Cymreig'. Dewiswyd Picton i gynrychioli 'Dewrder a Chadlywyddiaeth' ar ôl ennill 49 pleidlais, ychydig yn llai na'r 10 uchaf (cafodd Harri VII 36 pleidlais oherwydd 'brenhiniaeth'). Yr unigolion eraill oedd Dafydd ap Gwilym (barddoniaeth), Dewi Sant (Cristnogaeth gynnar), Gerallt Gymro (diwylliant a gwladgarwch), Owain Glyndŵr (gwladweiniaeth), Hywel Dda (y gyfraith), Llywelyn ein Llyw Olaf (arwriaeth), yr Esgob Morgan (crefydd) a William Williams Pantycelyn (emynyddiaeth). Ychwanegwyd unfed cerflun ar ddeg o Fuddug a'i merched. Adeg dadorchuddio'r cerfluniau pan oedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn ei hanterth, roedd gan y cerfluniau ystyr ychwanegol i adolygwyr a chynghorwyr y ddinas a oedd yn cyfeirio at 'ysbryd rhyddid' a 'hil wrol'. Arlunydd: Thomas Mewburn Crook, 1916 Dehongliad o'r safle: anhysbys	Hilling, 2016, tt. 106-10 Angela Gaffney, 1998: https://cylchgronau.llyfrgell.cymru/view/1386666/1425397/132#?xywh=-2250%2C-207%2C6914%2C4136

Enw a lleoliad	Person		Awdurdod	Perche nnog	Dynodwyd	Dadlau hyd yma		Trafodaeth	Ffynonellau
Portread o'r Is-gadfridog Syr Thomas Picton, Neuadd y Dref Caerfyrddin	Picton , Thomas	B	Sir Gaerfyrddin	Gwasanaeth Amgueddfa Sir Gaerfyrddin	Amherthna sol	Cafodd sylw yn y wasg ac ar wefan Topple the Racists, ac mae deiseb i 'roi'r gorau i'w goffáu' wedi derbyn cefnogaeth ryngwladol. Mae'r mater yn cael ei ystyried gan grŵp gorchwyl a gorffen Cyngor Sir Gaerfyrddin, Mehefin 2020.	1	Roedd Shee yn arlunydd portreadau o lwerddon a gafodd lwyddiant mawr yn Llundain ac ef oedd yn Llywydd yr Academi Frenhinol. Roedd wedi darlunio Picton ychydig flynyddoedd yn gynharach, ac mae'r darlun i'w weld yn y National Portrait Gallery yn Llundain ac yn Amgueddfa Cymru. Mae copi a arferai fod yn Llys Sirol Hwlfordd bellach i'w weld yn Amgueddfa Scolton Manor. Cafodd hwn ei beintio ar ôl marwolaeth Picton. Mae'n dangos Picton mewn gwisg filwrol lawn, heb unrhyw benwisg ond gyda'i het yn ei law a'i gleddyf wedi'i dynnu. Mae brwydr yn parhau y tu ôl iddo. Mae sawl portread o Picton gan arlunwyr eraill yn bodoli mewn casgliadau cyhoeddus. Arlunydd: Martin Archer Shee (1769-1850), tua 1815-20 Dehongliad: anhysbys	https://www.thepetitionsite.com/en-gb/251/323/762/end-commemoration-of-colonial-murderer-'sir'-thomas-picton-picton-memorial-carmarthen/?taf_id=65949028&cid=fb_na https://www.theonlinebookcompany.com/OnlineBooks/Waterloo/Celebrations/WaterlooArtefacts/36
